

Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan

All Wales Child Protection Procedures

**Cynhyrchwyd Gan Bwyllgorau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan
ac Ariannwyd Gan Lywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol**

**Produced by All Wales Area Child Protection
Committees and funded by the Welsh Assembly Government**

CYNNWYS

RHAN 1

TUDALEN

CYD-DESTUN GWAITH AMDDIFFYN PLANT	7
1.1 Egwyddorion Allweddol	7
1.2 Diffiniadau o gam-drin ac esgeuluso plant	7
1.2.1 Cam-drin corfforol	7
1.2.2 Cam-drin emosiynol	7
1.2.3 Cam-drin rhywiol	9
1.2.4 Esgeulustod	9
1.3 Ymarfer da wrth weithio gyda theuluoedd	9
1.3.1 Canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer y plentyn	9
1.3.2 Gwrando ar blant	9
1.3.3 Gweithio mewn partneriaeth gyda theuluoedd	11
1.3.4 Rhannu gwybodaeth gyda theuluoedd	11
1.3.5 Cynnig cefnogaeth a chynghor i deuluoedd	11
1.3.6 Hil, ethnigrwydd a diwylliant	13
1.3.7 Hawliau dynol	13
1.4 Cynnal plant mewn angen a'u teuluoedd - dull integredig	13
1.5 Gweithwyr proffesiynol yn gweithio gyda'i gilydd	15
1.5.1 Pwyllgorau Amddiffyn Plant y Rhanbarth	15
1.5.2 Rhannu cyfrifoldeb	17
1.5.3 Rhannu gwybodaeth ymhlith gweithwyr proffesiynol	17
1.5.4 Hyfforddiant a datblygiad rhyngasiantaethol	19

RHAN 2

SWYDDOGAETHAU A CHYFRIFOLDEBAU	21
2.1 Cyfrifoldebau pawb sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd	21

2.1.1	Beth ddylai pawb wneud	21
2.1.2	Adnabod a gweithredu ar wybodaeth, pryderon ac amheuaeth o gam-drin	23
2.1.3	Gwneud cyfeiriad	27
2.1.4	Wedi i'r cyfeiriad gael ei wneud	27
2.1.5	Cadw cofnodion	29
2.2	Swyddogaethau'r gwahanol asiantaethau	29
2.2.1	Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol awdurdodau lleol	31
2.2.2	Gwasanaethau addysg sy'n cael eu darparu gan yr awdurdodau lleol	31
2.2.3	Gwasanaethau ieuencid a chymuned yr awdurdodau lleol	33
2.2.4	Gwasanaethau diwylliant a hamdden yr awdurdodau lleol	33
2.2.5	Gwasanaethau tai yr awdurdodau lleol	33
2.2.6	Timau Troseddwy'r Ifanc	35
2.2.7	Yr Heddlu	35
2.2.8	Gwasanaethau Iechyd	37
2.2.9	Gwasanaethau gofal dydd	49
2.2.10	Gofalwyr yn gofalu am blant oddi cartref	49
2.2.11	Ysgolion a cholegau annibynnol	51
2.2.12	Cymorth i Ferched	51
2.2.13	Cyrff eraill o'r sector gwirfoddol a phreifat	51
2.2.14	Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol	53
2.2.15	Y gwasanaeth carchar	55
2.2.16	Gwasanaethau Cyngori a Chynnal y Llys Plant a Theulu (CAFCASS)	55
2.2.17	Lluoedd arfog	55
2.2.18	Y Gwasanaeth Tân	57
2.2.19	Y Gymdeithas frenhinol er atal Creulondeb i Anifeiliaid Tudalen	57
RHAN 3		
TRIN ACHOSION		59
3.1	Y broses ymchwilio - crynodeb	59
3.2	Delio gyda chyfeiriadau	59
3.2.1	Derbyn y cyfeiriad	59
3.2.2	Y tu allan i oriau swyddfa arferol	63
3.2.3	Adrodd yn ôl i'r cyfeiriwr	63

3.3	Yr Asesiad Cychwynnol	65
3.3.1	Pwrrpas a chwmpas yr Asesiad Cychwynnol	65
3.3.2	Ceisio cydsyniad rhiant	65
3.3.3	Gofyn am wybodaeth oddi wrth asiantaethau eraill	67
3.3.4	Gwneud yr Asesiad Cychwynnol	67
3.3.5	Cwblhau'r Asesiad Cychwynnol a chanlyniadau posibl	73
3.4	Y Drafodaeth Strategaeth	75
3.4.1	Cwmpas a phwrrpas y Drafodaeth Strategaeth	75
3.4.2	Canlyniadau posibl y Drafodaeth Strategaeth	75
3.4.3	Adborth i'r cyfeiriwr	75
3.5	Y Cyfarfod Strategaeth	77
3.5.1	Cwmpas a phwrrpas y Cyfarfod Strategaeth	77
3.5.2	Cynllunio'r Cyfarfod Strategaeth	77
3.5.3	Materion i'w trafod yn y Cyfarfod Strategaeth	79
3.6	Amddiffyn ar unwaith	81
3.6.1	Pryd mae'n rhaid amddiffyn ar unwaith	81
3.6.2	Y dewis o opsiynau	83
3.7	Ymholiadau Adran 47 a'r Asesiad Craidd	85
3.7.1	Cwmpas a phwrrpas	85
3.7.2	Cynllunio a gweithredu ymholiadau Adran 47 a'r Asesiad Craidd	85
3.7.3	Gweithio gyda'r plentyn a'r teulu yn ystod yr ymholiadau	91
3.7.4	Cofnodi	97
3.7.5	Canlyniad ymholiadau Adran 47	97
3.7.6	Yr Asesiad Craidd	103
3.8	Y Gynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol	103
3.8.1	Cwmpas a phwrrpas	103
3.8.2	Cynllunio'r Gynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol	105
3.8.3	Cworwm ar gyfer y Gynhadledd Amddiffyn Plant	107
3.8.4	Rhan y plentyn yn y Gynhadledd Amddiffyn Plant	107

3.8.5	Cynnwys neu gau allan y rhai gyda chyfrifoldeb rhiant/gofalwyr y plentyn	109
3.8.6	Adroddiadau ar gyfer y gynhadledd	113
3.8.7	Cadeirio'r gynhadledd	117
3.8.8	Proses y gynhadledd	119
3.8.9	Cyfrinachedd a rhannu gwybodaeth yn y gynhadledd	121
3.8.10	Canlyniadau'r Cynadleddau Amddiffyn Plant Cychwynnol	121
3.8.11	Cofnodion y Gynhadledd Amddiffyn Plant	129
3.8.12	Cwynion oddi wrth deuluoedd am y Gynhadledd Amddiffyn Plant	129
3.9	Y Gweithiwr Allweddol	131
3.10	Y Grŵp Craidd	133
3.11	Y Cynllun Amddiffyn Plant	135
3.12	Y Gynhadledd Adolygu Amddiffyn Plant	137
3.12.1	Pwrrpas y Gynhadledd Adolygu Amddiffyn Plant	137
3.12.2	Cynllunio a rhedeg y Gynhadledd Adolygu Amddiffyn Plant	137
3.12.3	Gwneud penderfyniadau	139
3.13	Y Gofrestr Amddiffyn Plant	139
3.13.1	Pwrrpas y Gofrestr Amddiffyn Plant	139
3.13.2	Rheoli'r Gofrestr Amddiffyn Plant	141
3.13.3	Ymholiadau i'r Gofrestr Amddiffyn Plant	141
3.13.4	Symudiadau plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant	143
3.13.5	Dadgofrestru	147
3.13.6	Plant sy'n derbyn gofal a chofrestriad	147
3.14	Camau i'w cymryd pan fydd gweithiwr proffesiynol yn credu nad yw plentyn yn cael ei amddiffyn yn ddigonol	147
3.15	Plant a theuluoedd sydd ar goll	149

RHAN 4

AMDDIFFYN PLANT MEWN AMGYLCHIADAU PENODOL	151
4.1 Rhagarweiniad	151
4.2 Perygl o niwed yn y dyfodol i blentyn heb ei eni	151
4.2.1 Adnabod y perygl o niwed	151
4.2.2 Camau i'w cymryd	153
4.3 Ymchwilio i gamdriniaeth luosog neu wedi'i threfnu	153
4.3.1 Diffiniadau o gamdriniaeth luosog neu wedi'i threfnu	153
4.3.2 Camau i'w cymryd	155
4.3.3 Cyfarfod Strategaeth	155
4.3.4 Cynllunio a rhedeg yr ymchwiliad	159
4.4 Plant sy'n byw i ffwrdd o'u cartref	161
4.4.1 Amgylchiadau lle mae plant yn byw i ffwrdd o'u cartref	161
4.4.2 Mesurau diogelwch hanfodol	161
4.4.3 Honiadau o staff mewn cartrefi preswyl yn cam-drin plant	163
4.4.4 Honiadau o gam-drin yn erbyn gofalydd maeth	167
4.5 Honiadau o gam-drin yn erbyn gweithiwr proffesiynol, aelod o staff neu wirfoddolwr sydd â chyswllt â phlant	175
4.5.1 Ymateb i gyfeiriadau am gamdriniaeth broffesiynol	175
4.5.2 Gwybodaeth i aelodau o staff	177
4.5.3 Cyfarfod Strategaeth	177
4.5.4 Canlyniadau'r Cyfarfod Strategaeth	179
4.5.5 Cyfarfod Adolygu Canlyniadau'r Ymchwiliad	179
4.5.6 Canllawiau pellach ar warchodwyr plant	181
4.6 Camdriniaeth gan blant a phobl ifanc	181
4.6.1 Ymateb i gamdriniaeth gan blant a phobl ifanc	181
4.6.2 Camau i'w cymryd	183
4.6.3 Cynadleddau Amddiffyn Plant Cychwynnol mewn achosion o gamdriniaeth gan blant a phobl ifanc	185

4.6.4	Y plentyn sy'n dod o dan amheuaeth	187
-------	------------------------------------	-----

4.7	Honiadau o gam-drin plant yn derbyn gofal sy'n byw y tu allan i ardal yr awdurdod lleol	187
-----	--	------------

BLYCHAU CYNGHORI

Blwch 1	Beth sydd angen i bawb ei wybod	21
Blwch 2	Os yw rhywun yn dweud wrthyh eu bod nhw neu blentyn neu berson ifanc arall yn cael eu cam-drin	25
Blwch 3	Os yw ymddygiad unrhyw oedolyn neu gydweithiwr (gan gynnwys aelod o'r cyhoedd) tuag at blant neu bobl ifanc yn peri pryder i chi	25
Blwch 4	Cynnwys aelodau o'r teulu	65
Blwch 5	Cynnwys plant	67
Blwch 6	Asesiad Cychwynnol ac ymholiadau: deg magl a sut i'w hosgoi	69
Blwch 7	Oedi	81
Blwch 8	Canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer y plentyn	85
Blwch 9	Cyfathrebu gyda phlant	93
Blwch 10	Plant mewn Angen	99
Blwch 11	Penderfynu pwy i wahodd i'r gynhadledd	107
Blwch 12	Penderfynu a ddylai'r plentyn fynd i'r gynhadledd	109
Blwch 13	Sefydlu niwed arwyddocaol	123
Blwch 14	Canolbwyntio'n ormodol ar gofrestru	125
Blwch 15	Canlyniadau gorau ar gyfer y plentyn	137
Blwch 16	Cynnwys teulu'r plentyn	137
Blwch 17	Cyfeiriadau penodol ynghylch plant mewn angen yn symud i ardaloedd eraill	145
Blwch 18	Sylwi pan fo teulu yn mynd ar goll	149
Blwch 19	A fydd y plentyn yn blentyn mewn angen?	153
Blwch 20	Lles y plentyn v. ymchwiliad troseddol	161
Blwch 21	Camdriniaeth gan blant a phobl ifanc ac anabledd/anhawster dysgu	185

NODIADAU

Gw. adran 2.2 am fwy ar y mudiadau a'r cyrff y mae'r canllawiau hyn ar eu cyfer.

RHAGAIR

Pwrrpas y canllawiau

Un o'r ffyrdd sylfaenol o wella canlyniadau, o ran diogelwch a lles, ar gyfer plant yng Nghymru, yw i asiantaethau weithio gyda'i gilydd i gadw'n ddiogel y plant sydd fwyaf agored i niwed. Mae cyhoeddi a gweithredu Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan yn nodi cam sylweddol ymlaen tuag at gyflawni hyn. Mae'r Canllawiau yn gosod safonau cyffredin ar gyfer Cymru gyfan i arwain gwaith amddiffyn plant, i'w gwneud yn glir sut ddylai asiantaethau weithio gyda'i gilydd, ac i sicrhau bod yr ymarfer yn gyson ac o ansawdd da.

Mae pob Pwyllgor Amddiffyn Plant y Rhanbarth yng Nghymru wedi cytuno i ddefnyddio'r canllawiau fel sail i'r gwaith amddiffyn plant yn eu rhanbarth hwy. Mae hyn yn golygu bod yr asiantaethau sy'n rhan o bob un o'r Pwyllgor Amddiffyn Plant y Rhanbarth lleol yn eu tro wedi ymrwymo i ddefnyddio'r Canllawiau o fewn eu corff hwy.

Ar gyfer pwy mae'r canllawiau?

Mae Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan ar gyfer pawb y mae eu gwaith yn golygu cyswllt gyda phlant a'u teuluoedd, ar draws adrannau ac asiantaethau, ac maent yn berthnasol i'r sawl sy'n gweithio yn y sectorau statudol, gwirfoddol ac annibynnol. Gall y rhain fod yn unigolion sy'n gweithio mewn ieuchyd, addysg, yr heddlu, Gwasanaethau Cymdeithasol, y gwasanaeth prawf neu wasanaethau cefnogi'r sector gwirfoddol, ynghyd ag eraill y mae eu gwaith yn eu dwyn i gysylltiad â phlant a theuluoedd ac sydd â mynediad at wybodaeth ynghylch phlant a theuluoedd.

Cyfrifoldeb pob asiantaeth yw dod â'r canllawiau hyn i sylw pob aelod o staff sy'n gweithio gyda phlant. Dylai asiantaethau unigol hefyd gael canllawiau manwl sy'n ategu'r ddogfen hon.

Mae'r canllawiau yn ddogfen gyhoeddus. Gall aelodau o'r cyhoedd fod â swyddogaeth bwysig i dynnu sylw'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r heddlu at bryderon yn ymwneud â phlant. Dylai'r canllawiau fod ar gael i aelodau'r cyhoedd sydd am eu darllen.

Sut i ddefnyddio'r canllawiau

Mae'r canllawiau mewn pedair rhan:

- Mae **Rhan 1** yn cynnig cyd-destun i waith amddiffyn plant, gan gynnwys yr egwyddorion allweddol sy'n cynnal gwaith gweithwyr proffesiynol gyda phlant a theuluoedd i hybu a diogelu lles plant, a diffiniadau o gam-drin ac esgeuluso plant.
- Mae **Rhan 2** yn waith darllen pwysig i unrhyw un sy'n dod i gyswllt â phlant drwy eu gwaith neu weithgaredd gwirfoddol. Mae'n disgrifio swyddogaethau a chyfrifoldebau'r asiantaethau a gweithwyr proffesiynol hynny y mae eu gwaith yn golygu cyswllt â phlant a theuluoedd. Mae'n gosod allan beth ddylai pobl ei wneud os oes ganddynt bryder bod plentyn yn cael ei gam-drin, neu eu bod yn amau bod perygl o gamdriniaeth.

NODIADAU

- Mae **Rhan 3** yn disgrifio'r canllawiau i'w dilyn unwaith y bydd pryderon am gamdriniaeth neu esgeulustod wedi cael eu hadrodd. Mae'n delio gydag ymholiadau ac ymchwiliadau, Cynadleddau Amddiffyn Plant, y dewisiadau posibl wrth weithredu, gwaith rhyngasiantaethol, ac adolygu achosion. Mae'n waith darllen hanfodol ar gyfer staff perthnasol y cyrff (Gwasanaethau Cymdeithasol a'r heddlu) sydd â chyfrifoldeb statudol i arwain wrth amddiffyn plant. Mae hefyd yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i bobl fydd ryw dro o bosibl yn ymwneud ag achos penodol.
- Mae **Rhan 4** yn rhoi gwybodaeth ychwanegol ar gyfer delio gydag amgylchiadau penodol neu anarferol.

Mae nodiadau yn ymyl dde'r dudalen yn tynnu sylw'r darllenydd at adrannau perthnasol o fewn y canllawiau ac at ddogfennau defnyddiol eraill, gan gynnwys canllawiau'r asiantaeth ei hun. Mae gwybodaeth sydd yno i gynghori neu ddisgrifio, ond nad yw'n ganllaw ynddo'i hun, yn cael ei dangos mewn blychau. Mae pwyntiau sy'n arbennig o bwysig yn y drefn yn cael eu hargraffu mewn print trwm.

Nid yw un asiantaeth yn gweithio ar phen ei hun yn medru amddiffyn plant, ac ni all canllawiau wneud hynny ar eu pen eu hun ychwaith. Prif bwrpas y canllawiau yw sicrhau cyfathrebu effeithiol rhwng asiantaethau a darparu fframwaith trefnus ar gyfer cymryd penderfyniadau am achosion a'u gweithredu. Er hynny, ni all canllawiau gymryd lle barn broffesiynol sydd wedi'i seilio ar asesiad trylwyr a dadansoddiad beirniadol. Mae canllawiau amddiffyn plant yn gofyn am ymarfer sgiliau a barn i'w defnyddio'n addas mewn achosion unigol ac, felly, mae *Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant* a'r canllawiau hyn yn cael eu hategu gan *Fframwaith Asesu Plant mewn Angen a'u Teuluoedd*. Mae'r paragraff canlynol yn dod o Ragair y *Fframwaith*:

Bydd effeithiolrwydd y modd y bydd anghenion y plentyn yn cael eu asesu yn allweddol i effeithiolrwydd y camau a'r gwasanaethau dilynol ac yn y pendraw y canlyniadau i'r plentyn. Mae'r *Fframwaith Asesu...* yn darparu ffordd systematig i ddod i deall yr hyn sy'n digwydd i blant yn eu teuluoedd ac yng nghyd-destun y gymuned ehangach. O'r ddealltwriaeth hon, mae modd gwneud penderfyniadau proffesiynol clir ynghylch p'un a yw'r plentyn mewn angen neu yn dioddef niwed, y camau i'w cymryd a'r gwasanaethau sydd eu hangen.

Mae'r *Fframwaith Asesu* hefyd yn darparu iaith gyffredin, wedi ei seilio ar werthoedd eglur ynghylch plant, i gynorthwyo cydweithio effeithiol ymysg staff o wahanol ddisgyblaethau ac asiantaethau a fyddai fel arall efallai yn ei chael hi'n anodd i gael dealltwriaeth ar y cyd o'r hyn sydd orau ar gyfer y plentyn.

Cyd-destun y canllawiau

Mae'r canllawiau hyn wedi'u seilio ar *Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant*, gafodd ei gyhoeddi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Adran 7 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdod Lleol 1970. Mae *Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant* yn gofyn i awdurdodau lleol yn eu swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol i weithredu dan arweiniad cyffredinol Cynulliad

NODIADAU

Cenedlaethol Cymru. Fel y cyfryw nid oes gan y ddogfen rym statudol llawn, ond dylid ei ddilyn oni bai fod amgylchiadau lleol yn awgrymu rhesymau eithriadol a fyddai'n cyfiawnhau amrywiad. Mae angen dilyn y canllawiau ochr yn ochr â *Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant*. Nid ydynt i gymryd lle'r ddogfen honno ac anogir y darllenydd i gyfeirio at arweiniad *Gweithio Gyda'n Gilydd* yn ogystal â'r canllawiau.

Mae egwyddorion Cytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a hefyd y rhai a geir yn Neddf Plant 1989 yn sail i'r canllawiau hyn. Maent hefyd yn cymryd sylw arbennig o'r canlynol:

- *Lost in Care, the Report of the Tribunal of Inquiry into the abuse of children in care in the former county council areas of Gwynedd and Clwyd since 1974*, Adran Iechyd, 2000
- *Fframwaith Asesu Plant a'u Teuluoedd*, Adran Iechyd, 2000
- *Achieving Best Evidence in Criminal Proceedings - Guidance for Vulnerable or Intimidated Witnesses including Children* Y Swyddfa Gartref, 2002
- *Practice Guide to Investigating Allegations of Abuse against a Professional or Carer in relation to Children Looked After*, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2000
- *Child Protection - Messages from Research*, Adran Iechyd, 1995
- *Learning How to Make Children Safer: An Analysis for the Welsh Office of Serious Child Abuse Cases in Wales*, University of East Anglia, 1999
- *Safeguarding Children Involved in Prostitution* Adran Iechyd, 2000
- *Plant yn Gyntaf* Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 1999
- *The Human Rights Act* 1998
- *Safe from Harm*, Y Swyddfa Gartref, 1993

NODIADAU

1 • CYD-DESTUN GWAITH AMDDIFFYN PLANT

1.1 Egwyddorion allweddol

Mae'r egwyddorion allweddol a ddylai fod yn sail i weithio gyda phlant a theuluoedd i'w cael yn Neddf Plant 1989 a *Cytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn*, y mae'r DU wedi'i lofnodi.

Mae pob plentyn yn haeddu'r cyfle i gyrraedd ei botensial llawn. Dylent gael eu galluogi i gyflawni'r canlynol:

- bod mor iach ag y mae modd yn gorfforol ac yn feddyliol;
- cael y budd pennaf o gyfleoedd addysgol o ansawdd da;
- byw mewn amgylchedd diogel a chael eu hamddiffyn rhag niwed;
- profi iechyd emosiynol;
- teimlo'u bod yn cael eu caru a'u gwerthfawrogi, a'u cynnal gan rwydwaith o gydberthynas ddibynadwy a chariadus;
- dod yn gymwys i edrych ar eu hól eu hun a delio gyda byw bob dydd;
- bod â delwedd gadarnhaol ohonynt eu hunain ac ymdeimlad diogel o hunaniaeth, gan gynnwys hunaniaeth diwylliant a hil;
- datblygu sgiliau rhyngpersonol da a hyder mewn sefyllfaoedd cymdeithasol.

1.2 Diffiniadau o gam-drin ac esgeuluso plant

Gall rhywun gam-drin neu esgeuluso plentyn drwy beri niwed iddo, neu drwy fethu gweithredu i atal niwed. Gall plant gael eu cam-drin mewn sefyllfa o fewn y teulu neu o fewn sefydliad, gan y rhai sy'n eu hadnabod, neu yn llai aml, gan rywun dieithr. Gall plentyn neu berson ifanc hyd at 18 oed ddioddef camdriniaeth neu esgeulustod a bod angen eu hamddiffyn drwy Gynllun Amddiffyn Plant rhyngasiantaethol.

1.2.1 *Cam-drin corfforol*

Gall cam-drin corfforol olygu taro, ysgwyd, taflu, gwenwyno, llosgi neu sgaldio, boddi, mygu, neu achosi niwed corfforol mewn ffordd arall i blentyn. Gall niwed corfforol hefyd gael ei achosi pan fydd rhiant neu ofalydd yn ffugio symptomau, neu yn fwriadol yn achosi iechyd gwael i blentyn y maent yn gofalu amdano. Efallai y bydd y gofalydd yn disgrifio'r sefyllfa hon fel afiechyd y mae'r plentyn wedi'i ffugio neu ei greu.

1.2.2 *Cam-drin emosiynol*

Cam-drin emosiynol yw trin plentyn yn wael yn emosiynol yn barhaus fel bod hyn yn achosi effeithiau drwg difrifol a pharhaus ar ddatblygiad emosiynol y plentyn. Gall olygu cyfleu i'r plentyn ei fod yn ddiwerth neu fod neb yn ei garu, ei fod yn annigonol neu fod gwerth arno yn unig i'r graddau ei fod yn ateb anghenion rhywun arall. Gall olygu bod disgwyliadau amhriodol o ran oed neu ddatblygiad yn cael eu gosod ar blant. Gall olygu fod plant yn aml yn teimlo ofn

NODIADAU

neu mewn perygl, neu fod plant yn cael eu hecsploetio neu eu llygru. Mae rhyw lefel o gam-drin emosiynol yn digwydd ym mhob math o gamdriniaeth i blant, er y gall ddigwydd ar ei ben ei hun.

1.2.3 Cam-drin rhywiol

Mae cam-drin rhywiol yn golygu gorfodi neu ddenu plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol, p'un ai yw'r plentyn yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd ai peidio. Gall y gweithgareddau hyn gynnwys cyswllt corfforol, gan gynnwys gweithredoedd treiddiol neu heb fod yn dreiddiol. Gallant gynnwys gweithgareddau lle na cheir cyswllt corfforol, megis plant yn cymryd rhan mewn edrych ar ddeunydd pornograffig, neu gynhyrchu deunydd o'r fath, neu edrych ar weithgareddau rhywiol, neu annog plant i ymddwyn mewn ffyrdd rhywiol amhriodol.

1.2.4 Esgeulustod

Esgeulustod yw methiant parhaus i gyfarfod ag anghenion corfforol a/neu seicolegol sylfaenol plentyn, sy'n debyg o olygu y bydd iechyd neu ddatblygiad y plentyn wedi'i amharu'n ddifrifol. Gall gynnwys methiant rhiant neu ofalydd i ddarparu bwyd, cysgod a dillad digonol, methiant i amddiffyn plentyn rhag niwed neu berygl corfforol, neu'r methiant i sicrhau mynediad at ofal neu driniaeth feddygol briodol. Gall hefyd gynnwys esgeuluso, neu beidio ymateb i, anghenion emosiynol sylfaenol plentyn.

1.3 Ymarfer da wrth weithio gyda theuluoedd

1.3.1 Canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer y plentyn

Yr egwyddor lywodraethol sy'n rheoli pob maes gwaith gyda phlant a theuluoedd yw mai lles y plentyn yw'r brif ystyriaeth. Dylid rhoi ystyriaeth fanwl bob amser i'r hyn y mae unrhyw ymyrraeth yn bwriadu'i gyflawni, yn enwedig o ran lles tymor hir y plentyn. Wrth gynllunio a gweithredu ymyraethau, y nod bob amser ddylai fod canlyniadau tymor hir da o ran iechyd, datblygiad a chyrhaeddiad addysgol ar gyfer plant lle ceir pryderon amddiffyn plant.

1.3.2 Gwrando ar blant

Mae'n bwysig cynnwys plant a rhoi'r grym iddynt drwy bob cam yn y broses amddiffyn plant ac ymgynghori gyda hwy mewn modd sensitif. Dylai eu dymuniadau a'u teimladau bob amser oleuo unrhyw benderfyniadau sy'n cael eu gwneud amdanynt. Yn aml mae gan blant sy'n ddigon hen ac sydd â digon o ddealltwriaeth ganfyddiad clir o'r hyn sydd angen ei wneud i sicrhau eu diogelwch a'u lles. Dylent gael eu helpu i ddeall sut mae'r broses amddiffyn plant yn gweithio, sut y gallant gymryd rhan ynddi, a'u bod yn medru cyfrannu at benderfyniadau ynghylch eu dyfodol yn unol â'u hoed a'u dealltwriaeth. Fodd bynnag, dylent gael eu helpu i ddeall y bydd penderfyniadau, yn y pen draw, yn cael eu cymryd yng ngoleuni'r holl wybodaeth sydd ar gael sy'n cael ei chyfrannu ganddynt hwy, gweithwyr proffesiynol, eu rhieni, aelodau eraill o'r teulu ac oedolion arwyddocaol.

Gw. adrannau 3.3.4, 3.7.3 a 3.8.4 a blychau 5,9 a 12 am fwy ar weithio gyda phlant.

Gw. 'Gweithio gyda'n Gilydd' 7.12

NODIADAU

Gw. adrannau 3.3.2, 3.7.3 a 3.8.5 a blychau 4 ac 16 am fwy ar weithio gyda theuluoedd.

1.3.3 Gweithio mewn partneriaeth gyda theuluoedd

Mae gan aelodau o'r teulu ran unigryw a phwysig ym mywydau plant, sy'n rhoi gwerth mawr ar eu perthynas â phobl yn y teulu. Mae aelodau'r teulu yn gwybod mwy am eu teulu nag y gallai unrhyw weithiwr proffesiynol fyth ei wybod, a dylai penderfyniadau doeth ynghylch plentyn dynnu ar y wybodaeth a'r ddealltwriaeth hon. Dylai aelodau o'r teulu fel arfer gael yr hawl i wybod beth sy'n cael ei ddweud amdanynt, a chyfrannu i benderfyniadau pwysig ynghylch eu bywydau a bywydau eu plant.

Lle mae angen ymyrraeth orfodol ym mywyd teulu, dylid helpu ac annog rhieni o hyd i chwarae rhan mor llawn â phosibl mewn penderfyniadau ynghylch eu plentyn. Dylai fod yna ragdybiaeth o fod yn agored, gwneud penderfyniadau ar y cyd a pharodrwydd i wrando ar deuluoedd ac elwa ar eu cryfderau, ond yr egwyddor gyffredinol ddylai fod bob amser i weithredu er lles pennaf y plentyn.

Nid yw hyn yn golygu, er enghraifft, y dylai rhieni fynychu pob cyfarfod sy'n cael ei gynnal ynghylch eu teulu. Ceir adegau pan fydd hi'n briodol ac yn angenrheidiol i weithwyr proffesiynol gyfarfod â'i gilydd heb rieni er mwyn ystyried eu hymarfer eu hun mewn achos arbennig neu i ddelio gyda mater sy'n debyg o arwain at ymholiadau troseddol. Mae Cyfarfodydd Strategaeth, ac weithiau cyfarfodydd cynllunio, yn enghreifftiau o hyn.

Mae cyfarfodydd/cynadleddau grŵp teulu wedi cael eu datblygu mewn nifer o ardaloedd fel dewis cadarnhaol i gynllunio gwasanaethau ar gyfer plant a'u teuluoedd. Maent yn ddull effeithiol o gynllunio a phenderfynu ac yn defnyddio sgiliau a phrofiad y teulu ehangach, yn ogystal â'r gweithwyr proffesiynol. Lle maent ar gael dylid eu hystyried fel ffordd gadarnhaol o reoli amddiffyn plant.

1.3.4 Rhannu gwybodaeth gyda theuluoedd

Mae angen rhoi ystyriaeth ofalus i hyn ar bob cam o'r drefn. Mae peth o'r wybodaeth sy'n hysbys i weithwyr proffesiynol y dylid ei thrin yn gyfrinachol ac ni ddylid eu rhannu gyda theuluoedd. Mae angen gwneud yn glir beth yw'r rhesymau dros beidio datgelu gwybodaeth ond rhaid mai'r angen i ddiogelu lles y plentyn yw'r ystyriaeth bennaf mewn sefyllfaoedd o'r fath.

1.3.5 Cynnig cefnogaeth a chyngor i deuluoedd

Mae hyn yn rhan hanfodol o weithio mewn partneriaeth. Mae llawer o deuluoedd yn gweld ymwneud proffesiynol yn eu bywydau fel peth poenus ac ymwithiol, yn enwedig os ydynt yn teimlo bod eu gofal o'u plant yn cael ei gwestiynu. Gall gweithwyr proffesiynol wneud y broses amddiffyn plant yn llai straenus i deuluoedd drwy'r ffordd y maent yn mynd ati i weithio mewn partneriaeth. Gall plant a'u teuluoedd gael eu cynnal drwy eu hymwneud yn y broses amddiffyn plant gan wasanaethau cynghori ac eiriolaeth a dylent bob amser gael gwybod amdanynt. Mae gan y Gwasanaethau Cymdeithasol gyfrifoldeb i wneud yn siwr fod gan blant ac oedolion yr holl wybodaeth sydd arnynt ei hangen i'w helpu i ddeall prosesau amddiffyn plant. Dylai cefnogaeth a chyngor fod ar gael i'r teulu yn eu dewis iaith. Dylai gwybodaeth fod yn glir ac yn hawdd cael ati a hefyd ar gael yn newis iaith y teulu.

NODIADAU

Gw. 'Gweithio
gyda'n Gilydd' 7.2.4

1.3.6 Hil, Ethnigrwydd a Diwylliant

Er mwyn gwneud penderfyniadau proffesiynol sensitif a gwybodus am anghenion plentyn a gallu rhieni i ymateb i anghenion eu plentyn, mae'n bwysig fod gweithwyr proffesiynol yn sensitif i batrymau a ffyrdd o fyw teuluoedd gwahanol a phatrymau magu plant sy'n amrywio ar draws grwpiau hil, ethnig a diwylliannol gwahanol. Dylai gweithwyr proffesiynol hefyd fod yn ymwybodol o'r ffactorau cymdeithasol ehangach sy'n gwahaniaethu yn erbyn pobl ddu a phobl o grwpiau ethnig lleiafrifol.

Dylai'r broses asesu bob amser gynnwys ystyriaeth o'r ffyrdd y mae credoau crefyddol a thraddodiadau diwylliannol mewn grwpiau hil, ethnig a diwylliannol gwahanol yn dylanwadu ar eu gwerthoedd, eu hagweddau a'u hymddygiad a'r ffordd y mae bywyd y teulu a'r gymuned yn cael ei strwythuro a'i drefnu. Dylai gweithwyr proffesiynol ofalu rhag mythau a stereoteipiau, cadarnhaol neu negyddol, ond ni ddylai pryder ynghylch cael eu cyhuddo o ymarfer hiliol rwystro'r camau angenrheidiol rhag cael eu cymryd i ddiogelu plentyn.

Pan fydd angen, dylai gwasanaethau lladmeryddol a chyfieithu priodol annibynnol, a chyfieithwyr arwyddion fod ar gael yn ddi-rwystr pan fo gweithwyr proffesiynol mewn cysylltiad gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Ni ddylid defnyddio plant a phobl ifanc fel yr unig gyfieithwyr neu ladmeryddion.

1.3.7 Hawliau dynol

Wrth benderfynu pa gamau i'w cymryd mewn sefyllfa arbennig, dylid ystyried hawliau dynol y plentyn a'i deulu, yn arbennig hawl y plentyn a'r rhieni i fywyd preifat a theuluol. Weithiau gall fod yn angenrheidiol torri ar draws yr hawliau hynny. Pan fydd llwybr gweithredu yn awgrymu ei bod hi'n debygol y bydd yn rhaid torri ar draws yr hawliau hyn, rhaid rhoi rhesymau ysgrifenedig llawn am hynny.

1.4 Cynnal plant mewn angen a'u teuluoedd - dull integredig

Mae *Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant* yn pwysleisio'r dull integredig, gan ddefnyddio'r *Fframwaith Asesu Plant mewn Angen a'u Teuluoedd* i ymgymryd ag ystod eang o asesiadau sy'n cadw ffocws clir ar les y plentyn yn hytrach na ffocws cul ar amddiffyn plant. Dylid gosod unrhyw asesiad o fewn y wybodaeth o'r plentyn cyfan a'i rwydwaith o roddwyr gofal.

Ni ddylid gweld mesurau effeithiol i ddiogelu plant ar eu pen eu hun ar wahân i'r amrediad ehangach o gefnogaeth a gwasanaethau sydd ar gael i ateb anghenion plant a'u teuluoedd. Os yw prosesau amddiffyn plant i fod i roi gwell canlyniadau i blant, yna dylid sylfaenu cynlluniau effeithiol i ddiogelu plant a hybu eu lles ar asesiad eang o anghenion y plentyn ac amgylchiadau ei deulu. Gall ymholiadau amddiffyn plant ddwyn i'r golwg anghenion arwyddocaol am gefnogaeth a gwasanaethau ymysg plant a'u teuluoedd nad ydynt yn cael eu diwallu. Dylid bob amser ystyried rhain yn benodol, hyd yn oed pan nad yw pryderon ynghylch niwed arwyddocaol yn cael eu cadarnhau. Yn yr un modd,

NODIADAU

dylai gwasanaethau cefnogi teuluoedd bob amser fod yn effro i ddangosyddion posibl camdriniaeth ac esgeulustod.

Yn y rhan fwyaf o achosion, penderfyniad y rhieni ddylai fod pryd i ofyn am help a chynghor ynghylch gofal a magwraeth eu plant. Dim ond mewn achosion eithriadol y dylai fod yna ymyrraeth orfodol ym bywyd teulu, er enghraifft, pam fydd angen diogelu plentyn rhag niwed arwyddocaol. Dylai ymyrraeth o'r fath, os yw hyn yn gyson gyda lles y plentyn, gefnogi teuluoedd i wneud eu cynlluniau eu hun am les a diogelwch eu plant.

Gall plant anabl fod mewn perygl arbennig o gael eu niweidio. Mae ganddynt yr un hawliau â phlant eraill i gael eu hamddiffyn. Bydd pob cyfeiriad sy'n cynnwys plant anabl yn dilyn yr un broses â'r rhai ar gyfer pob plentyn arall ond dylid rhoi ystyriaeth ofalus ar bob cam i sicrhau fod anghenion unigol y plentyn yn cael eu cymryd i ystyriaeth.

1.5 Gweithwyr proffesiynol yn gweithio gyda'i gilydd

1.5.1 Pwyllgorau Amddiffyn Plant y Rhanbarth

Rhaid i bob awdurdod lleol gael Pwyllgor Amddiffyn yn gwasanaethu'i ardal. Fforwm ryngasiantaethol yw'r Pwyllgor Amddiffyn ar gyfer penderfynu sut ddylai'r gwahanol wasanaethau a grwpiau proffesiynol gydweithio i ddiogelu plant yn yr ardal honno, a gwneud yn siwr fod trefniadau yn gweithio'n effeithiol i ddod â chanlyniadau da ar gyfer plant.

Cyfrifoldebau penodol Pwyllgor Amddiffyn yw:

- datblygu a chytuno ar bolisiâu a chanllawiau lleol ar gyfer gwaith rhyngasiantaethol i amddiffyn plant, o fewn y fframwaith genedlaethol a roddwyd gan *Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant*;
- archwilio a gwerthuso pa mor dda mae gwasanaethau lleol yn gweithio gyda'i gilydd i amddiffyn plant, er enghraifft drwy archwiliadau ehangach o achosion;
- gosod yn eu lle amcanion a dangosyddion perfformiad ar gyfer amddiffyn plant, o fewn y fframwaith a'r amcanion sy'n cael eu henwi yn y Cynlluniau Gwasanaethau Plant;
- annog a helpu i ddatblygu perthynas waith effeithiol rhwng gwahanol wasanaethau a grwpiau proffesiynol, yn seiliedig ar ymddiriedaeth a chyd-ddeall;
- sicrhau fod yna lefel o gytundeb a dealltwriaeth ar draws asiantaethau ynghylch diffiniadau gweithredu a'r trothwy ar gyfer ymyrraethau;
- gwella ffyrdd lleol o weithio yng ngoleuni gwybodaeth a enillwyd drwy brofiad ac ymchwil cenedlaethol a lleol, a gwneud yn siwr fod unrhyw wersi yn cael eu rhannu, eu deall a'u gweithredu;
- ymgymryd ag adolygiadau achos lle mae plentyn wedi marw neu - o dan rai amgylchiadau - wedi cael ei niweidio'n ddifrifol, a lle mae camdriniaeth neu esgeulustod wedi cael eu cadarnhau neu eu hamau; gwneud yn siwr fod

NODIADAU

Gw. 'Gweithio
gyda'n Gilydd' 4.2

Gw. adran 3.8.9 am
fwy ar rannu
gwybodaeth ymhlith
gweithwyr
proffesiynol.

unrhyw wersi o'r achos yn cael eu deall a'u gweithredu;

- cyfathrebu'n glir i wasanaethau unigol a grwpiau proffesiynol y cyfrifoldeb y maent yn ei rannu i amddiffyn plant, ac esbonio sut y gall pob un gyfrannu;
- helpu i wella ansawdd gwaith amddiffyn plant a gwaith rhyngasiantaethol drwy fanylu ar yr anghenion ar gyfer hyfforddiant a datblygiad rhyngasiantaethol, a sicrhau bod hyfforddiant yn cael ei roi;
- codi ymwybyddiaeth o fewn y gymuned ehangach ar yr angen i ddiogelu plant a hybu eu lles ac esbonio sut all y gymuned ehangach gyfrannu tuag at yr amcanion hyn;
- archwilio cwynion neu bryderon a fynegwyd gan unrhyw weithiwr proffesiynol ynghylch y ffordd y mae achosion unigol yn cael eu trin.

1.5.2 Rhannu cyfrifoldeb

Mae *Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant* yn pwysleisio fod amddiffyn plant yn dibynnu yn fwy na dim ar rannu gwybodaeth, cydweithio a chyd-ddeall effeithiol rhwng asiantaethau a gweithwyr proffesiynol. Mae disgwyl i bob asiantaeth gyfrannu at ba gamau bynnag sydd eu hangen i ddiogelu'r plentyn a hybu ei les ef neu hi. Mae hyn angen perthynas adeiladol rhwng unigolion, gyda chefnogaeth arweiniad cryf oddi wrth yr aelodau etholedig a'r prif swyddogion. Un o ganfyddiadau astudiaeth ymchwil yr Adran Iechyd, *Child Protection: Messages from Research*, oedd fod gwaith rhyngasiantaethol yn aml yn gymharol dda yn ystod camau cynnar ymholiadau, ond fod ei effeithiolrwydd yn tueddu i ddirywio unwaith fod Cynlluniau Amddiffyn Plant wedi cael eu gwneud, gan adael Gwasanaethau Cymdeithasol yn unig gyda'r cyfrifoldeb dros weithredu'r cynlluniau.

1.5.3 Rhannu gwybodaeth ymhlith gweithwyr proffesiynol

Mae'n hanfodol bod gwybodaeth berthnasol yn cael ei chyfnewid rhwng gweithwyr proffesiynol er mwyn diogelu plant. Er y gall y rhai sy'n darparu gwasanaethau i oedolion a phlant fod yn bryderus ynghylch yr angen i gydbwysu eu dyletswyddau i amddiffyn plant rhag niwed a'u dyletswydd gyffredinol tuag at eu claf neu ddefnyddiwr eu gwasanaeth, rhaid i'r ystyriaeth fwyaf bob amser fod ynghylch lles y plentyn. Pryd bynnag y bo'n bosibl, dylid cael cydsyniad cyn rhannu gwybodaeth bersonol gyda thrydydd parti ond rhaid i'r 'budd cyhoeddus' mewn amddiffyn plant bob amser fod yn drech na'r 'budd cyhoeddus' o gadw cyfrinachedd neu gael cydsyniad oddi wrth deuluoedd. Diogelwch y plentyn yw'r brif ystyriaeth bob amser.

Mae'r egwyddor hon wedi'i gorseddu yn y *Children Act 1989*, ac yn awr mae Adran 115 y *Crime and Disorder Act 1998* hefyd yn diffinio pryd y gellir datgelu gwybodaeth. Cyngor Cymdeithas Prif Gwnstablaid Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ynghylch cydsyniad a rhannu gwybodaeth yw hyn:

Cydsyniad

Gellir osgoi llawer o'r ystyriaethau Gwarchod Data ynghylch datgelu gwybodaeth os yw cydsyniad gwybodus yr unigolyn wedi'i geisio a'i gael.

NODIADAU

Rhaid i gydsyniad gael ei roi yn rhydd ar ôl i'r dewisiadau eraill a'r canlyniadau gael eu gwneud yn glir i'r sawl y gofynnir caniatâd ganddo. Os yw'r data wedi'i ddsbarthu fel data sensitif rhaid i'r cydsyniad fod wedi'i roi yn eglur. Yn yr achos hwn dylid esbonio manylion penodol y prosesu, y mathau arbennig o ddata sydd i gael eu prosesu, dibenion y prosesu ac unrhyw agweddau arbennig o'r prosesu a allai effeithio ar yr unigolyn, e.e. datgeliadau.

Budd y Cyhoedd

Os nad yw cydsyniad gwybodus wedi'i geisio neu os yw wedi'i geisio a'i wrthod yna rhaid i'r asiantaeth ystyried a oes budd cyhoeddus pwysicach sy'n cyfiawnhau'r datgelu. Wrth wneud y penderfyniad hwn dylid ystyried y cwestiynau canlynol:

- A yw'r datgeliad yn angenrheidiol er mwyn atal neu ganfod trosedd, atal anhrefn, gwarchod diogelwch y cyhoedd, neu amddiffyn hawliau a rhyddid eraill?
- A yw'r datgeliad yn angenrheidiol er mwyn amddiffyn pobl ifanc neu bobl eraill hawdd eu niweidio?
- Beth yw'r peryglon i eraill o du'r unigolyn hwn?
- Pa mor agored i niwed yw'r rhai a all fod mewn perygl?
- Beth fydd effaith y datgeliad ar y troseddwr?
- A yw'r datgeliad yn gymesur â'r bwriad neu'r nod?
- A oes yna ddulliau eraill sydd yr un mor effeithiol ond yn llai ymwthiol o gyrraedd y nod hwnnw?

Gw. 'Gweithio gyda'n Gilydd' 9.7

1.5.4 Hyfforddiant a datblygiad rhyngasiantaethol

Dylai hyfforddiant rhyngasiantaethol ychwanegu at yr hyfforddiant sydd ar gael i staff mewn sefyllfaoedd asiantaethol neu broffesiynol. Dylai hyfforddiant greu ethos sy'n rhoi gwerth ar weithio ar y cyd gyda gweithwyr proffesiynol eraill, sy'n parchu amrywiaeth, sy'n blentyn ganolog, yn hybu partneriaeth gyda phlant a theluedd ac yn adnabod cryfderau theluedd mewn ymateb i anghenion eu plant.

Pwrpas hyfforddiant rhyngasiantaethol yw helpu i ddatblygu a meithrin y canlynol er mwyn cael gwell canlyniadau i'r plant:

- dealltwriaeth gyffredin o'r tasgau, y prosesau, yr egwyddorion, swyddogaethau a chyfrifoldebau a threfniadau lleol ar gyfer diogelu plant a hybu eu lles;
- gwasanaethau cydlynol ar y lefel strategol a lefel achosion unigol;
- gwell cyfathrebu rhwng gweithwyr proffesiynol gan gynnwys dealltwriaeth gyffredin o dermau allweddol, diffiniadau a throthwy ar gyfer gweithredu;
- perthynas waith effeithiol, yn seiliedig ar barch a dealltwriaeth o swyddogaeth a chyfraniad gwahanol ddisgyblaethau;
- penderfyniadau dibynadwy yn seiliedig ar rannu gwybodaeth, drwy asesu, dadansoddi'n feirniadol a barn broffesiynol.

NODIADAU

Gw. adran 2.1.3 am fanylion ar sut i wneud cyfeiriad.

Gw. hefyd y canllawiau sydd gan eich mudiad neu'ch corff chi.

Gw. 'Fframwaith Asesu Plant Mewn Angen a'u Teuluoedd'

2 • SWYDDOGAETHAU A CHYFRIFOLDEBAU

2.1 Cyfrifoldebau pawb sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd

2.1.1 Beth ddylai pawb ei wneud

Os oes gan unrhyw berson wybodaeth, bryderon neu amheuaeth fod plentyn yn dioddef, wedi dioddef neu yn debygol o fod mewn perygl o ddioddef niwed, mae'n gyfrifoldeb arnynt sicrhau bod eu pryderon yn cael eu cyfeirio at y Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r Heddlu, sydd â phwerau a dyletswyddau statudol i ymchwilio ac ymyrryd pan fydd angen.

Blwch 1 • Beth sydd angen i bawb ei wybod

Dylai pawb sydd yn debygol o ddod ar draws pryderon am les a diogelwch plentyn neu blant, wybod:

- Yr egwyddorion sydd wedi eu cynnwys yn *Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant*
- Pa wasanaethau sydd ar gael yn lleol, a sut mae cael mynediad atynt
- Pa ffynonellau cyngor neu arbenigedd sydd ar gael, pwy i gysylltu â hwy, a sut
- Beth sydd o fewn y canllawiau amddiffyn plant a chanllawiau mewnol yr asiantaeth
- Pryd a sut mae gwneud cyfeiriad i'r adran Gwasanaethau Cymdeithasol.

Yn ogystal â'r ddyletswydd i gyfeirio, mae yna ffyrdd eraill y gall y sawl sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd gyfrannu i ddiogelu plant a'r drefn o'u hamddiffyn. Mae'r canlynol yn rhestr o'r hyn ddylai pawb ei wneud:

- Trin lles y plentyn fel y brif ystyriaeth;
- Bod yn effro i arwyddion posibl o gamdriniaeth ac esgeulustod;
- Bod yn effro i'r peryglon posibl i blant o du unigolion sy'n cam-drin neu a allai gam-drin plant;
- Adnabod pryd mae gan riant neu ofalydd broblemau a all effeithio ar eu gallu fel rhiant neu ofalydd neu olygu eu bod mewn perygl o achosi niwed i blentyn;
- Bod yn ymwybodol o effaith camdriniaeth ac esgeulustod ar blant;
- Rhannu a chynorthwyo i ddadansoddi gwybodaeth fel bo modd gwneud asesiad gwybodus o angen ac amgylchiadau plentyn, gan ddefnyddio'r *Fframwaith Asesu*;
- Cyfrannu yn ôl y galw i ba bynnag gamau sydd eu hangen i ddiogelu'r plentyn a hyrwyddo ei les ef neu hi;
- Cyfrannu yn ôl y galw i bob cam o'r broses amddiffyn plant;
- Cyfrannu, yn ôl y gofyn i adolygu'n rheolaidd y canlyniadau i'r plentyn yn ôl amcanion penodol y maent yn eu rhannu;
- gweithio mewn cydweithrediad â'r rhieni, oni bai bod hyn yn anghyson â'r angen i sicrhau diogelwch y plentyn;

NODIADAU

*Gw. hefyd Pennod 7
ac Atodiad 3 'Deddf
Amddiffyn Plant
1999' yn 'Gweithio
gyda'n Gilydd'.*

*Gw. adran 3.6 am
wybodaeth am
gamau i'w cymryd
ar unwaith i
amddiffyn plentyn.*

*Gw. adran 4.5 am
fwy ar amheuan o
gam-drin
proffesiynol.*

- bod yn ymroddedig i gydweithio'n llawn gydag asiantaethau eraill er mwyn diogelu plant.

Mae gan bob asiantaeth sydd wedi'i rhestru yn adran 2.2 gyfrifoldeb i amddiffyn plant ac mae dyletswydd wedi'i gosod ar bawb sy'n gweithio i'r asiantaethau hyn i fynegi eu pryderon. Nid yw hyn yn fater o ddewis unigol.

Nid yw'n dderbyniol cyngori plant na'u teuluoedd i hunan-atgyfeirio. Cyfrifoldeb gweithwyr proffesiynol yw sicrhau bod atgyfeiriad wedi'i ddogfennu gan y Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r Heddlu. (Adroddiad Kelly Para 233.1).

Rhaid rhoi gwybod i'r Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r Heddlu am amheuan o gam-drin. Rhain yw'r unig asiantaethau (ar wahân i'r NSPCC) sydd â phwerau statudol i ymchwilio i amheuaeth o gam-drin. Ni ddylai asiantaethau ymgymryd â'u hymchwiliadau mewnol eu hunain ond cyfeirio ymlaen yn unol â'r drefn sy'n cael ei disgrifio isod. Ni ddylai asiantaethau wneud penderfyniadau eu hunain ynghylch p'un ai yw pryder yn ymwneud ag aelod penodol o'u staff yn fater disgyblaeth neu yn fater amddiffyn plant. Dim ond gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Heddlu yn cymryd rhan y dylid ystyried materion cymhleth o'r fath.

Dylai'r drefn wrth recriwtio a dewis fod yn drylwyr a dylai greu trothwy mynediad uchel er mwyn atal rhai sy'n cam-drin.

2.1.2 Adnabod a gweithredu ar wybodaeth, pryderon ac amheuaeth o gam-drin

Dylai unrhyw un sydd â phryderon ynghylch lles plentyn neu blant ysgrifennu eu pryderon, p'un ai y bydd camau pellach yn cael eu cymryd ai peidio. Os yn bosibl, dylai'r person sy'n bwriadu gwneud y cyfeiriad chwilio am gyngor am ei bryderon gan gydweithwyr, goruchwylwyr, rheolwyr, gweithiwr proffesiynol a enwyd neu ddynodedig, neu asiantaethau eraill, **ond ni ddylai'r trafod hyn fyth oedi gweithredu brys i amddiffyn plentyn.** Dylai unrhyw drafod ynghylch lles plentyn gael ei gofnodi mewn ysgrifen, gan gynnwys nodyn o'r dyddiad a phwy fu'n rhan o'r drafodaeth. Ar ddiwedd y drafodaeth, dylai fod cytundeb clir a phenodol ynghylch pwy fydd yn gwneud beth, neu fod cytundeb na fydd gweithredu pellach ar y mater. Dylai'r cytundeb hwn gael ei gofnodi yn ysgrifenedig hefyd.

Gall amheuaeth o gam-drin fod ar ffurf 'pryderon' yn lle 'ffeithiau hysbys'. Mae modd rhannu pryderon gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol drwy wneud cyfeiriad a dylid gwneud hynny. Er na fydd pryderon o anghenraid yn cychwyn ymchwiliad ynddynt eu hunain, gallant gynorthwyo i greu darlun, gyda phryderon o ffynonellau eraill, sy'n awgrymu bod plentyn efallai yn dioddef niwed.

Mae gan asiantaethau sy'n cael eu cynrychioli ar y Pwyllgor Amddiffyn drefniant i wneud ymholiadau i'r Gofrestr Amddiffyn Plant i weld a yw plentyn eisoes wedi'i gofrestru. Gall gweithiwr un o'r asiantaethau hyn, sydd â phryder am blentyn ac sydd am wybod a yw plentyn wedi'i gofrestru fel 'mewn perygl' ac/neu yn destun Cynllun Amddiffyn Plant rhyngasiantaethol, wneud ymholiad i'r gofrestr.

NODIADAU

Blwch 2 • Os yw rhywun yn dweud wrthych eu bod nhw neu blentyn neu berson ifanc arall yn cael eu cam-drin

- Dangoswch eich bod wedi clywed yr hyn maen nhw'n ei ddweud, a'ch bod yn cymryd yr honiad o ddifrif.
- Anogwch y plentyn i siarad, ond heb bromptio na gofyn cwestiynau arweiniol. Peidiwch torri ar draws y plentyn pan fydd yn cofio digwyddiadau arwyddocaol. Peidiwch gwneud i'r plentyn ailadrodd ei ddisgrifiad o'r hyn ddigwyddodd.
- Esboniwch pa gamau mae'n rhaid i chi eu cymryd, mewn ffordd sydd yn addas i oed a dealltwriaeth y plentyn.
- Peidiwch addo i gadw'r hyn ddywedwyd wrthych yn gyfrinach, gan fod gennych gyfrifoldeb i ddatgelu gwybodaeth i'r rhai sydd ag angen gwybod. Nid yw adrodd ar bryderon yn bradychu ymddiriedaeth.
- Ysgrifennwch yr hyn ddywedwyd wrthych, gan ddefnyddio'r union eiriau os yn bosibl.
- Gwnewch nodyn o'r dyddiad, yr amser, y fan a'r bobl oedd yn bresennol yn y drafodaeth.
- Rhewch adroddiad o'ch pryderon i'ch rheolwr llinell neu (os yw'n briodol) i'r aelod o staff yn eich corff sydd â chyfrifoldeb dynodedig am amddiffyn plant.
- Sicrhewch fod eich pryderon yn cael eu trosglwyddo ar unwaith i'r gweithiwr cymdeithasol sydd ar ddyletswydd yn y swyddfa leol. Peidiwch oedi.
- Peidiwch mynd i chwilio am y camdriniwr honedig.
- Peidiwch poeni y gallech fod yn anghywir. Byddwch bob amser yn cael eich cymryd o ddifrif gan y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'n well bod wedi trafod y mater gyda rhywun sydd â'r phrofiad a'r cyfrifoldeb i wneud asesiad.

Blwch 3 • Os yw ymddygiad unrhyw oedolyn neu gydweithiwr (gan gynnwys aelod o'r cyhoedd) tuag at blant neu bobl ifanc yn peri pryder i chi:

- Peidiwch diystyru eich pryderon.
- Peidiwch codi'r mater gyda'r person y mae gennych bryderon amdano.
- Os yw'n berson sydd â chyfrifoldeb proffesiynol dros blant neu bobl ifanc trafodwch eich pryderon gyda rheolwr llinell y person hwnnw. Os ydych yn teimlo bod hynny'n anaddas, neu eich bod yn anfodlon gyda'r ymateb, cysylltwch â'r person perthnasol yn eich asiantaeth neu'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'n bwysig iawn nad ydych yn anwybyddu nac yn gwrthod amheuan ynghylch gweithiwr proffesiynol arall.

NODIADAU

2.1.3 Gwneud cyfeiriad

Dylai cyfeiriadau gael eu gwneud dros y ffôn i'r Gwasanaethau Cymdeithasol cyn gynted ag y mae problem, amheuaeth neu bryder yn dod i'r amlwg, ac yn sicr o fewn 24 awr. Y tu allan i oriau swyddfa, dylai cyfeiriadau gael eu gwneud i wasanaeth dyletswydd brys y Gwasanaethau Cymdeithasol neu i'r heddlu. Dylai pob cyfeiriad dros y ffôn gael ei gadarnhau yn ysgrifenedig o fewn dau ddiwrnod gwaith, gan ddefnyddio ffurflen safonol lle'n berthnasol.

Dylid rhoi'r wybodaeth ganlynol i'r gweithiwr cymdeithasol sydd ar ddyletswydd ac sy'n cymryd y cyfeiriad:

- Y rheswm am y pryder
- Enw llawn, cyfeiriad a dyddiad geni (neu oed) y plentyn
- Enwau, cyfeiriadau a dyddiadau geni/oed aelodau'r teulu, ynghyd ag unrhyw
- Enwau eraill maent hwy neu bobl eraill yn eu defnyddio amdanynt
- Enw pawb sydd â chyfrifoldeb rhiant
- Enw, cyfeiriad a dyddiad geni partner y rhaint.
- Enwau gweithwyr proffesiynol eraill sy'n ymwneud â'r teulu, gan gynnwys
- Enw ysgol a meddyg teulu'r plentyn
- Unrhyw wybodaeth berthnasol i ddiogelwch staff.

Dylai unigolion sy'n gweithio i gyrff sy'n cael eu henwi yn adran 2.2 hefyd ddilyn unrhyw ganllawiau sydd gan eu hadran/asiantaeth eu hun. Ni all pobl sy'n gweithio i un o'r gyrff hyn fel gweithiwr, gwirfoddolwr neu aelod o'r pwyllgor rheoli aros yn ddienw wrth wneud cyfeiriad. Er hynny, gall aelod o'r cyhoedd aros yn ddienw, os yw'n dymuno aros yn ddienw, os yw'n dymuno.

2.1.4 Wedi i'r cyfeiriad gael ei wneud

Gall yr unigolyn sy'n gwneud y cyfeiriad dderbyn cais i wneud unrhyw un neu'r cyfan o'r tasgau canlynol a dylai fod yn barod i'w cyflawni:

- cyfrannu i drafodaeth strategaeth
- cynorthwyo mewn ymchwiliad adran 47
- ysgrifennu adroddiad i'r Gynhadledd Amddiffyn Plant
- mynychu'r Gynhadledd Amddiffyn Plant.

Mae'n gyfrifoldeb ar bob gweithiwr proffesiynol unigol i sicrhau bod eu pryderon amddiffyn plant yn cael eu cymryd o ddifrif a'u harchwilio'n drylwyr. Mae pob unigolyn yn atebol am ei swyddogaeth ei hun yn y broses amddiffyn plant ac os yw gweithiwr proffesiynol yn parhau'n bryderus am blentyn yna dylai ailgyfeirio'r plentyn a/neu ddod â'r mater i sylw uwch reolwr Gwasanaethau Cymdeithasol sydd â chyfrifoldeb am amddiffyn plant yn yr ardal yn ddi-oed. Yn eu habsenoldeb dylid hysbysu'r arweinydd tîm yn y Gwasanaethau Cymdeithasol sydd â chyfrifoldeb am yr achos. Ym mhob achos o'r fath, dylid hysbysu rheolwr llinell y gweithiwr proffesiynol.

Gw. adran 3.4

Gw. adran 3.7

Gw. adran 3.8.6

Gw. adran 3.8

NODIADAU**2.1.5 Cadw cofnodion**

Mae holl waith amddiffyn plant yn dibynnu ar gadw cofnodion clir, cywir a chyflawn. Dylai unrhyw un sydd â phryderon am les plentyn wneud cofnod ysgrifenedig o'i bryderon a'r hyn mae'n ei wneud amdanynt, gan ddefnyddio'r canllawiau isod. Dylai'r rhai sy'n arwain mewn ymholiadau amddiffyn plant a'r camau yn deillio o ymholiadau hefyd ddilyn y canllawiau hyn. Dylai pob asiantaeth sy'n ymwneud ag amddiffyn plant gael eu polisiau a gweithdrefnau ynlyn a chynnal, storio a dinistrio polisiau, canllawiau a chofnodion achos. Dylid adolygu'r rhain yn rheolaidd. Dylid adolygu'r rhain yn rheolaidd.

Pwrpas cadw cofnodion yw er mwyn:

- Canolbwyntio'r gwaith
- Darparu cofnod ysgrifenedig o ymwneud gyda phlentyn a/neu deulu
- Cynorthwyo i gael cysondeb pan fydd gweithiwr yn newid
- Darparu sail ar gyfer barn broffesiynol
- Galluogi rheolwyr i fonitro gwaith
- Sicrhau bod ffynonellau hanfodol o dystiolaeth ar gael ar gyfer ymchwilio ac ymholiadau ac ar gyfer y llys.

Dylai cofnodion fod:

- Yn defnyddio iaith glir a syml
- Yn gryno
- Yn gywir, yn ffeithiol ac yn gwahaniaethu rhwng beth sy'n fater o farn, yn gasgliadau ac yn rhagdybiaeth
- Yn ddealladwy.
- Yn gynhwysfawr
- Yn cofnodi'n glir y casgliadau y daethpwyd iddynt, y camau gymerwyd a'r penderfyniadau wnaed
- Yn gwneud yn glir lle mae penderfyniadau wedi cael eu cymryd ar y cyd ar draws asiantaethau, neu eu cadarnhau gan reolwr.

Dylai'r darllenwr fedru dilyn:

- Hanes perthnasol y plentyn a'r teulu sydd wedi arwain at yr ymyrraeth
- Natur yr ymyrraeth, gan gynnwys y canlyniadau a fwriadwyd
- Y modd y mae newid i'w gyflawni
- Y cynnydd sy'n cael ei wneud
- Yr awdur a'r dyddiad.

2.2 Swyddogaethau'r gwahanol asiantaethau

Mae'r adran ganlynol yn disgrifio swyddogaeth yr asiantaethau o fewn amddiffyn plant. Am bob swyddogaeth asiantaethol dylech gyfeirio at y cyfrifoldebau sy'n cael eu rhestru uchod ac sy'n berthnasol i bob gweithiwr proffesiynol. Mae ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o swyddogaethau eraill yn hanfodol ar gyfer cydweithredu'n effeithiol. Heb hyn, a chyfrifoldeb yn cael ei rannu rhwng gweithwyr proffesiynol, ni fydd plant yn cael eu hamddiffyn yn ddigonol.

NODIADAU

Mae gweithwyr o bob asiantaeth sy'n ymwneud ag amddiffyn plant angen goruchwyliaeth ddigonol. Dylai pob asiantaeth gael canllawiau ffurfiol yn eu lle i sicrhau bod hyn yn digwydd. Dylai goruchwyliaeth gynorthwyo i sicrhau bod yr ymarfer ar sylfaen gadarn a'i fod yn gyson gyda Chanllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan. Dylai goruchwyliaeth hefyd sicrhau bod y prif benderfyniadau wedi'u cofnodi'n glir yn y ffeiliau achos.

2.2.1 Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol awdurdodau lleol

Mae lles plant yn gyfrifoldeb corfforaethol yr holl awdurdod lleol gan weithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau cyhoeddus eraill, y sector gwirfoddol a defnyddwyr gwasanaeth. Mae *Deddf Plant 1989* yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol, fel yr asiantaeth sy'n arwain mewn amddiffyn plant, i ddiogelu a hybu lles plant. Mae adran 17 yn gosod dyletswydd gyffredinol arnynt i ddiogelu a hybu lles plant mewn angen. Dylent wneud hyn mewn partneriaeth gyda rhieni ac mewn ffordd sy'n sensitif i hil, crefydd, diwylliant ac iaith y plentyn.

Mae Adran 47 *Deddf Plant 1989* yn darparu i'r awdurdod lleol gychwyn ar ymholiadau os oes ganddynt sail resymol i amau bod plentyn yn dioddef, neu yn debygol o ddioddef niwed arwyddocaol, 'i benderfynu a ddylent gymryd unrhyw gamau i ddiogelu neu hybu lles y plentyn'. Bydd plentyn sydd mewn perygl gwirioneddol yn ddiethriad yn blentyn mewn angen. Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn gyfrifol am gyd-drefnu asesiad o anghenion plentyn, gallu'r rhieni i gadw'r plentyn yn ddiogel a hybu ei les, ac amgylchiadau ehangach y teulu. Lle mae'r plentyn mewn perygl parhaus o niwed arwyddocaol, Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n gyfrifol am gyd-drefnu cynllun rhyngasiantaethol i ddiogelu'r plentyn a fydd yn cael ei weithredu gan y Grŵp Craidd.

Gw. adran 3.7

Gw. adrannau 3.10 a 3.11

2.2.2 Gwasanaethau addysg sy'n cael eu darparu gan yr awdurdodau lleol

Mae gan bob ysgol ddyletswydd fugeiliol tuag at eu disgyblion. Maent yn chwarae rhan bwysig i atal camdriniaeth ac esgeulustod drwy greu a chynnal awyrgylch ddiogel i blant a phobl ifanc a thrwy eu dysgu sut i aros yn ddiogel rhag niwed, a sut i ddweud os oes ganddynt ofidiau neu bryderon.

Mae gan athrawon a staff nad ydynt yn dysgu (gan gynnwys y gwasanaeth seicolegol addysgol, swyddogion lles addysg/gweithwyr cymdeithasol, athrawon cynnal ymddygiad a staff cynnal dysgu) swyddogaeth bwysig i adnabod arwyddion o gamdriniaeth neu esgeulustod posibl, a chyfeirio'u pryderon at y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae gan Swyddogion Lles Addysg swyddogaeth arbennig mewn perthynas â phlant nad ydynt yn mynychu'r ysgol.

Yn ogystal â chyfeirio pryderon, gall staff addysgol gyfrannu at waith amddiffyn plant drwy'r canlynol:

- cyfrannu tuag at yr Asesiad Cychwynnol ac ymholiadau Adran 47
- darparu gwybodaeth ar lefel dealltwriaeth plentyn a'r ffordd mwyaf effeithiol o gyfathrebu gyda'r plentyn
- cyfrannu i Gynadleddau Amddiffyn Plant
- cymryd rhan wrth baratoi'r Cynllun Amddiffyn Plentyn, ei roi ar waith a'i adolygu.

Gw. adrannau 3.3 a 3.7

NODIADAU

Gw. adrannau 3.8 a 3.12

Gw. adran 3.11

Gw. hefyd Deddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llys 2000, Deddf Amddiffyn Plant 1999.

Gw. adran 4.5 am fwy ar honiadau yn erbyn gweithwyr proffesiynol.

Gw. adrannau 3.3, 3.7 a 3.8

Mae gwaith yr Awdurdod Addysg Lleol yn cyd-drefnu yn arbennig o bwysig yn achos plentyn sydd efallai wedi mynychu nifer o ysgolion dros gyfnod cymharol fyr, neu wrth ddarparu gwybodaeth gefndir lle mae pryderon ynghylch nifer o blant o'r un teulu sydd efallai'n mynychu ysgolion gwahanol.

Mae gan bob ysgol aelod o staff dynodedig gyda chyfrifoldeb dros gyd-drefnu gweithredu ar amddiffyn plant o fewn yr ysgol neu goleg ac i weithredu fel ffynhonnell arbenigedd a chynghor. Mae'r aelod o staff dynodedig yn gyfrifol am sicrhau fod aelodau newydd a dros dro o staff yn ymwybodol o'r canllawiau ac o ble i gael cynghor a'u bod yn cael eu hannog i rannu'u pryderon.

Lle mae staff ysgol yn bryderus fod plentyn wedi 'diflannu', neu yn bryderus ynghylch unrhyw agwedd o drosglwyddiad plentyn, dylai'r aelod o staff dynodedig adrodd y pryderon i swyddog yr AALl sydd â chyfrifoldeb dynodedig am amddiffyn plant.

Rhaid i bob llywodraethwr ysgol fod wedi'i wirio gan yr heddlu. Dylai pob ysgol â choleg gael llywodraethwr dynodedig ar gyfer amddiffyn plant sydd wedi ei hyfforddi'n briodol. Dylai llywodraethwyr ysgol ymarfer eu cyfrifoldebau amddiffyn plant, yn arbennig mewn perthynas â honiadau yn erbyn prifathrawon, â thrwy sicrhau fod polisïau amddiffyn plant ysgol yn eu lle â'u bod ar gael yn hawdd i'r staff i gyd.

2.2.3 Gwasanaethau ieuentid a chymuned yr awdurdodau lleol

Mae gweithwyr Ieuentid a Chymuned yn gweithio'n agos a chynhaliol gyda phlant a phobl ifanc ac mewn lle da i wybod pryd y gall person ifanc fod mewn perygl. Bydd plant yn aml yn barod i rannu gyda'r sawl sydd mewn safle o ymddiriedaeth ond heb gael eu gweld ffigwr o awdurdod. Dylai staff fod yn ymwybodol mai dim ond ynddynt hwy mae'r plentyn wedi ymddiried. Gall gweithwyr ieuentid a chymuned hefyd gynorthwyo'r Gwasanaethau Cymdeithasol gydag asesiad drwy ddarparu gwybodaeth gefndir yn seiliedig ar eu gwybodaeth o'r plentyn neu berson ifanc.

2.2.4 Gwasanaethau diwylliant a hamdden yr awdurdodau lleol

Dylai staff diwylliant a hamdden, gwirfoddolwyr ac eraill wedi eu contractio gan yr awdurdodau lleol fabwysiadu arferion gwaith sy'n lleihau sefyllfaoedd lle gall cam-drin plant ddigwydd, e.e. cyswllt heb neb i weld. Dylai staff hefyd ddeall y pwysigrwydd o gyfeirio unrhyw bryderon sydd ganddynt y gall fod angen amddiffyn plentyn.

2.2.5 Gwasanaethau tai yr awdurdodau lleol

Er nad yw staff yr adran dai mewn cyswllt uniongyrchol ag ymchwiliadau o gam-drin honedig neu wirioneddol, mae ganddynt wybodaeth bwysig am deuluoedd i'w gyfrannu i ymholiadau Adran 47 neu Asesiad Cychwynnol a rhaid iddynt fod yn barod i rannu'r wybodaeth hon a mynychu cynadleddau yn ôl y galw.

Dylent hefyd fod yn barod i gynorthwyo drwy ddarparu llety neu gynghor, e.e. pan fydd merched a plant yn mynd yn ddigartref oherwydd camdriniaeth yn y cartref neu lle mae'r cartref yn orlawn, yr amgylchiadau yn wael neu unigrwydd

NODIADAU

Gw. adrannau 3.3,
3.7, 3.8, 3.10 a 3.11

cymdeithasol yn cyfrannu at y ffactorau sy'n creu perygl o gamdriniaeth i rai plant. Mae'n bosib fod gan wasanaethau tai swyddogaeth i ganfod llety'n nes at deulu estynedig a chymunedau cefnogol ac i ffwrdd oddi wrth ddylanwadau negyddol.

Mae i wasanaethau tai swyddogaeth bwysig wrth reoli'r perygl sy'n cael ei beri gan droseddwy'r peryglus.

Dylai Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig hefyd gydweithredu wrth rannu gwybodaeth gyda'r awdurdodau lleol, ac i fod â threfn addas ac ymarferol ar gyfer delio gyda'i achosion ei hun o honiadau neu amheuaeth o gam-drin plant.

2.2.6 Timau Troseddwy'r Ifanc

Mae Timau Rhyngasiantaethol Troseddwy'r Ifanc yn gweithio gyda plant a phobl ifanc sy'n troseddu, a bydd rhai ohonynt angen eu hamddiffyn. Mae'r Timau Troseddwy'r Ifanc hefyd yn goruchwyllo troseddwy'r rhyw a throseddwy'r peryglus ac mae ganddynt ffocws amddiffyn y cyhoedd.

Efallai y bydd angen i aelodau o'r Timau Troseddwy'r Ifanc ddarparu gwybodaeth yn ystod camau cychwynnol ymholiadau Adran 47, cymryd rhan mewn Cynadleddau Amddiffyn Plant, gwireddu cynlluniau amddiffyn plant a mynychu grwpiau craidd. Mae'r Fframwaith Asesu yn gyson ag asesiad ASSET o droseddwy'r ifanc.

2.2.7 Yr Heddlu

Mae gan yr heddlu ddyletswydd a chyfrifoldeb i ymchwilio i droseddau troseddol yn erbyn plant a dylai'r ymchwiliadau hyn gael eu gwneud gyda sensitifrwydd, yn drylwyr ac yn broffesiynol. Mae gan pob gwasanaeth heddlu yng Nghymru swyddogion amddiffyn plant penodol i ddelio gydag amddiffyn plant. Yn ddelfrydol, dylai swyddog amddiffyn plant, fel lleiafswm, ymchwilio i bob agwedd o honiadau amddiffyn plant o fewn teulu, neu wedi ei gyflawni gan ofalydd lle mae'r dioddefwr o dan 18 oed. Ni ddylai gwaith amddiffyn plant gael ei weld yn unig fel swyddogaeth swyddogion arbenigol, a dylai pob swyddog heddlu ddeall ei fod yn rhan sylfaenol o'i ddyletswyddau.

Yn ogystal â'u dyletswyddau i ymchwilio i droseddau, mae'r heddlu'n ymwybodol o bwysigrwydd gwaith rhyngasiantaethol i frwydro yn erbyn cam-drin plant ac mae canllawiau wedi'u sefydlu ers tro ar gyfer ymchwilio ar y cyd a rhannu gwybodaeth. Nid yw'r ffaith fod y heddlu yn ymwneud â'r mater yn golygu o reidrwydd y bydd achos troseddol yn cael ei ddwyn.

Mae gan yr heddlu bwerau o dan *Deddf Plant 1989* i sicrhau bod plant y credir eu bod yn dioddef niwed arwyddocaol, neu eu bod mewn perygl o hynny, yn cael eu hamddiffyn ar unwaith.

Gall swyddogion yr heddlu ddod ar draws achosion posibl o gam-drin plant (gan gynnwys camdriniaeth emosiynol) pan fyddant yn cael eu galw i ddigwyddiadau o gam-drin yn y cartref. Dylai swyddogion yr heddlu bob tro ganfod a oes plant mewn tŷ lle mae camdriniaeth yn y cartref a dylent ddilyn eu trefn leol i adrodd yn ôl ar y mater.

Mae gan yr heddlu swyddogaeth hanfodol yn y drefn amddiffyn plant a dylent

Gw. adran 3.6

NODIADAU

Gw. adrannau 3.8 a
3.12

bob amser, lle bo modd, fynychu a chyfrannu i Gynadleddau Amddiffyn Plant a'r cynadleddau adolygu dilynol. Er hynny, mae'n annhebygol y bydd yr heddlu'n cyfrannu fel rhan o'r grŵp craidd wrth ddatblygu â gweithredu cynlluniau amddiffyn plant.

2.2.8 Gwasanaethau Iechyd

Oherwydd natur gyffredinol darpariaeth iechyd, gweithwyr iechyd proffesiynol yn aml yw'r cyntaf i fod yn ymwybodol bod teuluoedd yn profi anawsterau wrth ofalu am eu plant. Mae gan bawb sy'n gweithio ym maes iechyd gyfrifoldeb proffesiynol i amddiffyn plant, ac mae'n hanfodol eu bod yn rhan o'r gefnogaeth ryngasiantaethol i'r Gwasanaethau Cymdeithasol os yw buddiannau plant i gael eu diogelu. Dylent gael ymwybyddiaeth elfennol o amddiffyn plant a bod yn effro i gamdriniaeth gorfforol, rywiol (gan gynnwys plant sy'n cam-drin), camdriniaeth emosiynol ac esgeulustod plant â phobl ifanc. Dylent fod yn ymwybodol o ganllawiau amddiffyn plant a'r ffyrdd o gyfeirio. Dylai gweithwyr proffesiynol iechyd sy'n gweithio gyda chleifion sy'n oedolion hefyd fod yn effro i arwyddion o niwed i blant dibynnol.

Mae'r canllawiau canlynol yn berthnasol i weithwyr sy'n gweithio ym maes iechyd:

- *Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant* Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 1999
- *Child Protection Medical Responsibilities* Adran Iechyd, 1994
- *Child Protection Clarification of Arrangements between the NHS and Other agencies* 1995 Adran Iechyd/Y Swyddfa Gymreig
- *Child Protection Guidance for Senior Nurses, Health Visitors, Midwives and their Managers* 1997 Y Swyddfa Gymreig

Yn ogystal, mae'n rhaid i weithwyr proffesiynol ym maes iechyd wybod a deall canllawiau cyfredol eu cyrff proffesiynol, eu cymdeithasau gwarchod a'u cyflogwyr mewn perthynas ag amddiffyn plant, rhannu gwybodaeth a ffiniau cyfrinachedd. Mae gan pob gweithiwr proffesiynol ym maes iechyd gyfrifoldeb unigol i amddiffyn plant yn ogystal â'i swyddogaeth asiantaethol.

2.2.8.1 Byrddau Iechyd Lleol

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol a'r Byrddau Iechyd Lleol yn darparu arweiniad strategol cyffredinol, ar ran y gwasanaethau iechyd, ar gyfer gwasanaethau plant ac amddiffyn plant, gyda phwyslais arbennig ar waith rhyngasiantaethol. Dylai asiantaethau iechyd gydweithredu gydag asiantaethau eraill, yn arbennig yr awdurdod lleol, wrth gynllunio gwasanaethau ar gyfer plant sy'n agored i niwed a'u teuluoedd a sicrhau bod asiantaethau a gweithwyr proffesiynol iechyd lleol yn cyfrannu'n llawn ac yn effeithiol i waith rhyngasiantaethol lleol i ddiogelu plant a hyrwyddo eu lles. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn cynnwys sicrhau bod ymrwymiad addas gan y gwasanaeth iechyd i waith y Pwyllgor Amddiffyn.

Dylai'r Byrddau Iechyd Lleol sicrhau bod ganddynt fanylion gwasanaeth ar gyfer amddiffyn plant a'r gwasanaethau cysylltiedig a bod pob darparwr iechyd y maent yn contractio iddynt yn gwbl ymwybodol ohonynt.

NODIADAU

Mae pob Bwrdd Iechyd Lleol yn gyfrifol am ddynodi paediatregydd uwch (meddyg dynodedig), uwch nyrs gyda chymhwyster ymwelydd iechyd (nyrs ddynodedig amddiffyn plant) a bydwraig ddynodedig, i gymryd arweiniad proffesiynol ar bob agwedd o gyfraniad y gwasanaeth iechyd i ddiogelu plant. Bydd y gweithwyr dynodedig hyn yn arwain ar ddatblygu gwasanaethau i ddiogelu plant, ar hyfforddi, ac wrth adolygu achosion. Byddant yn gweithio'n agos gyda gweithwyr proffesiynol a enwyd ac sy'n arwain, mewn ymddiriedolaethau a grwpiau iechyd lleol a gyda'r gweithwyr proffesiynol hyn yn ffurfio rhwydwaith o gyngor ar amddiffyn plant ar gyfer iechyd ac asiantaethau partneriaeth.

Dylid ymgymryd â gwaith gyda Byrddau Iechyd Lleol i sicrhau eu bod yn deall eu

swyddogaeth â'u cyfrifoldeb i ddatblygu manylebau gwasanaeth addas sydd yn cynnwys safonau ansawdd ar gyfer amddiffyn plant.

Mae'r gweithwyr proffesiynol a enwyd yn cael eu darparu gan Wasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru, sydd, drwy'r Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus yn darparu arweiniad strategol o fewn y gwasanaeth iechyd ym maes amddiffyn plant a phlant sydd yn derbyn gofal.

2.2.8.2 Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol

Mae'r Ymddiriedolaethau'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau iechyd llym a chymuned mewn ysbytai ac yn y gymuned.

Dylai pob Ymddiriedolaeth benodi meddyg a enwyd a nyrs a enwyd a/neu fydwaig amddiffyn plant, fydd yn arwain yn broffesiynol o fewn yr Ymddiriedolaeth ar faterion yn ymwneud ag amddiffyn plant. Bydd ganddynt arbenigedd mewn iechyd a datblygiad plant, natur camdriniaeth plant a'r trefniadau lleol i ddiogelu plant a hybu'u lles. Maent yn darparu ffynhonnell bwysig o gyngor ac arbenigedd ar gyfer cydweithwyr proffesiynol ac asiantaethau eraill ac mae ganddynt hefyd swyddogaeth bwysig i hybu ymarfer proffesiynol da o fewn yr Ymddiriedolaeth wrth ddiogelu plant. Mewn ymddiriedolaethau mwy eu maint y mae'n addas dynodi gweithwyr proffesiynol ychwanegol wedi'u henwi neu weithwyr i arwain er mwyn cefnogi'r gweithiwr a enwyd ac i sicrhau arweiniad ar amddiffyn plant ym mhob maes o fewn yr Ymddiriedolaeth.

Dylai'r holl staff ysbytai a chymuned fod ag ymwybyddiaeth sylfaenol ynghylch amddiffyn plant a bod yn effro i'r posibilrwydd o gam-drin ac esgeuluso plant. Rhaid iddynt wybod sut i wneud cyfeiriad amddiffyn plant a bod yn ymwybodol o'r rhwydwaith o weithwyr proffesiynol wedi'u henwi, dynodedig ac arweiniol sydd ar gael i roi cyngor.

2.2.8.3 Grwpiau Iechyd Lleol

Grwpiau Iechyd Lleol sy'n comisiynu gwasanaethau meddygol gofal sylfaenol, ac mewn amser maent yn debygol o gymryd drosodd comisiynu gwasanaethau llym a chymuned oddi wrth yr Awdurdodau Iechyd. Yng Nghymru, mae'r Grwpiau Byrddau Iechyd Lleol yn rhannu'u ffiniau gyda'r awdurdodau lleol.

Gw. adran 2.1.3 am wybodaeth ar sut i wneud cyfeiriad.

NODIADAU

Gw. adran 2.1.3 am wybodaeth ar sut i wneud cyfeiriad.

Gw. adran 3.8 am fwy ar y gynhadledd.

Gw. adran 3.13 am fwy ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.

Dylai pob Grŵp Bwrdd Iechyd Lleol benodi gweithiwr proffesiynol i arwain ar amddiffyn plant gyda'r profiad a'r arbenigedd priodol.

Mar gan y Grwpiau Byrddau Iechyd Lleol gyfrifoldeb i sicrhau bod ymarferwyr cyffredinol a'u staff sy'n darparu gofal sylfaenol yn wybodus am amddiffyn plant ac yn derbyn hyfforddiant priodol.

Dylai'r awdurdodau iechyd/asiantaethau dilynol, mewn cytundeb gyda'r Grwpiau Iechyd Lleol, sicrhau bod y gwasanaeth iechyd lleol yn cyflawni'i ddyletswydd i gyfrannu i waith rhyngasiantaethol.

2.2.8.4 Meddygon teulu a staff gofal sylfaenol

Mae'r meddyg teulu ac aelodau eraill y tîm gofal iechyd sylfaenol mewn safle da i adnabod pryd mae plentyn yn debygol o fod angen cymorth neu wasanaethau ychwanegol i hybu ei les a'i ddatblygiad, neu mewn perygl o niwed. Maent hefyd mewn safle da i adnabod pryd fydd gan riant neu oedolyn arall broblemau a all effeithio ar eu gallu fel rhiant a gofalwr, neu a all olygu eu bod yn achos perygl o niwed i blentyn. Er bod gan feddyg teulu ddyletswydd i bob claf, mae plant yn arbennig o fregus a lles y plentyn yw'r brif ystyriaeth.

Dylai'r meddyg teulu, aelodau o'r Tîm Gofal a holl staff y practis fod yn effro i arwyddion o gamdriniaeth ac yn gwybod sut i wneud cyfeiriad amddiffyn plant i'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Dylai'r meddyg teulu gael ei hysbysu o unrhyw gyfeiriad, ond ni ddylai hyn achosi oedi i'r cyfeirio.

Dylai'r meddyg teulu ac aelodau eraill o'r Tîm Gofal fod yn ymwybodol o'r rhwydwaith o weithwyr proffesiynol wedi'u henwi, arweiniol a dynodedig sydd ar gael i roi cyngor.

Mae gan y meddyg teulu ac aelodau eraill o'r Tîm Gofal swyddogaeth bwysig ym mhob cam o'r drefn amddiffyn plant â dylent fod yn barod i rannu gwybodaeth berthnasol gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol, a mynychu neu ddarparu adroddiad ar gyfer y Gynhadledd Amddiffyn Plant.

Dylai meddygon teulu gymryd rhan mewn hyfforddiant amddiffyn plant a chael hyfforddiant pellach cyson fel rhan o'u rhaglen addysgol ôl-raddedig. Fel cyflogwyr, mae meddygon teulu'n gyfrifol dros eu staff ac felly dylent sicrhau bod y nyrsys practis, rheolwyr practis, staff y dderbynfa ac unrhyw staff eraill yn cael y cyfle i fynychu hyfforddiant lleol ar amddiffyn plant.

Mae'n ymarfer da i gael dulliau clir o adnabod yn y cofnodion y plant (yn ogystal â'u rhieni a'u brodyr a'u chwiorydd) sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. Bydd hyn yn golygu y bydd modd i bartneriaid y practis ac unrhyw feddyg, nyrs practis neu ymwelydd iechyd a fydd, efallai yn ymwneud â gofal y plant hynny, eu hadnabod drwy'r cofnodion.

Pan fydd meddygon teulu yn cael cais i ymgymryd ag archwiliad meddygol lle gall fod ystyriaethau amddiffyn plant, ac maent yn ansicr am y gofynion fforensig, dylent ymgynghori gyda'r meddyg a enwyd neu sy'n arwain ar amddiffyn plant. Dim ond meddygon sydd â'r sgiliau a'r hyfforddiant priodol ddylai archwilio plentyn lle mae amheuaeth/honiad o gam-drin plant, a hynny ar gais yr heddlu.

NODIADAU

Gw. adran 2.1.3 am wybodaeth ar sut i wneud cyfeiriad.

Gw. adran 3.7.2.4 am fwy ar archwiliadau meddygol.

Gw. adrannau 3.5 a 3.8

2.2.8.5 Gwasanaethau nyrsio cymunedol

Mae gwasanaethau nyrsio cymunedol yn cynnwys ystod eang o nyrsys, gan gynnwys ymwelwyr ieuchyd, nyrsys ysgol, nyrsys ardal a nyrsys seiciatrig yn y gymuned. Mae nyrsys cymuned felly mewn safle da i adnabod plant mewn angen neu mewn perygl o niwed. Mae pob aelod o staff nyrsio sy'n gyflogedig gan yr Ymddiriedolaethau yn atebol i'w nyrs amddiffyn plant a enwyd.

Dylai staff nyrsio cymunedol sydd â phryder am blant neu blentyn adrodd eu pryderon i'r Gwasanaethau Gymdeithasol ar unwaith. Dylent hysbysu'r meddyg teulu am eu pryderon cyn gynted â phosibl, ond ni ddylai hyn achosi oedi yn y broses gyfeirio.

Dylai'r holl staff nyrsio cymunedol dderbyn hyfforddiant mewn amddiffyn plant.

2.2.8.6 Bydwagedd

Mae bydwagedd yn darparu gofal i bob darpar fam o'r beichiogrwydd cynnar drwy'r geni ac yn parhau i fod yn gyfrifol am y fam â'i phlentyn tan 28 diwrnod wedi'r geni. Mae bydwagedd, felly, yn medru adnabod problemau tebygol cyn y geni a gwneud cyfeiriadau addas i'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn gynnar fel bo modd trefnu bod gwasanaethau cefnogi teuluoedd a/neu amddiffyn plant yn eu lle yn gynnar. Dylai'r meddyg teulu bob amser gael ei hysbysu am unrhyw bryder.

2.2.8.7 Paediatregwyr - ysbyty a chymuned

Mae paediatregwyr yn chwarae rhan bwysig mewn asesu cam-drin plant. Gallant ddod yn ymwybodol o ystyriaeth amddiffyn plant wrth wneud eu gwaith arferol neu gallant dderbyn cais i archwilio plentyn gan yr heddlu a/neu'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

Rhaid i baediatregwyr sy'n derbyn cais i archwilio plant ar gyfer pwrpas amddiffyn plant fod yn gwbl ymwybodol o natur arbenigol yr archwiliad, ac o natur y cydsyniad angenrheidiol. Efallai y bydd yr heddlu a'r llysoedd angen adroddiadau, yn ogystal â'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

Lle mae unrhyw blentyn yn cael ei dderbyn i'r ysbyty o ganlyniad i amheuaeth o gam-drin, ni ddylai'r paediatregydd benderfynu rhyddhau'r plentyn cyn trafod ymlaen llaw gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r heddlu.

Dylai'r paediatregydd perthnasol gael ei wahodd i Gyfarfodydd Strategaeth a Chynadleddau Amddiffyn Plant.

Bydd uwch baediatregwyr yn ffurfio rhwydwaith o gyngor amddiffyn plant arbenigol fydd ar gael i asiantaethau ieuchyd ac eraill.

2.2.8.8 Staff sy'n gweithio ar wardiau oedolion lle mae plant yn derbyn triniaeth

Ni ddylai plant fel rheol gael eu derbyn i wardiau oedolion. Lle mae derbyniad o'r fath yn angenrheidiol, dylai fod safonau a threfn diogelu clir yn eu lle, ynghyd â chanllawiau derbyn ysgrifenedig. Dylid cynnal awdit rheolaidd o batrwm derbyniadau o'r fath. Dylai fod gan wardiau oedolion drefniadau ar gyfer plant a phobl ifanc pan fyddant yn cael eu derbyn, i'w gosod mewn manau

NODIADAU

dynodedig. Dylai pob ymddiriedolaeth enwi swydd nyrs cyswllt i gyd-drefnu gyda wardiau oedolion sy'n derbyn pobl ifanc o dan 18 oed. Dylai cyngor paediatrig arbenigol fod ar gael bob adeg i adrannau a wardiau lle mae plant yn derbyn gofal.

2.2.8.9 Staff ar unedau Damwain ac Argyfwng ac anafiadau llai

Dylai staff sy'n gweithio mewn unedau lleol a Damwain ac Argyfwng ac anafiadau llai fod yn effro i arwyddion o gam-drin ac esgeuluso plant ac yn gyfarwydd â chanllawiau amddiffyn plant a'r drefn gyfeirio leol. Dylai staff fod yn effro i ofalwyr sy'n gofyn am gyngor meddygol o amrywiol ffynonellau er mwyn cuddio natur ailadroddus anafiadau'r plentyn.

Dylai cyngor paediatrig arbenigol fod ar gael bob adeg i adrannau a wardiau lle mae plant yn derbyn gofal.

Dylai bod trefn yn ei lle i adnabod mynychwyr ailadroddus. Lle mae plentyn neu blant o'r un teulu yn mynychu'n aml, hyd yn oed gyda mân anafiadau bychan iawn, mewn ffordd sy'n achosi pryder i staff iechyd, dylent weithredu ar eu pryderon a gwneud cyfeiriad amddiffyn plant a/neu chwilio am gyngor gan y gweithwyr iechyd a enwyd neu sy'n arwain ar amddiffyn plant.

Rhaid i bob ymweliad gan blant i'r adrannau mân anafiadau a Damweiniau ac Argyfwng gael ei hysbysu yn gyflym i feddyg teulu'r plentyn a'r ymwelydd iechyd neu nyrs ysgol a'i gofnodi yng nghofnodion ysbyty'r plentyn, os oes yna rhai.

2.2.8.10 Gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc

Seiciatryddion plant a phobl ifanc, nyrsys cymunedol seiciatrig a seicolegwyr clinigol yw'r gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio ym maes gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc. Maent yn darparu ystod o wasanaethau asesu a thriniaethau seiciatrig a seicolegol ar gyfer plant a theuluoedd, gan gynnwys therapi yn dilyn camdriniaeth. Mae gan bawb sy'n darparu gwasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc swyddogaeth wrth wneud yr Asesiad Cychwynnol, mewnbyn i'r Gynhadledd Amddiffyn Plant, cyfrifoldebau o fewn y cynllun amddiffyn plant gweithredol a chyfraniad sylweddol i'r Asesiad Craidd.

2.2.8.11 Gwasanaethau iechyd meddwl i oedolion

Mae gwasanaethau iechyd meddwl i oedolion yn cael eu darparu gan staff yn gweithio i iechyd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Drwy eu hymwneud ag oedolion sy'n dioddef o anawsterau iechyd meddwl, gallant ddod yn ymwybodol o blentyn mewn perygl o niwed. Mae cydweithrediad a chydgyssylltiad agos rhwng gwasanaethau iechyd meddwl oedolion a gwasanaethau plant yn hanfodol er lles y plant. Bydd hyn yn golygu bod yn rhaid rhannu gwybodaeth lle mae angen hyn i ddiogelu plentyn rhag niwed. Mae gan wasanaethau iechyd meddwl i oedolion, gan gynnwys y rhai sy'n darparu gwasanaethau cyffredinol i oedolion a chymunedau, gwasanaethau fforensig, seicotherapi, alcohol â chamddefnyddio sylweddau ac anabledau dysgu, swyddogaeth yn y drefn asesu pan fydd anawsterau yn y meysydd hyn yn cael effaith ar allu'r rhieni i ymateb yn briodol i anghenion eu plant.

Gw. adrannau 3.3, 3.7, 3.8 a 3.11

NODIADAU

Bydd angen i weithwyr proffesiynol hefyd gyfrannu at asesiadau i benderfynu a yw hi er pennaf les y plentyn i ymweld â chlaf penodol sydd wedi'i gadw o dan *Deddf Iechyd Meddwl 1983*.

2.2.8.12 Gwasanaethau camddefnyddio sylweddau

Lle mae plant yn dioddef niwed arwyddocaol oherwydd eu bod hwy eu hun yn camddefnyddio sylweddau, neu lle mae camddefnydd gan eu rhieni yn achosi niwed o'r fath, bydd angen i'r gwasanaethau camddefnyddio sylweddau gyfeirio'r plant i'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn unol â chanllawiau'r Pwyllgor Amddiffyn. Lles y plentyn yw'r brif ystyriaeth bob tro.

2.2.8.13 Gweithwyr iechyd eraill a phroffesiynau cysylltiedig â meddygaeth

Mae gweithwyr proffesiynol iechyd ac aelodau o gyrff proffesiynol eraill sy'n gysylltiedig â meddygaeth yn cynnwys ymarferwyr deintyddol, seicolegwyr, therapyddion lleferydd ac iaith, ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol, ciropodyddion, fferyllwyr ac optegwyr. Drwy gyfrwng eu gwaith bob dydd, mae'n bosib i un o'r gweithwyr proffesiynol hyn ddod ar draws plentyn sydd mewn angen neu sydd wedi ei gam-drin neu bod gan y gweithiwr bryder amdano. Mae modd cael cyngor gan feddyg neu nyrs a enwyd o'r Ymddiriedolaeth neu gan y Gwasanaethau Cymdeithasol. Er hynny, ni ddylid oedi wrth gyfeirio'r mater am sylw pellach. Ni ddylai trafodaethau gyda chydweithwyr fyth oedi'r drefn gyfeirio

2.2.8.14 Gwasanaethau Ambiwylans

Dylai'r holl staff ambiwlans fod yn ymwybodol o'u swyddogaeth i ddiogelu plant. Dylai fod ganddynt ganllawiau clir ar gyfer rhannu pryderon amddiffyn plant gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol un ai'n uniongyrchol neu drwy gyfrwng eu canolfan rheoli.

2.2.8.15 Galw Iechyd Cymru

Mae Galw Iechyd Cymru yn wasanaeth ffôn 24 awr, fel rheol wedi'i staffio gan nyrsys, sy'n rhoi mynediad uniongyrchol at wybodaeth a chyngor ynghylch iechyd. Dylai meddygon teulu, ymwelwyr iechyd a/neu nyrsys ysgol gael eu hysbysu am geisiadau am gyngor ynghylch plentyn penodol

Dylai staff Galw Iechyd Cymru fod yn effro i arwyddion cam-drin plant, yn gyfarwydd â'r Pwyllgor Amddiffyn a chanllawiau amddiffyn plant eu gwasanaeth eu hunain ac yn gwybod sut mae gwneud cyfeiriad amddiffyn plant i'r Gwasanaethau Cymdeithasol priodol. Dylent fod â mynediad at hyfforddiant ar faterion yn ymwneud ag amddiffyn plant.

2.2.8.16 Darparwyr gofal iechyd preifat

Gall gofal iechyd preifat gael ei ddarparu mewn ysbytai, clinigau neu gartrefi nyrsio preifat neu yn y gymuned a'r cartref. Dylai ysbytai preifat fod â Pholisi Amddiffyn Plant a pherson wedi ei enwi ar y safle, yn gyfrifol am gyd-drefnu amddiffyn plant, adrodd, ac addysgu aelodau eraill y staff.

Gw. adran 2.1.3 am wybodaeth ar sut i wneud cyfeiriad.

Gw. adran 2.1.3 am wybodaeth ar sut i wneud cyfeiriad.

'Guidance on the care of children receiving care in Independent Sector Acute Hospitals' Cymdeithas Gofal Iechyd Annibynnol, Mawrth 2001.

NODIADAU

*Gw. The Clothier
Report 1994.*

*'The welfare of
young children in
hospital', Adran
Iechyd 1991.*

Gw. adran 2.1.3

Gw. adran 3.8

*Gw. adran 4.4 am
fwy ar blant yn byw
oddi cartref.*

Dylai recriwtio staff i weithio gyda phlant ddilyn canllawiau'r llywodraeth ar gyfweidd trylwyr, casglu tystlythyron a chwiliadau'r heddlu.

Dylai pob sefydliad iechyd sy'n cynnig gofal i blant gyflogi o leiaf dwy nyrs plant, a **rhaid** i ysbytai sy'n darparu gofal llym gael **o leiaf un** nyrs plant ar ddyletswydd drwy'r amser, pryd bynnag mae plant yn cael eu derbyn gyda chydysyniad ar gyfer archwiliadau neu lawdriniaeth. Argymhellir bod plant yn cael eu derbyn dim ond pan fydd nyrs plant ar ddyletswydd. Dylid llunio amserlenni rhestrau llawdriniaeth yn unig ar gyfer yr adegau pan fydd y nyrs plant ar gael i ofalu am y plant.

Rhaid i bob plentyn sy'n cael ei dderbyn i ysbyty preifat fod o dan ofal Ymgynghorydd a enwyd ond yn ogystal rhaid bod darpariaeth 24 awr gan Swyddog Meddygol Preswyl (SMP), a ddylai fod ag o leiaf 6 mis o brofiad paediatrig pwrpasol.

Rhaid i nyrs arweiniol fod yn gyfrifol, bob tro, am bolisiau a phrotocolau sy'n ddealladwy i blant a'u teuluoedd, a rhaid iddi fod â'r grym i gynnal awdit o ofal paediatrig yn rheolaidd.

Mewn amgylchiadau eithriadol, megis oedi annisgwyl wrth ryddhau, os nad yw'n bosibl cyflogi nyrs plant am 24 awr y dydd, dylai uwch nyrs plant fod ar alwad i roi cefnogaeth a chynghor. Gall gytundeb contractiol gydag Ymddiriedolaeth GIG lleol ddarparu cefnogaeth o'r fath.

2.2.9 Gwasanaethau gofal dydd

Mae'r gwasanaethau'n cynnwys canolfannau teulu, canolfannau blynyddoedd cynnar, meithrinfeydd, gwarchodwyr plant, grwpiau chwarae a chynlluniau allan o'r ysgol a chefnogaeth yn y cartref, megis Homestart. Mae gwasanaethau gofal dydd yn medru cynorthwyo i atal problemau rhag datblygu yn gamdriniaeth ac esgeulustod drwy gynnal teuluoedd ac wrth i staff adnabod a gweithredu ar arwyddion posibl o gam-drin ac esgeuluso. Bydd ganddynt gyfraniad i'w wneud yn un neu fwy o'r ffyrdd canlynol:

- cyfeirio teuluoedd at y Gwasanaethau Cymdeithasol lle mae pryderon;
- asesu anghenion y plant neu eu gofalwyr a darparu gwybodaeth ar gyfer Cynadleddau Amddiffyn Plant;
- darparu gwasanaethau sy'n cynnal datblygiad y plentyn a/neu gryfhau gallu'r rhieni i ymateb, ac felly gyfrannu at les y plentyn a chadw'r plentyn yn ddiogel rhag niwed.

2.2.10 Gofalwyr yn gofalu am blant oddi cartref.

Gall gofalwyr sy'n gofalu am blentyn oddi cartref fod yn un o'r canlynol:

- gofalwyr maeth, gan gynnwys yr awdurdod lleol, asiantaeth a gofalwyr preifat;
- gweithwyr preswyl, gan gynnwys y rhai o fewn unedau'r awdurdod lleol ac unedau preswyl preifat;
- staff ysgolion preswyl, gan gynnwys ysgolion AALL ac annibynnol;
- staff meddygol a nyrsio mewn ysgolion preswyl a sefyllfaoedd iechyd.

NODIADAU

Mae plant sydd yn byw oddi cartref yn arbennig o agored i gael eu cam-drin a'u hesgeuluso fel yr amlygwyd yn yr adroddiad *Ar Goll mewn Gofal*. Dylai staff a gofalwyr fod yn effro i'r peryglon i blant mewn amgylchedd allanol oddi wrth bobl sy'n barod i gymryd mantais o sefyllfa mwy bregus plant sy'n byw oddi cartref.

Dylai pawb sy'n gofalu am blant sy'n byw oddi cartref wneud y canlynol:

- creu â chynnal amgylchedd diogel i blant, un sy'n galluogi'r plentyn i rannu unrhyw bryderon sydd ganddo a lle mae'r plentyn yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi a'i barchu;
- mabwysiadu arferion gwaith sy'n lleihau'r sefyllfaoedd lle gall cam-drin plant ddigwydd;
- gwybod sut i weithredu canllawiau amddiffyn plant a chael eu hyfforddi ym mhob agwedd ar ddiogelu plant;
- hybu'r defnydd o'r drefn cwyno a sicrhau bod gan blant fynediad parod at oedolyn maent yn ymddiried ynddo y tu allan i'w hamgylchedd byw.

2.2.11 Ysgolion a cholegau annibynnol

Mae swyddogaeth ysgolion a cholegau annibynnol mewn perthynas ag amddiffyn plant yr un fath ag unrhyw ysgol arall. Dylai fod ganddynt yn eu lle eu polisïau amddiffyn plant a'u canllawiau eu hun sy'n cyd-fynd â Chanllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan.

Dylai ysgolion a cholegau annibynnol sefydlu a chynnal sianeli cyfathrebu rhwng staff dynodedig a'r Gwasanaethau Cymdeithasol, AALLau a Pwyllgorau Amddiffyn.

Bydd yr holl staff angen mynediad at hyfforddiant a chynghor ar amddiffyn plant. Mae gan bob disgybl yn y sefydliadau hyn yr hawl i dderbyn yr un lefel o gefnogaeth ac amddiffyniad â phlentyn mewn unrhyw ffurf arall o addysg.

2.2.12 Cymorth i Ferched

Mae'r gwasanaeth hwn, sy'n cael ei ddarparu drwy asiantaethau gwirfoddol, yn gweithio'n uniongyrchol gyda merched a phlant sy'n agored i gael eu cam-drin yn y cartref. Mae Cymorth i Ferched yn darparu llety diogel ar ffurf lloches yn ogystal â chefnogaeth gydag anawsterau emosiynol ac ymarferol. Unwaith mae teulu wedi ei ailgartrefu, bydd Cymorth i Ferched hefyd yn cynnig cefnogaeth yn y gymuned. Mae gweithwyr yn deall dylanwad negyddol cam-drin yn y cartref ac maent yn medru cynorthwyo plant i ddelio gyda'r canlyniadau yn ogystal â galluogi'r dioddefwr sy'n oedolyn i adennill ei swyddogaeth fel rhiant.

Gall Cymorth i Ferched dderbyn cais i gyfrannu i'r asesiad ac unrhyw gynllun amddiffyn plant.

2.2.13 Cyrff eraill o'r sector gwirfoddol a phreifat

Dylai cyrff gwirfoddol ddilyn Canllawiau'r Llywodraeth ar gyfer Cyrff Gwirfoddol *Safe from Harm*, sy'n amlygu ymarfer da ar gyfer cyrff gwirfoddol mewn perthynas ag amddiffyn plant.

Gw. 'Gweithio gyda'n Gilydd' 6.5

Gw. hefyd adran 3.13.4.2 ar beth i'w wneud pan fydd plentyn sydd ar y gofrestr amddiffyn plant yn symud i mewn i'r ardal.

Gw. 'Safe from Harm' 1993, Y Swyddfa Gartref.

NODIADAU

Gw. adran 4.6 am fwy ar blant sy'n cam-drin plant eraill.

Gall gyrff gwirfoddol yn gweithio gyda phlant â theuluoedd fod yn un o'r canlynol:

- cyrff chwaraeon, crefyddol neu hamdden ar gyfer plant. Prif swyddogaeth y cyrff mewn perthynas ag amddiffyn plant yw darparu amgylchedd diogel a chefnogol a bod yn effro i arwyddion o gamdriniaeth a gwneud cyfeiriadau fel sy'n briodol.
- darparu gwasanaethau cefnogol, megis cefnogi teuluoedd, gofal dydd neu ymweld â'r cartref. Gall y gwasanaethau hyn gynorthwyo i leihau'r perygl o niwed i blant o fewn teuluoedd sydd o dan bwysau, ac maent yn aml yn cael eu darparu fel rhan o'r cynllun amddiffyn.
- darparu gwasanaethau'n union gysylltiedig ag amddiffyn plant, megis eiriolaeth, llinellau cymorth, addysg gyhoeddus a gwasanaethau ymgyrchu ar gyfer plant sy'n ddioddefwyr neu dystion troseddau a gwaith therapiwtig gyda phlant sydd wedi'u cam-drin yn rhywiol.

Mae'r sector gwirfoddol hefyd yn gwneud cyfraniad arwyddocaol drwy wasanaethau i blant sydd wedi eu cam-drin drwy puteindra ac ar gyfer plant sy'n cam-drin plant eraill.

Mewn rhai rhannau o Gymru mae'r NSPCC yn darparu gwasanaeth 24 awr ar gyfer amddiffyn plant. Mae disgwyl i'w swyddogion gychwyn trefniadaeth fydd yn darparu ymateb priodol i unrhyw gwyn neu gais am gymorth sy'n ymwneud â phlant.

2.2.14 Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol

Mae gan y Gwasanaethau Prawf ddyletswydd statudol i oruchwilio troseddwy'r yn effeithiol fel modd i leihau troseddu ac amddiffyn y cyhoedd. Gall y perygl o du'r troseddwy'r hyn ymwneud â phlant yn y gymuned neu â phlant penodol y mae'r troseddwy'r yn byw gyda hwy.

Dylai'r Gwasanaethau Prawf weithio'n agos gyda'r heddlu, y Gwasanaethau Cymdeithasol ac eraill i asesu'r perygl i blant o du troseddwy'r hysbys a rhai o dan amheuaeth.

Mae *Deddf Troseddwy'r Rhyw 1997* yn mynnu bod troseddwy'r rhyw yn cofrestru gyda'r heddlu. Mae cynadleddau achos rhyngasiantaethol, sy'n cael eu hadnabod yn aml fel cyfarfodydd neu baneli rheoli perygl neu risg, yn canolbwyntio ar y camau angenrheidiol i reoli perygl o du troseddwy'r a chytuno ar gynlluniau gweithredu i'r sawl sydd y tu allan i gwmpas *Deddf Troseddwy'r Rhyw 1997*.

Mewn unrhyw achos lle mae troseddwr sydd wedi'i garcharu yn cael ei ystyried i fod yn berygl i blant, dylid hysbysu'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn yr ardal lle mae'n byw, a mabwysiadu dull rhyngasiantaethol o weithio.

Yn ystod cyfnod cofrestriad plentyn, dylai'r swyddog prawf sy'n ymwneud â'r achos drwy gydol cyfnod yr oruchwyliaeth brawf, weithredu unrhyw elfen o'r Cynllun Amddiffyn Plant y cytunwyd arno, gan gynnwys aelodaeth o Grwpiau Craidd, cofnodi cyswllt ar unwaith a chyfrannu i unrhyw gynadleddau adolygu a all gael eu trefnu.

Gw. adrannau 3.10, 3.11 a 3.12

NODIADAU

2.2.15 Y gwasanaeth carchar

Mae'r gwasanaeth carchar yn gweithio'n agos gydag asiantaethau eraill i adnabod unrhyw garcharor a all fod yn beryglus i'r cyhoedd wedi iddo gael ei ryddhau.

Mae'n ofynnol i lywodraethwyr hysbysu'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r gwasanaeth prawf o gynlluniau i ryddhau carcharorion sydd wedi'u dedfrydu am droseddau yn erbyn plant a phobl ifanc er mwyn i asiantaethau yn y gymuned fedru cymryd camau priodol i leihau unrhyw berygl.

Mae gan y llywodraethwr yr hawl i atal unigolyn o dan 18 oed rhag ymweld â charcharor os nad yw'r ymweliad yn unol â lles yr ymwelydd. Dylai'r Gwasanaethau Cymdeithasol gynorthwyo'r carchar drwy asesu p'un ai yw o les i blentyn penodol ymweld â charcharor sydd wedi'i enwi.

Mae gan y gwasanaeth carchar ddyletswydd i amddiffyn a hybu lles plant o dan ei warchodaeth. Mae gofyn i bob sefydliad gwasanaeth carchar sy'n dal pobl ifanc o dan 18 oed sefydlu ei bwyllgor amddiffyn plant ei hun a phenodi cyd-drefnydd amddiffyn plant. Dylai sefydlu hefyd, mewn cydweithrediad â'r Pwyllgorau Amddiffyn, bolisi amddiffyn plant lleol, yn manylu ar drefniadau i weithredu ar honiadau neu bryderon y gallai person ifanc fod wedi dioddef, neu fod mewn perygl o ddioddef, niwed arwyddocaol.

2.2.16 Gwasanaethau Cyngtori a Chynnal y Llys Plant a Theulu (CAFCASS)

Mae'r gwasanaeth yn cyfuno swyddogaeth lles llys teulu, adain plant Adran y Cyfreithiwr Swyddogol a gwasanaeth Gwarchodwr ad litem a'r Swyddog Adrodd. Y mae'n gyfrifol am gynghori'r llysoedd ar anghenion a budd plant sy'n destun achosion llysoedd teulu.

Mae gwarchodwr ad litem a swyddogion lles llys teulu yn weithwyr cymdeithasol neu swyddogion prawf profiadol sydd wedi'u penodi gan y llys i ymchwilio i amgylchiadau plentyn penodol, i baratoi adroddiad ysgrifenedig ac y gynghori'r llys am anghenion y plentyn a pha gamau a fyddai o les i'r plentyn hwnnw. Y term cyffredin ar gyfer holl ymarferwyr yw Ymgynghorydd Llys Teulu, ond pan y'i penodir, mae modd iddynt dderbyn un o'r chwech rol dilynol: Gwarchodwr y Plentyn; Swyddog Adrodd Plant a Theuluoedd; Swyddog Adrodd; Gwarchodwr ad Litem (cyfraith breifat yn unig); Ffrind Cyfreithiol; Swyddog sydd yn adrodd ar Orchymyn Rhiant.

Pwrpas y gwasanaeth yw diogelu a hybu lles plant sy'n destun gwrandawiadau drwy ddarparu cyngor gwaith cymdeithasol annibynnol i'r llys. Byddai hyn yn golygu bod y Gwarchodwr y Plentyn yn mynychu Cynadleddau Achos Amddiffyn

Plant sy'n cael eu cynnal am y plant hynny er mwyn casglu gwybodaeth ond nid i fod yn rhan o'r broses benderfynu.

Wrth wneud eu gwaith, gall swyddogion llys ddod ar draws sefyllfaoedd lle mae ganddynt bryder am les plentyn ac mae'n hanfodol eu bod yn cyfeirio'r pryderon hynny at y Gwasanaethau Cymdeithasol ar unwaith.

*Gw. adran 3.12 am
fwy ar Gynadleddau
Amddiffyn Plant.*

NODIADAU

*Gw. adran 3.6 am
fwy ar amddiffyn ar
unwaith.*

*Gw. adran 3.13.44
am fwy ar blant ar y
gofrestr sy'n symud.*

*Gw. adran 2.1.3 am
wybodaeth ar sut i
wneud cyfeiriad.*

2.2.17 Lluoedd arfog

Bydd y lluoedd arfog yn cydweithredu gyda asiantaethau statudol ac eraill i gefnogi teuluoedd lle mae pryderon amddiffyn plant.

Mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldebau statudol i amddiffyn plant teuluoedd y lluoedd arfog sydd wedi'u lleoli yn y DU. Lle mae teuluoedd y lluoedd arfog wedi'u lleoli dramor y Weinyddiaeth Amddiffyn sydd â chyfrifoldeb dros amddiffyn eu plant. Mae canllawiau yn bodoli yn y tri gwasanaeth ar gyfer cofrestru plant a monitro'r gwaith o'u hamddiffyn.

Gall person dynodedig wneud cais am Orchymyn Amddiffyn Brys (GAB) o dan Ddeddf y Lluoedd Arfog i swyddog ag awdurdod. Tra bod y Gorchymyn mewn grym, gall Cynhadledd Amddiffyn Plant benderfynu nad yw'n lles y plentyn iddo ddychwelyd at ei deulu ef neu hi. O dan yr amgylchiadau hyn bydd y plentyn yn cael ei symud i ofal y Gwasanaethau Cymdeithasol priodol yn y DU. Petai hyn yn digwydd, mae'r Gorchymyn sydd wedi'i wneud o dan yr awdurdod tramor yn parhau mewn grym am 24 awr wedi i'r plentyn ddychwelyd i'r DU. Yn ystod y cyfnod hwn rhaid i awdurdod lleol benderfynu p'un ai i wneud cais i lys yn y DU am Orchymyn pellach. Mewn achosion o'r fath, mae'n ddyletswydd ar y person cyfrifol (drwy'r awdurdodau'r gwasanaeth) i gynorthwyo'r rhieni i ddychwelyd i'r DU fel bo modd iddynt fod yn rhan o'r holl wrandawiadau a phenderfyniadau fydd yn effeithio ar eu plentyn.

Pan fydd teulu un o'r gwasanaethau milwrol sydd â phlentyn angen ei amddiffyn ar fin dychwelyd i'r DU mae SSAFA neu'r NPFS (Naval Personal Family Services) yn gyfrifol am hysbysu'r awdurdod lleol perthnasol ac am sicrhau fod dogfennaeth lawn yn cael ei darparu i gynorthwyo rheolaeth yr achos.

Dylai'r awdurdod lleol sicrhau fod SSAFA yn ymwybodol o unrhyw blentyn sy'n gysylltiedig â'r lluoedd arfog ac sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant a'r teulu ar fin symud dramor o'r DU. Rhaid i'r ddogfennaeth lawn gael ei darparu a'i gyrru ymlaen at y gweithiwr cymdeithasol sy'n gysylltiedig â SAAFA dramor. Bydd modd i weithiwr cymdeithasol SSAFA sicrhau bod adnoddau addas yn bodoli yn y lleoliad dramor i ateb yr angen a adnabuwyd.

Bydd cofnodion amddiffyn plant teuluoedd y Fyddin a'r Awyrlu sy'n gwasanaethu neu wedi gwasanaethu dramor yn cael eu cadw yn swyddfa ganolog SSAFA Forces Help. Bydd ceisiadau am wybodaeth o gofnodion am deuluoedd neu gyn deuluoedd y Fyddin a'r Awyrlu i'w cael gan:

The Director of Social Work
SSAFA Forces Help
19, Queen Elizabeth Street
London
SE12LP
Ffôn 020 7403 8783 Ffacs 020 7403 8815

NODIADAU

Gw. adran 3.6 am fwy ar amddiffyn ar unwaith.

Gw. adran 3.13.44 am fwy ar blant ar y gofrestr sy'n symud.

Gw. adran 2.1.3 am wybodaeth ar sut i wneud cyfeiriad.

2.2.18 Y Gwasanaeth Tân

Bydd swyddogion y Gwasanaeth Tân yn dod ar draws sefyllfaoedd lle bydd ganddynt bryderon am les plant. Gall rhain fod am lefel goruchwyliaeth o blant, eu gofal cyffredinol neu gyflwr yr eiddo. Gall y pryderon fod oherwydd digwyddiadau niferus yn yr un cyfeiriad.

Dylai swyddogion fod yn ymwybodol o ganllawiau amddiffyn plant a'r angen i gyfeirio pryderon am les plant at y Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r heddlu.

2.2.19 Y Gymdeithas Frenhinol er Atal Creulondeb i Anifeiliaid

Mae'r wybodaeth am y cysylltiad rhwng creulondeb I blant ac anifeiliaid a thrais yn y cartref erbyn hyn wedi ei sefydlu. Yng ngoleuni hyn, mae protocol ysgrifenedig a chanllawiau adrodd mewn bodolaeth I staff yr RSPCA yn manylu ar drosglwyddo a rhannu gwybodaeth rhwng yr Heddlu, Gwasanaethau Cymdeithasol a'r RSPCA, gyda'r bwriad penodol o wella gwaith ataliol ac adnabyddiaeth mewn perthynas a lles plant ac anifeiliaid. Mae'n ofynol I Swyddogion Ymchwilio Grwpiau'r RSPCA wneud cysylltiad gyda'r Heddlu a'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn lleol er mwyn cychwyn perthynas waith.

Mewn rhai ardaloedd, mae Grwpiau Lles Anifeiliaid wedi eu sefydlu ar gyfer troseddwr ifanc sydd wedi eu cael yn euog o greulondeb at anifeiliaid, neu pan fo'r Tim Troseddau Ieuentud yn adnabod creulondeb at anifeiliaid fel nodwedd arwyddocaol o ymddygiad troseddol.

Pan fo pryder am les plant gan gynnwys trais yn y cartref, mae'r RSPCA yn defnyddio'r protocol yma i gyfeirio.

2.2.20 Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru (CSIW)

Mae gan yr Arolygiaeth Safonau Gofal gyfrifoldebau rheoleiddio mewn ystod eang o sefyllfaoedd gofal plant, o ofal preswyl i warchodwyr plant. Mae'n bwysig felly fod rol yr Arolygiaeth ym maes amddiffyn plant yn cael ei chynnwys yng ngweithdrefnau lleol PAAP drwy Gymru. Yn benodol, pan fo cyfarfodydd strategaeth yn trafod honiadau yn erbyn staff proffesiynol, gwirfoddolwyr neu ofalwyr mewn gwasanaeth sydd yn cael ei reoleiddio gan ASGC, dylid hysbysu'r ASGC a'u gwahodd i'r cyfarfod. Cg.4.5.1. Ymateb I gyfeiriad am gamdrinaeth proffesiynol.

NODIADAU

Gw. adran 2.1.5 am wybodaeth ar gadw cofnodion drwy gydol y broses.

Gw. adran 3.6 am fwy ar gamau i'w cymryd ar unwaith.

Gw. adran 3.2

Gw. adran 3.3

Gw. adran 3.4

Gw. adran 3.5

Gw. adran 3.7

Gw. adrannau 3.8 a 3.11

3 • TRIN ACHOSION

3.1 Y broses ymchwilio - crynodeb

Gellir rhannau'r broses ymchwilio yn fras i bum cam. Ar unrhyw gam yn y broses, gall gael ei atal os yw'n ymddangos nad oes angen unrhyw weithredu pellach, neu, fel arall, gall y broses symud ymlaen i'r cam nesaf. **Ar bob cam yn y canllawiau hyn rhaid ystyried p'un a yw plentyn mewn perygl uniongyrchol o niwed a pha un a oes angen gweithredu ar frys i'w amddiffyn.**

Pum cam y broses ymholiadau yw:

- **Derbyn Cyfeiriad** - Mae aelod o staff y Gwasanaethau Cymdeithasol neu swyddog o'r heddlu yn derbyn enw a gyfeiriwyd. Mae'r person sy'n derbyn y cyfeiriad yn cofnodi manylion llawn ar y ffurflen briodol ac yn ceisio cael gwybodaeth bellach. Dylid hysbysu'r Heddlu cyn gynted a phosib osnbydd amheuaeth ynglyn a throedd yn erbyn plentyn. (Cynllunir Canllaw Cymru Gyfan ynghylch troseddau rhywiol mewn perthynas â phobl ifanc sy'n weithredol yn rhywiol.)
- **Asesiad Cychwynnol** - mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwneud Asesiad Cychwynnol i weld a yw'r plentyn mewn angen a hefyd a oes angen ei amddiffyn. Gall hyn olygu casglu rhagor o wybodaeth oddi wrth asiantaethau eraill a dylid ei gwblhau cyn gynted ag y bo modd. Efallai y bydd angen trafod strategaeth yn dilyn yr asesiad hwn.
- **Trafodaeth ar Strategaeth** - Ar ôl cwblhau'r Asesiad Cychwynnol, efallai y bydd penderfyniad bod angen Trafodaeth ar Strategaeth. Dylai'r heddlu a'r Gwasanaethau Cymdeithasol rannu a thrafod yr holl wybodaeth a dderbyniwyd/a gasglwyd a phenderfynu ar y camau nesaf i'w cymryd o fewn 24 awr neu yn ddi-oed os oes pryder am y plentyn ar unwaith.
- **Cyfarfod Strategaeth (lle mae'n briodol)** - Yn ystod y Drafodaeth ar Strategaeth, efallai y bydd cytundeb y dylid cynnal Cyfarfod Strategaeth. Dylai'r rhai sy'n mynychu gynnwys yr heddlu a staff y Gwasanaethau Cymdeithasol, ynghyd â gweithwyr proffesiynol eraill a phobl a all gynorthwyo yn y broses o gynllunio'r ymchwiliad. Dylid cynnal y cyfarfod hwn cyn gynted ag y bo modd a dim hwyrach na uchafswm o 8 diwrnod gwaith ar ôl derbyn y cyfeiriad.
- **Ymholiadau Adran 47 gan y Gwasanaethau Cymdeithasol a/neu'r Heddlu** - Yn y Drafodaeth/Cyfarfod Strategaeth, bydd penderfyniad yn cael ei gymryd ar p'un ai a fydd yr ymholiadau yn cael eu gwneud gan un asiantaeth neu ar y cyd yn dibynnu ar ddifrifoldeb a natur y cam-drin. Gall y broses ymholiadau gael ei dilyn gan Gynhadledd Amddiffyn Plant a pharatoi a gweithredu Cynllun Amddiffyn Plant. Caiff y rhain eu seilio ar Asesiad Craidd o anghenion y plentyn, sy'n rhedeg yn gyfochrog gyda'r ymholiadau Adran 47.

NODIADAU

Gw. adran 2.1.3 am arweiniad ar wneud cyfeiriad.

3.2 Delio gyda chyfeiriadau

3.2.1 Derbyn y cyfeiriad

Rhaid ystyried pob cyfeiriad sy'n honni fod plentyn wedi cael ei gam-drin neu mewn perygl o gael ei gam-drin fel mater difrifol a gwneud ymholiadau gan yr mae'r plentyn wedi ei leoli neu ei ddarganfod yn di-oed. Dylid trin pob cyfeiriad yn yr un modd, p'un ai yw'r gamdriniaeth honedig wedi digwydd oddi mewn neu'r tu allan i'r teulu.

Dylai cyfeiriadau cam-drin plant gael eu cymryd, neu eu cyfeirio at, swyddog profiadol sy'n hyddysg yn y canllawiau amddiffyn plant. Yn y Gwasanaethau Cymdeithasol dylid hysbysu'r rheolwr perthnasol hefyd am y cyfeiriad yn ddi-oed. Dylai'r person sy'n cymryd y cyfeiriad geisio casglu ynghyd yr holl wybodaeth isod oddi wrth y cyfeiriwr, a'i gofnodi yn ysgrifenedig, ynghyd â'r dyddiad, yr amser, a dull y cyfeirio:

- **enw a chyfeiriad y person sy'n adrodd y wybodaeth** sy'n arwain at gyfeirio'r mater a pha un ai oedolyn ai plentyn ydyw. Ni chaiff gweithwyr proffesiynol sy'n cyfeirio ddewis aros yn ddiennw, ond gall aelodau o'r cyhoedd wneud hynny, os ydynt yn dymuno;
- **perthynas y cyfeiriwr i'r plentyn** a/neu'r asiantaeth sy'n cyflogi'r cyfeiriwr;
- gwybodaeth ar **p'un a yw'r rhiant neu'r gofalydd yn ymwybodol** fod y mater yn cael ei gyfeirio;
- **enw, oed a chyfeiriad y camdriniwr honedig neu dybiedig** a chanfod a yw ef/hi yn ymwybodol bod y mater wedi'i gyfeirio;
- **manylion am natur y gamdriniaeth honedig**, y gamdriniaeth dybiedig neu bryderon cyffredinol;
- **enw, dyddiad geni a chyfeiriad y plentyn** yr honnir iddo gael ei gam-drin ac unrhyw blant eraill yn y teulu a'u lleoliad/cyfeiriad presennol;
- os yw **plant eraill o bosibl wedi cael cyswllt gyda'r camdriniwr honedig**, eu henwau, cyfeiriadau a'u dyddiadau geni;
- enw, oed a chyfeiriad y **person sydd â gwybodaeth uniongyrchol** am y gamdriniaeth honedig neu dybiedig;
- **manylion y dyddiad, amser a lle** yr honnir i'r gamdriniaeth ddigwydd;
- **enw, oed a chyfeiriad rhiant/prif ofalwyr y plentyn** ac enwau pawb sydd â Chyfrifoldeb Rhiant;
- enwau ac oed **pob person arall yn y cartref**, yn oedolion a phlant;
- **manylion am aelodau arwyddocaol o'r teulu** nad ydynt yn byw yng nghartref y plentyn;
- enw, oed a chyfeiriad **unrhyw berson arall y mae'n hysbys gwyddys fod ganddo wybodaeth** ar y gamdriniaeth honedig neu dybiedig;
- gwybodaeth ar p'un a yw'r plentyn wedi cael **archwiliad meddygol** diweddar, ac os felly, gan bwy;

NODIADAU

- enw a chyfeiriad **meddyg teulu, ymwelydd iechyd/nyrs ysgol ac unrhyw weithiwr iechyd proffesiynol arall** sy'n ymwneud â'r teulu, gan gynnwys yr oedolion;
- **unrhyw wybodaeth arall** a allai fod yn berthnasol, e.e. ysgol/cylch chwarae y mae'r plentyn yn eu mynychu ac unrhyw ymwneud gan weithiwr cymdeithasol addysgol/swyddog lles, heddlu etc;
- **tarddiad ethnig y plentyn, dewis iaith y plentyn ac unrhyw anawsterau sydd gan y plentyn wrth gyfathrebu.**

Mae'n hanfodol bod gwybodaeth ynghylch honiadau neu amheuon o gam-drin yn cael eu cofnodi mor llawn ac mor gywir ag y mae modd yn unol â'r canllawiau hyn, gan fod hyn hefyd yn ffurfio rhan gyntaf yr asesiad. Lle bo modd, dylai'r swyddog sy'n derbyn y cyfeiriad ddarllen yn ôl i'r cyfeiriwr y cofnod ysgrifenedig o'r cyfeiriad, ynghyd ag unrhyw ddehongliadau sy'n cael eu gwneud o'r wybodaeth sydd wedi cael ei rhoi.

Dylai unrhyw weithiwr cymdeithasol sy'n derbyn cyfeiriad edrych yng nghofnodion yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol ei hun a'r Gofrestr Amddiffyn Plant i weld pa wybodaeth, os oes yna beth, sydd eisoes yn hysbys am y plentyn. Pryd bynnag y daw'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymwybodol o achos sy'n golygu trosedd gyfreithiol neu a allai fod yn drosedd gyfreithiol yn erbyn plentyn, yna dylid hysbysu'r heddlu bob amser ar y cyfle cyntaf posibl.

Hyd yn oed os nad yw peth o'r wybodaeth hon ar gael ar unwaith, dylai'r drafodaeth ar strategaeth ddigwydd yr un fath.

3.2.2 Y tu allan i oriau swyddfa arferol

Y tu allan i oriau swyddfa arferol, dylai cyfeiriadau gael eu gwneud i'r gwasanaeth Gwasanaethau Cymdeithasol y Tu Allan i Oriau/ y gwasanaeth Dyletswydd Brys neu i'r heddlu. Bydd y staff tu allan i oriau yn rhoi gwybod am bob cyfeiriad sy'n cael ei wneud i'r Gwasanaethau Cymdeithasol (ar lafar ac yn ysgrifenedig) i'r rheolwr Gwasanaethau Cymdeithasol perthnasol y diwrnod canlynol, ynghyd â'r camau a gymerwyd. Wrth gymryd y cyfeiriad, rhaid i'r gweithiwr cymdeithasol neu'r swyddog heddlu fod yn effro i unrhyw arwyddion o berygl uniongyrchol i'r plentyn neu i ddiogelwch plant eraill a rhaid iddynt fod yn barod i weithredu ar frys i sicrhau diogelwch y plentyn hwn neu blant eraill, gan gynnwys sylw meddygol angenrheidiol. Lle mae cyfeiriad o natur ddifrifol angen ymateb ar unwaith, yna bydd camau priodol yn unol â'r canllawiau hyn yn cael eu gweithredu yn ddi-oed.

Dylai staff y gwasanaeth Allan o Oriau/gwasanaeth Dyletswydd Brys edrych yn y Gofrestr Amddiffyn Plant am wybodaeth ar y plentyn, ond mae'n annhebyg y byddant yn gallu gwneud unrhyw chwiliadau eraill. **Fodd bynnag, ni ddylai'r ffaith eu bod yn methu gwneud unrhyw chwiliadau eraill eu rhwystro rhag gweithredu i ddiogelu'r plentyn.** Ni ddylai staff y gwasanaeth Allan o Oriau/gwasanaeth Dyletswydd Brys ddechrau ymholiadau Adran 47 na chynnal Cyfarfod Strategaeth; dylid gadael y rhain i'r gweithwyr cymdeithasol amddiffyn plant arbenigol a swyddogion yr heddlu, unwaith eu bod yn ôl ar ddyletswydd.

Gw. adran 3.6 am gamau i'w cymryd ar unwaith.

NODIADAU

*Gw. hefyd 'Gweithio
gyda'n Gilydd'
tudalennau 42 a 43.*

*Gw. adran 3.7 am
fwy ar ymholiadau
Adran 47.*

3.2.3 Adrodd yn ôl i'r cyfeiriwr

Dylai unrhyw berson sy'n gwneud cyfeiriad o gam-drin plentyn gael gwybod y gall unrhyw ymholiadau pellach gael eu cynnal ar y cyd gan yr Heddlu a'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Dylid hysbysu'r cyfeiriwr hefyd y bydd ef neu hi yn cael gwybodaeth am ganlyniad y cyfeiriad, mewn ffordd sy'n gyson gyda pharchu cyfrinachedd y plentyn a'r teulu.

3.3 Yr Asesiad Cychwynnol

3.3.1 Pwrpas a chwmpas yr Asesiad Cychwynnol

Caiff Asesiad Cychwynnol ei wneud gan y Gwasanaethau Cymdeithasol i ganfod a yw plentyn mewn angen ac a yw'r plentyn angen ei amddiffyn. Dylid gwneud yr Asesiad Cychwynnol cyn gynted ag y bo modd, a dylid ei gwblhau o fewn saith diwrnod o dderbyn y cyfeiriad, er y gall gymryd llawer llai o amser na hyn. Ffocws yr Asesiad Cychwynnol ddylai fod diogelwch a lles y plentyn. Hyd yn oed os mai'r rheswm dros gyfeirio oedd pryder ynghylch camdriniaeth neu esgeulustod a hynny wedyn ddim yn profi'n wir, gall teulu elwa o hyd o gefnogaeth a chymorth ymarferol i hybu iechyd a datblygiad plentyn.

Lle derbynnir cyfeiriad am blentyn sydd eisoes yn hysbys i'r Gwasanaethau Cymdeithasol, bydd llawer o wybodaeth eisoes ar gael. Rhaid i benderfyniadau yn dilyn y cyfeiriad newydd gymryd i ystyriaeth yr holl wybodaeth sy'n hysbys a'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd.

Mae penderfyniad i gasglu rhagor o wybodaeth yn gwneud Asesiad Cychwynnol. Ystyrir fod Asesiad Cychwynnol wedi dechrau ar bwynt y cyfeirio i'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Gall cyfnod yr Asesiad Cychwynnol fod yn fyr iawn os dechreuir ar ymholiadau Adran 47.

3.3.2 Ceisio cydsyniad rhiant

Dylid cael cydsyniad rhiant fel arfer cyn trafod cyfeiriad ynghylch eu plentyn neu eu plant gydag asiantaethau eraill. Fodd bynnag, lle ceir ystyriaethau amddiffyn plant a all roi'r plentyn mewn mwy o berygl, efallai y bydd yr Heddlu a/neu'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn dymuno cynnal ymholiadau a siarad â phlentyn y tybir ei fod wedi cael ei gam-drin heb yn wybod i riant neu ofalydd. Ymhlith amgylchiadau eraill lle gall ymholiadau ddigwydd heb yn wybod i'r rhiant mae'r posibilrwydd o fygythion neu orfodaeth, colli tystiolaeth bwysig, a dymuniadau'r plentyn fod rhiant ddim yn cael gwybod, os yw'r plentyn yn gymwys i gymryd y penderfyniad hwnnw.

Blwch 4 • Cynnwys aelodau o'r teulu

- Archwilio gwahanol ffyrdd o gynnwys aelodau o'r teulu wrth asesu.
- Mae gweithio mewn partneriaeth gydag un neu fwy o aelodau'r teulu yn debyg o fod â chanlyniadau tymor hir buddiol i'r plentyn.
- Gwrandewch yn ofalus ar yr hyn sydd gan rieni i'w ddweud, a chynnig cyngor a chefnogaeth, os yw hynny'n briodol.
- Cofiwch gymryd i ystyriaeth gryfderau'r teulu yn ogystal â'i anawsterau.

NODIADAU

- Rhowch wybodaeth gyson i rieni am bwrpas, proses a hynt yr asesiad a darparu gwybodaeth ysgrifenedig ar eu cyfer.
- Sicrhewch fod rhieni yn deall mai ystyriaeth gyntaf y gweithwyr proffesiynol yn y mater yw gwneud yn siwr fod eu plentyn yn ddiogel.
- Rhowch gyfle i rieni ysgrifennu eu barn hwy fel rhan o'r cofnod asesu.

3.3.3 Gofyn am wybodaeth oddi wrth asiantaethau eraill

Gall y gweithiwr cymdeithasol sy'n cyd-drefnu'r Asesiad Cychwynnol fynd at asiantaethau eraill gyda cheisiadau am wybodaeth. Dylai ef neu hi wneud yn glir beth yw natur a phwrpas y cais, a chofnodi'r cais a'r ateb yn ysgrifenedig.

Mae diogelwch y plentyn yn cymryd blaenoriaeth dros yr angen i gadw cyfrinachedd proffesiynol. Cyfrifoldeb pob asiantaeth neu weithiwr proffesiynol unigol yw cyfrannu'r holl wybodaeth berthnasol pan gânt gais i wneud hynny ac nid dim ond uchafbwyntiau wedi'u golygu.

3.3.4 Gwneud yr Asesiad Cychwynnol

Bydd y wybodaeth a gafwyd yn ystod cam yr Asesiad Cychwynnol yn cael ei ddefnyddio i ddadansoddi'r achosion am y pryder fel rhan o unrhyw ymholiad Adran 47 a hefyd yn ffurfio sylfaen yr Asesiad Craidd. Dylai'r Asesiad Cychwynnol gynnwys:

- cyfweiliadau gyda'r plentyn ac aelodau o'r teulu, fel sy'n briodol
- ystyriaeth o'r angen am asesiad meddygol
- cyswllt gydag asiantaethau eraill, fel sy'n briodol, i gasglu tystiolaeth berthnasol
- ymgynghori gyda goruchwyliwr/rheolwr
- cofnod o'r dadansoddiad cychwynnol, gan gynnwys dadansoddiad o wybodaeth hanesyddol
- penderfyniad ar p'un a ddylid cymryd camau pellach, ac os gwneud, beth
- cofnod o benderfyniadau a'r rheswm dros benderfyniadau
- hysbysu asiantaethau eraill am y penderfyniadau
- datganiad i'r teulu am y penderfyniad wnaed, ac os yw plentyn mewn angen, y cynllun ar gyfer darparu cefnogaeth.

Blwch 5 • Cynnwys plant

- Yn aml mae gan blant ganfyddiad clir o'r hyn sydd angen ei wneud i sicrhau eu diogelwch a'u lles.
- Dylent gael eu helpu i ddeall sut mae'r broses amddiffyn plant yn gweithio, sut y gallant gymryd rhan ynddi, a'u bod yn medru cyfrannu tuag at benderfyniadau ynghylch eu dyfodol.

NODIADAU

- Dylai plant hefyd gael gwybodaeth am sut i gael at wasanaethau eiriolaeth a ffynonellau eraill o gefnogaeth.
- Mae angen gwrandao ar blant ym mhob cam o'r broses amddiffyn plant a'u hysbysu o'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud.
- **Ym mhob cam, dylid rhoi ystyriaeth i ddiogelwch uniongyrchol y plentyn ac unrhyw blant eraill. Gwnewch yn siwr fod y plentyn yn cael ei weld gan weithiwr cymdeithasol sy'n gymwys i wneud asesiad o'r sefyllfa ac sy'n gallu cymryd unrhyw gamau sydd eu hangen ar unwaith i amddiffyn y plentyn.**

Dylai'r Asesiad Cychwynnol ystyried y cwestiynau a ganlyn:

- A yw'r plentyn hwn mewn angen?
- Beth yw anghenion y plentyn?
- A oes achos rhesymol i amau fod y plentyn hwn yn dioddef neu'n debyg o ddioddef niwed arwyddocaol?
- A yw'r rhieni yn medru ymateb yn briodol i anghenion y plentyn?
- A yw'r plentyn yn cael ei ddiogelu yn ddigonol rhag niwed arwyddocaol ac a yw'r rhieni yn medru hybu iechyd a datblygiad y plentyn?
- A oes angen gweithredu i ddiogelu a hybu lles y plentyn a lles unrhyw blant eraill a all fod wedi cael cyswllt gyda'r camdriniwr honedig?

Blwch 6 • Asesiad Cychwynnol ac ymholiadau: Deg magl a sut i'w hosgoi

- 1. Does dim digon o sylw yn cael ei roi i wybodaeth oddi wrth deulu, ffrindiau a chymdogion.** *Gofynnwch i chi eich hun:* Fyddwn i'n ymateb yn wahanol petai'r adroddiadau hyn wedi dod o ffynhonnell wahanol? Sut fedraf i wirio p'un a oes sail iddynt ai peidio? Hyd yn oed os nad ydynt yn gywir, a allent fod yn arwydd fod ar y teulu angen rhyw fath o gymorth neu gefnogaeth?
- 2. Does dim digon o sylw'n cael ei roi i'r hyn mae plant yn ei ddweud, sut maent yn edrych a sut maent yn ymddwyn.** *Gofynnwch i chi eich hun:* A ydw i wedi cael gweld holl blant yn y teulu dan amgylchiadau addas? Os nad ydw i wedi medru gweld unrhyw blentyn, a oes rheswm da iawn am hynny, ac a ydw i wedi gwneud trefniadau i'w weld ef/hi cyn gynted ag y bo modd, neu wedi gwneud yn siwr fod gweithiwr proffesiynol perthnasol arall yn ei weld ef/hi? Sut ddylwn i ddilyn i fyny unrhyw anesmwythyd ynghylch iechyd neu les y plentyn/plant? Os yw'r plentyn yn ddigon hen ac os oes ganddo'r sgiliau cyfathrebu, beth yw stori'r plentyn am y digwyddiadau? Os yw'r plentyn yn defnyddio iaith heblaw Saesneg, neu gyfathrebu arall dieiria, a ydw i wedi gwneud ymdrech i gael help i'w ddeall ef/hi? Beth yw'r dystiolaeth i gefnogi neu wrthod stori'r person ifanc?

NODIADAU

3. **Mae'r sylw'n cael ei ganolbwyntio ar y problemau mwyaf gweladwy neu amlwg ac nid yw arwyddion eraill a ddylai'n rhybuddio yn cael eu gwerthfawrogi.** *Gofynnwch i chi eich hun:* Beth yw'r peth mwyaf trawiadol ynghylch y sefyllfa hon? Petai'r nodwedd hon yn cael ei thynnu i ffwrdd neu ei newid, a fyddai gen i bryderon o hyd?
4. **Mae pwysau oddi wrth swyddogion o statws uchel neu'r wasg, sy'n mynegi ofnau y gallai plentyn farw, yn arwain at weithredu'n rhy frysiog.** *Gofynnwch i chi eich hun:* A fyddwn i'n gweld y cyfeiriad hwn fel mater amddiffyn plant petai yn dod o ffynhonnell arall?
5. **Mae gweithwyr proffesiynol yn cymryd eu bod wedi esbonio rhywbeth yn glir, ac y bydd y person arall wedi deall.** *Gofynnwch i chi eich hun:* Ydw i wedi gwneud yn siwr unwaith eto gyda'r teulu a'r plentyn /plant eu bod yn deall beth fydd yn digwydd nesaf?
6. **Mae rhagdybio a rhagfeirniadu pethau ynghylch teuluoedd yn arwain at arsylwadau yn cael eu hanwybyddu neu eu camddehongli.** *Gofynnwch i chi eich hun:* Beth yw'r dystiolaeth galed, os oes yna beth, sy'n gwrth-ddweud yr arsylwadau?
7. **Mae ymddygiad rhieni, p'un a yw yn gydweithredol neu beidio, yn cael ei gamddehongli.** *Gofynnwch i chi eich hun:* Beth yw'r rhesymau am ymddygiad y rhieni? Oes yna bosibiliadau eraill ar wahân i'r rhai mwyaf amlwg? A allai eu hymddygiad fod yn adwaith i rywbeth y gwneuthum i ei ddweud neu ei wneud yn hytrach na rhywbeth i wneud gyda'r plentyn?
8. **Pan fydd yr ymholiad cychwynnol yn dangos nad yw'r plentyn mewn perygl o niwed arwyddocaol, nid yw'r teulu'n cael ei gyfeirio i wasanaethau eraill y mae eu hangen arnynt i atal problemau tymor hirach.** *Gofynnwch i chi eich hun:* A yw sefyllfa'r teulu hwn yn foddhaol i gyfarfod ag anghenion y plentyn? P'un a oes pryder amddiffyn plant neu beidio, a yw'r teulu angen cefnogaeth neu gymorth ymarferol? Sut fedraf i wneud yn siwr eu bod yn gwybod pa wasanaethau maent â hawl iddynt, a'u bod yn medru cael gafael ynddynt os mai dyna'u dymuniad?
9. **Pan fydd gweithwyr proffesiynol yn wynebu teulu ymosodol neu un sy'n eu dychryn, mae gweithwyr proffesiynol yn amharod i drafod ofnau am eu diogelwch eu hun a gofyn am help.** *Gofynnwch i chi eich hun:* Oeddwn i'n teimlo'n ddiogel yn y cartref hwn? Os na, pam? Petawn i, neu weithiwr proffesiynol arall, yn mynd yn ôl yno i sicrhau diogelwch y plant, pa gefnogaeth ddylwn i ofyn amdani? Os oes angen, rhowch eich pryderon a'ch ceisiadau yn ysgrifenedig i'ch rheolwr.
10. **Nid yw'r wybodaeth a gymerwyd yn yr ymholiad cyntaf wedi'i gofnodi'n iawn, nid yw ffeithiau wedi'u gwirio ac nid yw'r rhesymau am benderfyniadau wedi cael eu nodi.** *Gofynnwch i chi eich hun:* Ydw i'n siwr fod y wybodaeth yr wyf i wedi'i nodi yn 100%

NODIADAU

gywir? Os na wneuthum i fynd dros y nodiadau gyda'r teulu yn ystod y cyfweiliad, pa gamau ddylwn i gymryd i wneud yn siwr eu bod yn iawn? A yw fy nodiadau yn dangos yn glir y gwahaniaeth rhwng y wybodaeth a roddodd y teulu i mi, fy arsylwadau uniongyrchol fy hun, a'm dehongliad neu fy asesiad o'r sefyllfa? A yw fy nodiadau'n yn cofnodi pa gamau rwyf i wedi'u cymryd/y byddaf yn eu cymryd a pha gamau y mae pobl berthnasol eraill wedi cymryd/yn mynd i gymryd?

3.3.5 Cwblhau'r Asesiad Cychwynnol a chanlyniadau posibl

O fewn 7 diwrnod gwaith fan pellaf o dderbyn y cyfeiriad, rhaid gwneud penderfyniad am y camau nesaf i'w cymryd. Rhaid i'r penderfyniad hwn gael ei gymryd gan y personél priodol yn y Gwasanaethau Cymdeithasol gyda chyfrifoldeb am amddiffyn plant, gan ymgynghori gyda'r heddlu, a rhaid iddo gymryd i ystyriaeth ganlyniadau'r Asesiad Cychwynnol.

Dylid cofnodi'n glir y penderfyniad ynghylch yr hyn ddylai ddigwydd nesaf, y rhesymau dros y penderfyniad hwn a'r camau gymerwyd wedyn, a dylai'r person sy'n gwneud y penderfyniad lofnodi'r cofnod.

Ar y cam hwn, dylid trafod hefyd gyda'r plentyn a'r teulu ynghylch beth fydd yn digwydd nesaf, oni bai y byddai trafodaeth o'r fath, ym marn y rheolwr cyfrifol, yn debyg o roi'r plentyn mewn perygl o ddioddef niwed arwyddocaol. . Bydd angen i'r Gwasanaethau Cymdeithasol gofnodi'r penderfyniad am hyn ynghyd â'r rhesymau.

Pa benderfyniadau bynnag a wneir, dylid eu cadarnhau ar lefel reolaethol y cytunwyd arni o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol a'u cofnodi yn ysgrifenedig, gyda'r rhesymau drostynt.

Gall canlyniad yr Asesiad Cychwynnol fod yn un neu fwy o'r pedwar posiblwydd dilynol:

- **Asesiad Craidd** os yw'r Asesiad Cychwynnol yn awgrymu y gall plentyn fod mewn angen ond nad oes unrhyw bryderon wedi'u cadarnhau sy'n awgrymu y gall y plentyn fod yn dioddef, neu mewn perygl o ddioddef, niwed arwyddocaol.
- **Trafodaeth/Cyfarfod Strategaeth** a fydd yn penderfynu p'un a oes angen ymchwiliad Adran 47.
- **Ymchwiliad Adran 47** gyda thrafodaeth/cyfarfod strategaeth yn union o'i flaen lle mae'r Asesiad Cychwynnol yn awgrymu fod amheuaeth fod y plentyn yn dioddef neu'n debyg o ddioddef niwed arwyddocaol. Pwrpas ymholiadau Adran 47 yw penderfynu a oes angen unrhyw gamau i hybu neu ddiogelu lles y plentyn neu blant sydd yn destun i'r ymchwiliad.
- **Gweithredu Argyfwng wedi'i Gynllunio** os yw'r Asesiad Cychwynnol yn awgrymu fod perygl i fywyd plentyn neu debygrwydd o berygl difrifol o niwed ar unwaith. Dylai gweithredu o'r fath, lle bo modd, ddigwydd yn dilyn Cyfarfod Strategaeth, ond lle mae'n rhaid i'r heddlu neu'r Gwasanaethau

Gw. adran 3.4

Gw. adran 3.7

Gw. adran 3.6

NODIADAU

Cymdeithasol weithredu ar unwaith i amddiffyn plentyn. Dylai Cyfarfod Strategaeth ddigwydd cyn gynted ag y bo modd ar ôl gweithredu o'r fath i gynllunio'r camau nesaf.

3.4 Y Drafodaeth Strategaeth

3.4.1 Cwmpas a phwrpas y Drafodaeth Strategaeth

Yn dilyn yr Asesiad Cychwynnol, lle ceir achos rhesymol i amau fod plentyn yn dioddef, wedi dioddef neu'n debygol o ddioddef niwed arwyddocaol, yna dylid cynnal Trafodaeth Strategaeth. Dylai'r drafodaeth hon ddigwydd rhwng personél priodol gyda chyfrifoldeb dros amddiffyn plant yn yr heddlu a'r Gwasanaethau Cymdeithasol a gall ddigwydd naill ai wyneb yn wyneb neu dros y ffôn. Dylai ddigwydd o fewn 24 awr i'r penderfyniad i'w gynnal.

Pwrpas y Drafodaeth Strategaeth yw rhannu a thrafod yn fanwl yr holl wybodaeth a gasglwyd, yn ogystal â natur y pryder. Dylid wedyn dod i benderfyniad ynghylch y camau sydd eu hangen a'r amserlen ar gyfer gweithredu'r camau hynny.

3.4.2 Canlyniadau posibl y Drafodaeth Strategaeth

Gall y Drafodaeth Strategaeth olygu bod penderfyniad yn cael ei gymryd i ddilyn un o'r pum llwybr gweithredu canlynol:

- **Dim camau pellach** os cafwyd nad oes sail i'r honiad ac nad oes yna bryderon eraill.
- **Cyfeiriad i'r gwasanaethau cefnogi** os yw ymholiadau rhagarweiniol wedi datgelu anghenion sylweddol am gefnogaeth a gwasanaethau nad ydynt yn cael eu diwallu.
- **Asesiad Craidd**, os oes angen rhagor o wybodaeth am anghenion ac amgylchiadau'r plentyn, i gael ei gwblhau o fewn 42 diwrnod gwaith o ddyddiad y cyfeirio, fel y'i gosodir yn y *Fframwaith Asesu Plant Mewn Angen a'u Teuluoedd*.
- **Cyfarfod Strategaeth ar Unwaith** i gynllunio ymchwiliad Adran 47 a/neu ymchwiliad troseddol lle mae achos pryder yn parhau. Byddai hyn hefyd yn ffurfio'r sail ar gyfer unrhyw Asesiad Craidd yn y dyfodol.
- **Camau brys** i ddiogelu'r plentyn os y credir ei fod ef neu hi mewn perygl uniongyrchol o niwed arwyddocaol.

Dylid cofnodi yn glir bob penderfyniad a gymerir yn ystod y Drafodaeth Strategaeth gychwynnol hon a'r rhesymau dros y penderfyniadau hynny a dylai'r bobl sy'n gwneud y penderfyniadau eu llofnodi.

3.4.3 Adborth i'r cyfeiriwr

Dylid rhoi adborth i'r cyfeiriwr. Os yw'r cyfeiriad wedi cael ei dderbyn oddi wrth aelod o'r cyhoedd, dylid rhoi'r adborth hwn mewn dull sy'n gyson gyda pharchu cyfrinachedd y plentyn a'r teulu.

Gw. adran 3.5

Gw. adran 3.6

NODIADAU

Mewn rhai achosion, efallai y bydd cyfeirwyr yn dymuno herio canlyniad y Drafodaeth Strategaeth. Dylai gweithwyr proffesiynol fynegi unrhyw bryderon drwy eu rheolwr llinell eu hun a hefyd drwy adrodd eu pryderon i'r uwch reolwr yn y Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n gyfrifol am amddiffyn plant, gan ofyn i'r broses gael ei hailagor. Dylai defnyddwyr y gwasanaeth neu aelodau o'r cyhoedd ddefnyddio trefn gwyno'r asiantaeth, ar ôl ailgyfeirio'u pryderon yn gyntaf at y rheolwr tîm perthnasol. Dylai pob Pwyllgor Amddiffyn sicrhau fod ganddynt brotocol lleol yn ei le ar gyfer delio gyda herio'r penderfyniadau.

3.5 Y Cyfarfod Strategaeth

3.5.1 Cwmpas a phwrpas y Cyfarfod Strategaeth

Yn ystod y Drafodaeth Strategaeth, gellir cytuno i gynnal Cyfarfod Strategaeth. Dylai'r Cyfarfod Strategaeth benderfynu p'un a ddylai'r ymholiadau fynd yn eu blaen, ac os felly, gynllunio rheolaeth yr ymholiadau a chyd-drefnu casglu'r wybodaeth angenrheidiol.

Dylai Cyfarfod Strategaeth bob amser ddigwydd yn yr achosion canlynol:

- achosion o gam-drin rhywiol;
- achosion o esgeulustod difrifol;
- achosion o niwed corfforol difrifol;
- camdriniaeth honedig gan ofalwyr;
- camdriniaeth honedig gan berson sydd â chyswllt proffesiynol gyda phlentyn.

Yn ystod y Cyfarfod Strategaeth bydd yr heddlu a'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn penderfynu pwy ddylai ymchwilio i'r cyfeiriad. Bydd y penderfyniad naill ai i wneud ymchwiliad ar y cyd neu ymchwiliad asiantaeth unigol naill ai gan yr heddlu neu'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Ni ddylid byth cael ymchwiliadau ar wahân a digyswllt.

Lle cytunir y bydd un asiantaeth yn ymchwilio, bydd yr asiantaeth honno yn penderfynu beth fydd y strategaeth ar gyfer ei hymchwiliad gan ymgynghori gyda'r asiantaeth arall. Dylid cofnodi'n ofalus y rheswm dros benderfynu y bydd un asiantaeth ar ei phen ei hun yn ymchwilio. Os daw hi'n amlwg ar unrhyw adeg yn ystod ymchwiliad asiantaeth unigol fod y meini prawf ar gyfer ymchwiliad ar y cyd wedi cael eu bodloni, yna rhaid cysylltu ar unwaith gyda'r asiantaeth arall er mwyn cynnull Trafodaeth/Cyfarfod Strategaeth pellach.

3.5.2 Cynllunio'r Cyfarfod Strategaeth

Bydd yr heddlu a staff y Gwasanaethau Cymdeithasol bob amser yn mynychu'r Cyfarfod Strategaeth, ynghyd â gweithwyr proffesiynol eraill a phobl a all gynorthwyo yn y broses o gynllunio'r ymchwiliad. Mae'n bwysig gwneud yn siwr fod y bobl eraill hyn yn cael eu gwahodd i fynychu unrhyw Gyfarfod Strategaeth er mwyn iddynt fedru rhannu gwybodaeth a chynorthwyo yn y broses benderfynu.

Lle gwnaed Asesiad Cychwynnol, bydd y Cyfarfod Strategaeth yn digwydd dim hwyrach na uchafswm o 8 diwrnod gwaith o dderbyn y cyfeiriad **ac yn gynt os oes lle i amau niwed arwyddocaol cyn hyn.**

NODIADAU

3.5.3 Materion i'w trafod yn y Cyfarfod Strategaeth

Dylid defnyddio'r Cyfarfod Strategaeth i wneud y canlynol:

- rhannu'r holl wybodaeth sydd ar gael;
- cytuno ar amseriad ymholiadau Adran 47;
- cytuno pa gamau gweithredu sydd eu hangen ar unwaith i ddiogelu'r plentyn, a/neu ddarparu gwasanaethau neu gefnogaeth cyfamserol tra bo ymholiadau yn digwydd;
- penderfynu a ddylid dechrau gydag ymholiadau Adran 47 a/neu droseddol neu eu parhau os ydynt eisoes wedi dechrau;
- cytuno ar gynllun ar gyfer ymholiadau Adran 47 fel rhan o'r Asesiad Craidd, gan gynnwys penderfynu pa wybodaeth bellach sydd ei hangen am y plentyn neu blant a'r teulu a sut y dylid cael y wybodaeth;
- cytuno pwy fydd yn ffurfio'r tîm ymchwilio;
- cynllunio sut y dylid trin ymholiadau, gan gynnwys yr angen am archwiliad/asesiad meddygol a thriniaeth. Dylid cynllunio hyn gyda staff meddygol sydd wedi'u hyfforddi'n briodol;
- penderfynu pwy sydd i gael ei gyfweld, gan bwy, pryd, ble ac i ba bwrpas. Bydd hyn yn cynnwys cyfweld yr hysbyswr gwreiddiol os na wnaed hyn yn barod;
- cytuno a ddylid gwneud recordiad fideo o unrhyw gyfweiliad gyda'r plentyn, gyda rhesymau am y penderfyniad hwn. Cytuno pwy arall sydd angen bod yn bresennol yn y cyfweiliad gyda'r plentyn;
- penderfynu a yw er pennaf les y plentyn i geisio cydsyniad y rhieni ar gyfer cyfweld y plentyn;
- os yw'n briodol, penderfynu pwys sydd i gysylltu â'r rhiant/rhieni i gael cydsyniad ar gyfer cyfweld y plentyn, unrhyw recordiad fideo ac archwiliad meddygol;
- ystyried pa gamau ddylid eu cymryd os yw rhiant neu blentyn yn gwrthod cydsyniad ar gyfer cyfweiliad neu asesiad meddygol;
- ystyried lefel datblygiad y plentyn, unrhyw anabledd neu ystyriaethau iaith, a pha drefniadau sydd angen eu gwneud i gynnig cyfweiliad i'r plentyn yn ei ddewis iaith;
- ystyried anghenion a diogelwch plant eraill allai gael eu heffeithio, e.e. brodyr a chwiorydd a phlant eraill sydd â chyswllt gyda'r camdriniwr honedig ac a ddylid estyn yr ymchwiliad i gynnwys unrhyw rai o'r plant eraill hyn. Mae'n aml yn briodol cael asesiadau meddygol o'r brodyr a'r chwiorydd i gyd;
- cytuno pwy fydd yn cyfweld y camdriniwr honedig a phryd;
- penderfynu pa wybodaeth fydd yn cael ei rhannu gyda'r plentyn ac aelodau'r teulu, oni bai fod rhannu gwybodaeth fel hyn yn rhoi'r plentyn mewn perygl o gael ei niweidio'n arwyddocaol neu beryglu ymchwiliadau'r heddlu i unrhyw drosedd(au) honedig;

Gw. adran 3.7.2.4

Gw. adran 3.7.2.3

NODIADAU

- cytuno pa weithwyr proffesiynol nad oedd yn bresennol yn y Cyfarfod Strategaeth ddylai gael eu hysbysu ar y cam hwn;
- penderfynu i bwy fydd y tîm ymchwilio yn adrodd, pa mor aml, a sut fydd cynnydd yn cael ei adolygu. Mae'n bwysig penderfynu p'un a ddylid ailgynnull Cyfarfod Strategaeth er mwyn gwneud yn siwr fod y gwaith yn mynd yn ei flaen, casglu mwy o wybodaeth neu archwilio canlyniadau'r ymholiad cyn cynnal cynhadledd achos amddiffyn plant. Gall mwy nag un Cyfarfod/Trafodaeth Strategaeth fod yn briodol yn dibynnu ar amgylchiadau'r achos.

Dylid cofnodi pob penderfyniad a gyrhaeddir a'r sail dros y penderfyniadau hynny yn glir a dylai'r partïon i'r cyfarfod gytuno arnynt.

Os oes anghytundeb ynghylch yr ymateb priodol i gyfeiriad, dylid adrodd y materion sydd heb eu datrys i uwch swyddogion y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r heddlu er mwyn ceisio cael penderfyniad consensws. Rhaid cymryd y camau hyn yn gyflym a rhaid peidio â chyflwyno oedi diangen i'r broses.

3.6 Amddiffyn ar unwaith

3.6.1 Pryd mae'n rhaid amddiffyn ar unwaith

Lle mae perygl i fywyd plentyn neu debygrwydd o niwed difrifol buan, dylid cymryd camau yn gyflym i sicrhau diogelwch y plentyn ar unwaith. Gall fod angen gweithredu ar frys cyn gynted ag y derbynnir cyfeiriad neu ar unrhyw gam yn y broses. Fodd bynnag, dylid cymryd camau brys wedi'u cynllunio fel arfer yn syth ar ôl y Drafodaeth Strategaeth neu Gyfarfod Strategaeth, gan gymryd i ystyriaeth gyngor cyfreithiol a barn yr holl blant yn y mater. Lle mae'n rhaid i asiantaeth unigol weithredu ar unwaith i amddiffyn plentyn, dylai Cyfarfod/Trafodaeth Strategaeth ddigwydd mor fuan â phosibl wedyn. Mae camau gweithredu brys ond yn delio ag amgylchiadau uniongyrchol y plentyn. Dylai gael ei ddilyn yn gyflym gan ymholiadau Adran 47 yn ôl yr angen. **Rhaid ystyried diogelwch unrhyw blant eraill a allai fod mewn perygl (e.e. plant yn yr un teulu) bob amser ar yr un pryd.**

Dylid bob amser ystyried yr angen i weithredu i sicrhau diogelwch y plentyn os yw:

- hawl i weld plentyn yn cael ei wrthod yn afresymol;
- rhieni yn gwrthod cydsynio i archwiliad meddygol plentyn yr amheuir ei fod yn cael ei gam-drin neu blentyn y credir ei fod angen sylw meddygol ar frys;
- rhieni yn rhwystro ymchwiliad yn fwriadol mewn ffyrdd eraill.

Blwch 7 • Oedi

Ni ellir gadael i unrhyw beth yn y canllawiau oedi unrhyw weithredu angenrheidiol i sicrhau diogelwch plentyn sydd mewn perygl uniongyrchol o niwed arwyddocaol. Mae ymateb i unrhyw arwydd fod plentyn mewn perygl yn cymryd blaenoriaeth dros ofynion eraill yn y canllawiau.

NODIADAU

Gw. hefyd adran
3.7.3.6

Er na ddylid oedi, lles y plentyn yw'r brif ystyriaeth wrth gynnal ymchwiliad troseddol. Mae hefyd yn bwysig peidio gwneud i blant ddioddef trawma diangen drwy frysio heb reswm a tharfu ar eu trefn arferol.

Os teimlir y gallai fod perygl o niwed arwyddocaol i'r plentyn os na wneir ymchwiliad llawn, gan gynnwys archwiliad neu driniaeth feddygol, bydd angen ceisio cyngor y rheolwr priodol. Pan fydd y gwrthodiad yn ymwneud ag archwiliad a/neu driniaeth, dylid ymgynghori hefyd gyda'r meddyg sy'n gwneud yr archwiliad. Dylai fod cyngor cyfreithiol ar gael i'r Gwasanaethau Cymdeithasol oddi wrth gynrychiolydd adran gyfreithiol yr awdurdod lleol. Dylid ystyried defnyddio Gorchymyn Asesu Plentyn mewn amgylchiadau lle nad ystyrir fod y plentyn mewn perygl ar unwaith. Dylid cofnodi canlyniadau'r ymgynghoriadau hyn yn ofalus yn ysgrifenedig.

Rhaid i'r angen i geisio cyngor beidio ag oedi unrhyw weithredu angenrheidiol i sicrhau diogelwch a lles unrhyw blentyn y tybir ei fod mewn perygl uniongyrchol o niwed arwyddocaol.

Lle rhoddir ystyriaeth i gyfweld plentyn, dylid dilyn Canllawiau'r Swyddfa Gartref.

3.6.2 Y dewis o opsiynau

Gallai gweithredu'n amddiffynnol i sicrhau diogelwch y plentyn fod yn un o'r pum dewis a ddisgrifir isod, dylid ystyried y tri cyntaf bob amser cyn symud plentyn drwy ddefnyddio pwerau gorfodol:

- **Mae'r camdriniwr honedig yn cytuno gadael y cartref.**
- **Mae'r rhai sydd â chyfrifoldeb rhieni yn gwneud trefniadau diogel i'r plentyn dderbyn gofal o fewn y teulu estynedig.**
- **Mae'r awdurdod lleol yn darparu llety i'r plentyn o** dan Adran 20 Deddf Plant 1989 fel bod y plentyn yn dod yn un sy'n "derbyn gofal" gyda chytundeb y rhai sydd â chyfrifoldeb rhiant.
- **Mae'r heddlu yn defnyddio'u Pwerau Amddiffyn**
- **Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwneud cais am Orchymyn Diogelu Brys**

Gall unrhyw un o'r pedwar opsiwn diwethaf fod ar ffurf trefniadau i leoli'r plentyn gyda'r teulu estynedig. Lle mae angen defnyddio pwerau gorfodol i symud plentyn o sefyllfa, dylai awdurdod lleol, lle bynnag y bo modd ac oni bai fod diogelwch plentyn mewn perygl uniongyrchol fel arall, wneud cais am Orchymyn Diogelu Brys ac ni ddylai geisio defnyddio Pwerau Amddiffyn yr heddlu at y pwrpas hwn. Mae hyn yn seiliedig ar yr egwyddor mai dim ond llys ddylai benderfynu ar symud plentyn o'i gartref.

Os oes rhaid i'r heddlu ddefnyddio'u Pwerau Amddiffyn, rhaid cynnal Cyfarfod Strategaeth mor fuan ag sy'n ymarferol a beth bynnag o fewn 72 awr, a

NODIADAU

phenderfynu p'un ai i wneud cais am y gorchymyn neu beidio. Efallai y bydd gofyn i'r llys hefyd ychwanegu gofyniad am archwiliad meddygol gan nad yw'r gorchymyn yn cynnwys hyn yn awtomatig. Dylai fod cyngor cyfreithiol ar gael a dylid cofnodi'r penderfyniadau sy'n cael eu cymryd, ynghyd â'r rhesymau, yn ofalus. Dylid ystyried gwybodaeth o'r ymholiad cyfredol yn ogystal ag unrhyw wybodaeth hanesyddol.

3.7 Ymholiadau Adran 47 a'r Asesiad Craidd

3.7.1 Cwmpas a phwrpas

Pwrpas ymchwiliadau Adran 47 Deddf Plant 1989 yw penderfynu p'un a oes angen unrhyw gamau i hybu neu ddiogelu lles y plentyn. Lle bo'n berthnasol, bydd angen i'r heddlu sefydlu'r ffeithiau am unrhyw drosedd a all fod wedi'i chyflawni yn erbyn plentyn, a chasglu tystiolaeth.

Bydd ymholiadau Adran 47 yn cynnwys casglu gwybodaeth oddi wrth y rhai sy'n ymwneud yn broffesiynol gyda'r plentyn neu'r teulu. Gall hyn olygu cynnal cyfweiliadau gyda staff o asiantaethau eraill er mwyn casglu'r wybodaeth berthnasol yn systematig. Dylid sefydlu'n glir beth yw eu gwybodaeth am y teulu, statws eu gwybodaeth a manylion eu hymwneud uniongyrchol.

Mae Asesiad Craidd yn dechrau yn y fan y mae'r Asesiad Cychwynnol yn gorffen, neu mae Cyfarfod Strategaeth yn penderfynu dechrau ymholiadau dan Adran 47, neu mae gwybodaeth newydd ar achos agored yn dangos y dylid gwneud Asesiad Craidd. Ymholiadau Adran 47 yw camau cychwynnol yr Asesiad Craidd.

Mae arweiniad ar gyfer cynnal Asesiad Craidd wedi'i gynnwys o fewn y *Fframwaith Asesu Plant mewn Angen a'u Teuluoedd*. Mae'n darparu strwythur ar gyfer helpu i gasglu a dadansoddi gwybodaeth a gafwyd yn ystod ymholiadau Adran 47. Mae'n golygu asesu anghenion plentyn a gallu'i rieni neu rwydwaith teuluol ehangach i sicrhau yn ddigonol ei ddiogelwch, iechyd a datblygiad.

Blwch 8 • Canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer y plentyn

Ystyriwch beth mae'r ymyraethau i fod i'w gyflawni a beth fydd y budd i les tymor hir y plentyn.

Anelwch at ganlyniad tymor hir da o ran iechyd, datblygiad a chyrhaeddiad addysgol.

3.7.2 Cynllunio a gweithredu ymholiadau Adran 47 a'r Asesiad Craidd

3.7.2.1 Amseru

Dylid cwblhau'r Asesiad Craidd o fewn 42 diwrnod gwaith o ddechrau'r Asesiad Cychwynnol, sy'n golygu y bydd y broses hon yn ymestyn heibio i gwblhau'r ymholiadau Adran 47.

NODIADAU

Gw. 'Achieving best evidence in criminal proceedings - Guidance for vulnerable or intimidated witnesses including children' - Y Swyddfa Gartref 2002.

3.7.2.2 Casglu gwybodaeth oddi wrth asiantaethau eraill

Mae'n bwysig cael hanes manwl plentyn a'i th/deulu i sicrhau penderfyniadau cywir. Bydd gwybodaeth fanwl ar gael o fewn cofnodion asiantaethau sy'n adnabod y teulu. Cyfrifoldeb pob asiantaeth neu weithiwr proffesiynol unigol yw cyfrannu'r holl wybodaeth berthnasol sy'n cael ei cadw mewn cofnodion pan gânt gais i wneud hynny ac nid dim ond uchafbwyntiau wedi'u golygu. Dylai pob asiantaeth sy'n ymwneud â'r achos baratoi cronoleg, i gymryd i ystyriaeth yr holl wybodaeth gefndir sydd ar gael.

3.7.2.3 Y cyfweiliad ymchwiliol gyda'r plentyn

Dilynir Arweiniad y Swyddfa Gartref ar gyfer pob cyfweiliad ymchwiliol gyda phlant ar gyfer achosion troseddol, a chânt eu cynnal gan rai wedi'u hyfforddi'n benodol ac sy'n brofiadol yn y maes gwaith arbenigol hwn.

Ni ddylid byth cyfweld plentyn ym mhresenoldeb camdriniwr honedig neu rywun sy'n cael ei amau o gam-drin, neu rywun a all fod yn cyd-dwyllo gyda chamdriniwr, gan gynnwys rhiant.

Os yw'r plentyn o oed a dealltwriaeth ddigonol, dylid cael ei gydsyniad ef neu hi cyn i unrhyw gyfweiliadau ddigwydd. Rhaid i gydsyniad i gyfweld ar fideo gael ei wneud ar fideo ar ddechrau'r cyfweiliad. Yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, dylid ymgynghori gyda pherson sydd â chyfrifoldeb rhiant cyn y cyfweiliad gyda'r plentyn, a dylid gwrandao ar ei farn. Os nad oes neb gyda chyfrifoldeb rhiant, dylid ymgynghori gyda gofalydd parhaol arall a cheisio cyngor cyfreithiol. Mewn achosion lle mae cyfweiliad fideo i gael i'w gynnal, dylai'r swyddog ymchwiliol roi dalen pro-fforma/wybodaeth i'r rhiant/gofalydd.

Mewn rhai amgylchiadau gellir ystyried ei bod er lles y plentyn i gynnal cyfweiliad llawn neu fideo heb yn gyntaf ymgynghori gyda rhiant/gofalydd. Mewn achosion o'r fath, ac eithrio lle mae'r person ifanc yn 16 oed neu drosodd, dylai'r Gwasanaethau Cymdeithasol geisio cyngor cyfreithiol. Mewn amgylchiadau eithriadol, lle bydd ceisio cyngor o'r fath yn achosi oedi yn yr ymchwiliad, mae'r heddlu yn cadw'r hawl i fynd ymlaen â'r ymchwiliad ar eu pen eu hun.

Mewn achosion lle mae'r plentyn yn yr ysgol adeg y pryder, gall y prifathro/prifathrawes gydsynio i adeiladau'r ysgol gael eu defnyddio ar gyfer y cyfweiliad.

3.7.2.4 Yr archwiliad meddygol

Dylid bob amser ystyried yr angen am archwiliad meddygol i bob plentyn y mae pryder yn ei gylch. Dylai'r person sy'n cyd-drefnu'r ymchwiliad drafod yr angen am archwiliad meddygol gyda phaediaregydd neu archwiliwr meddygol fforensig gyda'r cymwysterau priodol, a chytuno ar amseriad a lleoliad yr archwiliad. Er nad yw archwiliad meddygol yn ofyniad ym **mhob** ymchwiliad, mae angen ei ystyried p'un a oes gan blentyn unrhyw niweidiau ymddangosiadol neu weladwy neu ei fod yn ymddangos fel pe bai wedi'i esgeuluso ai peidio. Dylid hepgor yr archwiliad meddygol yn unig os yw'r rhai sy'n rheoli'r ymchwiliad yn fodlon y gallant gyflawni pwrpas yr ymchwiliad hebdo. **Bydd angen cofnodi'r rhesymau hynny yn glir.**

NODIADAU

Pwrpas unrhyw archwiliad neu asesiad meddygol yw:

- sicrhau bod cyflwr y plentyn yn cael ei asesu'n feddygol a bod triniaeth yn cael ei rhoi fel sy'n briodol;
- tawelu meddwl plentyn ynghylch ei les ef neu hi;
- cael asesiad am ddangosyddion posibl camdriniaeth;
- sicrhau bod unrhyw anafiadau neu arwyddion o esgeulustod neu gamdriniaeth yn cael eu nodi at ddibenion tystiolaeth;
- sicrhau tystiolaeth ffforensig.

Lles y plentyn yw'r ystyriaeth bennaf ac ni ddylai casglu tystiolaeth ddod yn ffynhonnell ychwanegol o gam-drin y plentyn.

Dylid ystyried yr angen am gasglu tystiolaeth ffforensig bob amser fel peth eilradd i'r angen am driniaeth feddygol i'r plentyn.

Os yw'r cyfeiriad yn ymwneud ag anaf corfforol neu esgeulustod difrifol dylid trefnu archwiliad meddygol os oes modd ar yr un diwrnod. Mewn achosion o unrhyw honiadau o gam-drin rhywiol, y dywedir ei fod wedi digwydd o fewn y 5 diwrnod diwethaf, dylid ystyried archwiliad meddygol, fel mater o frys. Bydd hyn er mwyn diogelu iechyd y plentyn a sicrhau a chadw tystiolaeth. Lle bo angen archwiliad meddygol ond nid ar unwaith, gellir trefnu hyn i fod yn gyfleus i'r plentyn, y teulu a gweithwyr proffesiynol perthnasol.

Rhaid hefyd ystyried yr angen i unrhyw blant cysylltiedig eraill yn y cartref gael eu harchwilio'n feddygol.

Mae'r archwiliad yn glinigol a hefyd yn ffforensig a dim ond paediatregydd a/neu archwiliwr meddygol ffforensig gyda'r cymwysterau priodol ddylai ymgymryd ag ef. Gall archwiliad ar y cyd fod yn angenrheidiol mewn rhai achosion.

Dylai fod cydgysylltiad rhwng yr heddlu a'r Gwasanaethau Cymdeithasol i osgoi'r angen am ailadrodd archwiliadau meddygol. Bydd y tîm archwilio/gweithiwr cymdeithasol yn briffio'r meddyg archwiliol yn llawn os yw ef/hi wedi methu mynychu'r Cyfarfod Strategaeth. Bydd y gweithiwr cymdeithasol yn sicrhau bod y cydsyniad priodol ar gyfer archwilio wedi ei gael ac y bydd ar gael ar gyfer yr archwiliad.

Dylai'r meddyg esbonio pwrpas yr archwiliad i'r plentyn a'r rhieni. Dylai'r plentyn (oni bai ei fod ef neu hi wedi gwrthod yn wybodus) gael rhiant neu oedolyn cefnogol yn bresennol yn ystod yr archwiliad. Mae angen dweud wrth y plentyn y bydd y wybodaeth a geir drwy'r archwiliad yn cael ei rhannu gydag eraill ac y gall hefyd gael ei darllen yn uchel yn y llys. Dylai'r plentyn a'r rhieni bob amser gael cynnig y cyfle i drafod unrhyw faterion iechyd gyda meddyg sy'n brofiadol yn y gwaith hwn.

Os yw'r archwiliad meddygol ar blentyn dan 16 oed a'i fod yn ymwneud â chamdriniaeth emosiynol neu esgeulustod, argymhellir yn gryf y dylid cael cydsyniad yr oedolyn sydd â chyfrifoldeb rhiant. Rhaid i'r cydsyniad hwn fod yn wybodus ac yn ysgrifenedig. Gall person ifanc o oed a dealltwriaeth ddigonol roi ei gydsyniad ei hun, ond yn wyneb gwrthodiad gan riant, dylid bod yn ofalus wrth dderbyn y cydsyniad hwn. Lle nad yw cydsyniad ar gael yn hawdd neu lle

NODIADAU

*Gw. Y Ddeddf
Diwygio Cyfraith
Teulu.*

mae rhiant yn ei wrthod, dylid trafod y mater gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch yr angen am gyngor cyfreithiol a gweithredu i gael cydsyniad dilys.

Os yw'r archwiliad meddygol neu fforensig yn ymwneud â cham-drin plentyn dan 16 oed yn rhywiol, rhaid cael cydsyniad gwybodus y person sydd â chyfrifoldeb rhiant, a lle bo'n briodol, y plentyn/person ifanc bob amser yn ysgrifenedig.

Lle mae'r plentyn eisoes yn destun achos mewn llys, mae angen cydsyniad y llys hwnnw. Os yw'r plentyn dan Orchymyn Gofal awdurdod lleol, mae angen cydsyniad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

Gall pobl ifanc 16 i 18 oed roi eu cydsyniad eu hun (Deddf Diwygio Cyfraith Teulu). Fodd bynnag pan roddir datganiadau heddlu rhaid gwneud yn siwr fod hyn yn gydsyniad gwybodus a dylid hefyd, o ddewis, cael cydsyniad person sydd â chyfrifoldeb rhiant.

Yn achos argyfwng meddygol, nid oes angen cydsyniad. Mewn achosion eithriadol lle na fyddai er pennaf les y plentyn i geisio cydsyniad rhiant neu ofalydd cyn yr archwiliad meddygol, rhaid ceisio cyngor cyfreithiol.

3.7.3 Gweithio gyda'r plentyn a'r teulu yn ystod yr ymholiadau

3.7.3.1 Symud y rhwystrau i gymryd rhan

Dylid galluogi'r plentyn a'r teulu i gymryd rhan yn llawn yn y broses ymchwilio, lle bo hynny'n briodol, a gall fod angen darparu'r canlynol i symud rhwystrau sy'n eu hatal:

- lle mae plentyn neu riant yn anabl, gall fod angen darparu cymorth gyda chyfathrebu a chynyddu'u cyfle i gymryd rhan yn y broses;
- dylid darparu cyfieithydd lle nad yw iaith gyntaf y plentyn neu'r rhiant yr un un a'r sawl sy'n cyfweld;
- os nad yw'r plentyn yn medru cymryd rhan mewn cyfweiliad oherwydd ei oed neu ei ddealltwriaeth, dylid defnyddio dulliau eraill i ddeall persbectif y plentyn.

Dylid bob amser wneud ymholiadau yn y fath fodd ag i leihau trallod i'r plentyn, a sicrhau bod teuluoedd yn cael eu trin yn sensitif a gyda pharch.

3.7.3.2 Esbonio pwrpas ymholiadau Adran 47

Dylai Gwasanaethau Cymdeithasol esbonio pwrpas ymholiadau Adran 47 i'r rhieni a'r plentyn (gan ystyried ei oed a'i ddealltwriaeth) a bod yn barod i ateb cwestiynau yn agored, oni bai y byddai gwneud hynny yn effeithio ar ddiogelwch a lles y plentyn. Mae'n gymorth mawr i deuluoedd os yw Gwasanaethau Cymdeithasol yn darparu gwybodaeth ysgrifenedig ynghylch pwrpas, proses a chanlyniadau posibl ymholiadau Adran 47. Dylai hyn fod yn wybodaeth gyffredinol a gwybodaeth benodol i'r amgylchiadau arbennig sy'n destun yr ymholiad. Dylai gynnwys gwybodaeth ynghylch sut y gellir cael cyngor, eiriolaeth a chefnogaeth oddi wrth ffynonellau annibynnol a sut i gael at y drefn o wneud cwynion.

NODIADAU

Mae'n hanfodol bod ymgynghori yn digwydd gyda'r plentyn a'i fod yn cael gwybod beth sy'n digwydd a'i gynorthwyo i ddeall y rhesymau pam. Mae yr un mor bwysig, os nad yw hynny'n groes i les y plentyn, fod rhieni/gofalwyr yn cael gwybod am yr holl gamau sy'n cael eu cymryd, ynghyd ag oblygiadau a chanlyniadau hynny.

3.7.3.3 Ystyried y plentyn

Fel rhan o'r broses ymchwilio, rhaid sefydlu beth yw dymuniadau a theimladau'r plentyn. Dylai hyn gynnwys dynuniadau'r plentyn ynglyn a sut y cynhelir y cyfweiliad ymchwilio gan gynnwys unrhyw ddymuniad am gefnogaeth yn ystod y cyfweiliad. Rhaid esbonio'r broses i'r plentyn mewn ffordd sy'n briodol i'w oed a'i ddealltwriaeth. Rhaid gweld y plentyn ar wahân a gwranddo arno'n ofalus. Dylai holl staff Ymchwiliad ar y cyd fod yn gyfarwydd a'r canllaw a ddarparwyd o fewn Cyflawni Arfer Gorau mewn Achosion Troseddol. Nodyn: Mewn achosion sy'n cynnwys pobl o dan 17 oed, mae rhagdybiaeth y cyflwynir Tystiolaeth i'r Llys trwy fideo o dan 'Prif Reol o dan adran 21(3) y Ddeddf YJCE 1999. Mae'r rhan yma o'r ddeddfwriaeth yn cael ei hadolygu gan ddiwygiad y swyddfa Adolygu Cyfiawnder Troseddol ar hyn o bryd.

Blwch 9 • Cyfathrebu gyda phlant

- Plant yw'r ffynhonnell allweddol, ac weithiau yr unig ffynhonnell, o wybodaeth am yr hyn sydd wedi digwydd iddynt.
- Mae'n hanfodol cael gwybodaeth gywir a chyflawn.
- Dylid cynnal hyd yn oed y trafodaethau cychwynnol gyda phlant mewn ffordd sy'n lleihau unrhyw drallod sy'n cael ei achosi iddynt.
- Siaradwch â'r plant ar wahân i'r rhieni neu ofalwyr.
- Gofalwch osgoi cwestiynau sy'n eu harwain neu'n awgrymu pethau.
- Ysgrifennwch yr hyn mae'r plentyn yn ei ddweud wrthy, a'r hyn y gwnaethoch chi ei ddweud wrth y plentyn.
- Efallai y bydd plant angen amser i ddatblygu digon o ymddiriedaeth i sôn am unrhyw bryderon sydd ganddynt. Gall hyn olygu fod angen i chi siarad â hwy ar fwy nag un achlysur.

Mewn rhai achosion, gall fod yn briodol i siarad â phlentyn lle mae amheuaeth ei fod yn cael ei gam-drin heb yn wybod i'r rhiant neu ofalydd. Fodd bynnag, dylid gwneud hyn yn unig os:

- Oes posibilrwydd y byddai'r plentyn yn cael ei fygwth neu ei orfodi mewn rhyw ffordd arall i gadw'n dawl
- Yw hi'n debyg y byddai tystiolaeth yn cael ei dinistrio
- Nad oedd y plentyn dan sylw yn dymuno i'r rhiant gael ei gynnwys ar hyn o bryd a'i fod yn gymwys i gymryd y penderfyniad hwnnw.
- Dylid hysbysu'r plentyn am y broses a deilliant ymchwiliad trwy'r adeg yn dibynnu ar eu hoed a lefel eu dealltwriaeth ble mae ymchwiliad troseddol. Gan fod yr heddlu yn arwain holl ymchwiliadau troseddol, eu cyfrifoldeb nhw fydd hysbysu'r plentyn.

NODIADAU

3.7.3.4 Ystyried y rhieni neu ofalwyr

Dylid cynnwys y rhieni neu ofalwyr drwy gydol yr ymchwiliad hyd y bo modd, **os yw hyn er pennaf les y plentyn**. Dylai'r gweithiwr cymdeithasol/swyddog heddlu esbonio iddynt y rhesymau pam fod pryder ynghylch y plentyn, a pha gamau sy'n cael eu cynnig a pham. Yn y rhan fwyaf o achosion bydd gofyn i rieni neu ofalwyr roi cydsyniad ysgrifenedig i unrhyw archwiliad meddygol neu gyfweliad gyda'r plentyn. Dylai'r Cyfarfod Strategaeth benderfynu ar yr amseriad mwyaf priodol i'r rhieni gymryd rhan.

Lle bo'n briodol, dylid annog rhieni/gofalwyr nad ydynt yn gamdrinwyr i fynd gyda'r plentyn i gael ei gyfweld a chael asesiad meddygol. Fodd bynnag, dylid gofalu osgoi gweithredu mewn ffordd a allai ragfarnu unrhyw ymchwiliad troseddol, yn arbennig lle mae'r rhiant/gofalwr yn dyst.

Dylid hefyd ddweud wrth rieni neu ofalwyr y gall y bydd gwybodaeth berthnasol yn cael ei rhannu gyda chydweithwyr proffesiynol sydd hefyd â chyfrifoldeb dros les y plentyn.

Dylid bob amser hysbysu'r rhieni/gofalwyr am y broses a deilliant yr ymchwiliad. Gan fod yr Heddlu yn arwain holl ymchwiliadau troseddol, eu cyfrifoldeb nhw fydd hysbysu'r rhieni/gofalwyr.

3.7.3.5 Ystyried plant eraill

Dylai'r rhai sy'n gwneud ymholiadau fod bob amser yn effro i anghenion a diogelwch unrhyw frodyr a chwiorydd, neu blant eraill yng nghartref y plentyn dan sylw. Gall fod angen i ymholiadau hefyd ddelio â phlant mewn cartrefi eraill lle mae'r troseddwr honedig o bosibl wedi cael cyswllt â hwy.

3.7.3.6 Lle mae rhieni neu ofalwyr yn gwrthod cydweithredu

Ar bob cam yn y canllawiau hyn rhaid ystyried p'un ai yw plentyn mewn perygl uniongyrchol o niwed a pha un a oes angen gweithredu ar frys i'w amddiffyn. Gall hyn fod oherwydd fod rhieni/gofalwyr yn gwrthod cydweithredu gyda'r ymchwiliad, neu eu bod yn gweithredu mewn ffordd arbennig, megis symud plentyn o ysbyty.

Lle mae perygl i fywyd plentyn neu debygrwydd o niwed difrifol uniongyrchol, dylid cymryd camau yn gyflym i sicrhau diogelwch y plentyn ar unwaith. Gall fod angen gweithredu ar frys cyn gynted ag y derbynnir cyfeiriad neu ar unrhyw gam yn y broses.

- Gellir defnyddio **Gorchymyn Asesu Plentyn** os yw rhieni yn parhau i wrthod hawl i weld plentyn er mwyn sefydlu'r ffeithiau sylfaenol ynghylch cyflwr plentyn ond nad yw pryderon ynghylch diogelwch y plentyn mor argyfyngus fel bod angen Gorchymyn Diogelu Brys. Mae'r gorchymyn yn galluogi'r llys i gyfarwyddo'r rhieni i gydweithredu gydag asesiad, a bydd manylion penodol amdano, ond nid yw'n awdurdodi symud y plentyn o'i gartref. Nid yw'r gorchymyn yn cymryd i ffwrdd hawl y plentyn ei hun i wrthod asesiad. Dylai rhieni gael eu hysbysu o'r camau cyfreithiol y gellid eu defnyddio.

NODIADAU

Gw. adran 2.1.5 am fwy ar gofnodi.

*Gweler 3.13.4.1 am wybodaeth ychwanegol ar ymholiadau amddiffyn plant cyfredol.
Gweler 3.15 a Blwch 18 am fwy o wybodaeth ar ymweliadau cartref aflwyddiannus a phryderon lles.*

Gw. adran 3.7.5.2

Gw. adran 3.7.5.3

Gw. adran 3.7.5.4

- Dylid hefyd ystyried **Gorchymyn Diogelu Brys** pan wrthodir hawl i weld plentyn a dylid gwneud cais amdano pan fydd angen argyfyngus i weithredu i amddiffyn. Dylid cofnodi yn glir y rhesymau dros benderfyniadau i wneud cais am y gorchymyn. Mae angen i Orchymyn Diogelu Brys hefyd fanylu ar y cyfarwyddiadau ar gyfer yr archwiliad meddygol.

Dim ond yr heddlu sydd â hawl statudol i ddefnyddio grym rhesymol er mwyn cael mynediad i adeilad. Rhaid i'r heddlu felly fod â rhan mewn trafodaethau mewn unrhyw achos lle mae hawl i weld y plentyn wedi cael ei wrthod.

3.7.3.7. Pan fo teulu yn symud yn ystod ymchwiliad/ymholiadau amddiffyn plant, dylid cynnal cyfarfod strategaeth i gynnwys yr awdurdod newydd er mwyn penderfynu ar gyfrifoldebau a dyletswyddau. Rhaid cofnodi'r penderfyniadau.

3.7.4 Cofnodi

Dylid ysgrifennu nodiadau achos ar unwaith ac mor llawn ag y mae modd. Dylent adlewyrchu yn llawn y broses ymholiadau, gan gynnwys yr holl ddigwyddiadau yn arwain at y cyfweiliad ymchwiliol, yr amseriad, y sefyllfa a'r personél sydd â rhan yn yr holl drafodaethau. Dylid llofnodi pob cofnod, neu enwi'r awdur, a rhoi'r dyddiad wrtho. Dylai cofnodion cyswllt gyda'r plentyn gofnodi'r hyn mae plentyn yn ei ddweud yng ngeiriau'r plentyn ei hun.

3.7.5 Canlyniad ymholiadau Adran 47

3.7.5.1 Gwneud y penderfyniad

Bydd y rheolwr Gwasanaethau Cymdeithasol a ddechreuodd y drefn amddiffyn plant yn y man cyntaf yn gwneud y penderfyniad ynghylch camau pellach **ar ôl cymryd i ystyriaeth farn asiantaethau eraill** sydd â rhan yn y broses ymchwiliol. Dylid cofnodi'r rhesymau am y penderfyniad yn glir.

Dim ond ar ôl trafodaethau rhwng pawb sydd wedi cynnal, neu wedi bod â rhan sylweddol, yn yr ymholiadau Adran 47, y dylai Gwasanaethau Cymdeithasol benderfynu beth i wneud nesaf. Bydd hyn yn cynnwys gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau perthnasol yn ogystal â gofalwyr maeth, os oes rhai yn ymwneud â'r achos, a'r plentyn a'i rieni.

Gall y rheolwr benderfynu un o dri peth posibl:

- Nid yw'r pryderon yn cael eu cadarnhau.
- Mae'r pryderon yn cael eu cadarnhau ond bernir nad oes perygl o niwed arwyddocaol i'r plentyn yn parhau.
- Mae'r pryderon yn cael eu cadarnhau a bernir fod perygl o niwed arwyddocaol i'r plentyn yn parhau

Yn achos y ddau ddewis cyntaf, gall y plentyn fod neu beidio â bod yn blentyn mewn angen. Gall fod angen gwasanaethau cefnogi, a dylid cyd-drefnu'r rhain drwy gyfrwng cyfarfod rhyngasiantaethol, yn cynnwys y teulu.

Dylid hysbysu'r cyfeiriwr gwreiddiol o ganlyniad yr ymholiadau gan ofalu ar yr

NODIADAU

un pryd fod cyfrinachedd y teulu'n cael ei barchu. Bydd y teulu yn cael gwybodaeth gyfredol drwy gydol y broses.

Rhaid cofnodi canlyniad ymholiadau Adran 47 a rhoi copi i'r rhieni ac i'r asiantaeth sy'n cyfeirio. Dylid hysbysu pob asiantaeth sydd wedi bod â rhan yn yr ymholiad Adran 47 o'r canlyniad.

Os yw cyfeiriwr yn dymuno herio canlyniad ymchwiliad Adran 47:

- dylai gweithwyr proffesiynol fynegi unrhyw bryderon drwy eu rheolwr llinell eu hun a hefyd drwy adrodd eu pryderon i'r uwch reolwr yn y Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n gyfrifol am amddiffyn plant;
- dylai defnyddwyr y gwasanaeth neu aelodau o'r cyhoedd ddefnyddio trefn gwyno'r asiantaeth, ar ôl ailgyfeirio'u pryderon yn gyntaf i'r rheolwr tîm perthnasol.

3.7.5.2 Nid yw'r pryderon yn cael eu cadarnhau.

Lle nad yw ymholiadau yn cadarnhau'r pryderon gwreiddiol fod y plentyn yn dioddef niwed arwyddocaol neu ei fod mewn perygl o niwed arwyddocaol, ni fydd angen gweithredu ymhellach dan y drefn amddiffyn plant. Dylid cofnodi'n glir y rhesymau dros benderfynu nad oes angen gweithredu.

Fodd bynnag, dylai Gwasanaethau Cymdeithasol ac asiantaethau eraill ystyried gyda'r teulu a oes angen am gefnogaeth a/neu wasanaethau. Yn ddelfrydol dylai'r penderfyniad hwn gael ei wneud mewn cyfarfod rhyngasiantaethol a chanlyniad yr asesiad hyd yn hyn fydd yn dangos iddo'r ffordd ymlaen. Yn yr amgylchiadau hyn, dylai'r Asesiad Craidd barhau a chael ei gwblhau o fewn 35 diwrnod gwaith o'i ddechrau.

Blwch 10 • Plant mewn Angen

Mae llawer o blant sy'n destun ymholiadau amddiffyn plant yn dod o fewn y diffiniad o blant mewn angen.

Ni ddylai darparu cymorth i'r plant hyn a'u teuluoedd fod yn amodol ar bresenoldeb camdriniaeth ac esgeulustod.

Lle mae'r ymholiadau wedi dangos nad oes sylwedd i'r achos dros bryderu, dylid hysbysu'r rhieni/gofalwyr, y plentyn a'r cyfeiriwr, fel sy'n briodol, yn ysgrifenedig. Dylai llythyrau gydnabod y trallod a'r pryder a achoswyd gan y broses ymchwilio, ond dylai dynnu sylw at ddyletswydd gyfreithiol yr asiantaethau statudol i wneud ymholiadau.

Mewn rhai achosion efallai y bydd pryderon am niwed arwyddocaol yn parhau ond heb dystiolaeth. Mewn amgylchiadau felly, gellir cynnig gwasanaethau i'r teulu. Fodd bynnag, os yw'r teulu yn gwrthod, dylai asiantaethau sy'n dal i ymwneud â'r teulu barhau yn wyliadwrus ac adrodd unrhyw bryderon yn y ffordd arferol. Mewn amgylchiadau o'r fath, dylid ystyried Asesiad Craidd.

NODIADAU

3.7.5.3 Mae'r pryderon yn cael eu cadarnhau ond ni fernir fod y plentyn yn parhau mewn perygl o niwed arwyddocaol.

Mewn achosion lle cafwyd cadarnhad i'r pryderon fod plentyn wedi dioddef niwed arwyddocaol ond ei bod hi'n glir o'r ymholiadau nad yw'r perygl o niwed arwyddocaol yn parhau, gellir cytuno nad oes angen am Gynhadledd Amddiffyn Plant neu Gynllun Amddiffyn Plant hyd yn oed os oes angen o hyd i gynnal ymchwiliad troseddol. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd angen i bawb sydd wedi bod â rhan yn yr achos fod yn siwr y gall unrhyw gynllun ar gyfer sicrhau diogelwch a lles y plentyn yn y dyfodol gael ei ddatblygu a'i weithredu y tu allan i'r drefn amddiffyn plant. Bydd bob amser yn bwysig ceisio cael barn y plant cyn gwneud y penderfyniad hwn, mewn ffordd sy'n unol â'u hoed a lefel eu dealltwriaeth. Dylid cofnodi'r penderfyniad gan y gweithiwr cymdeithasol a chynnwys enwau'r rhai oedd yn rhan o'r broses benderfynu.

Rhaid bod yn ofalus wrth gymryd penderfyniad i beidio â chynnal Cynhadledd Amddiffyn Plant mewn amgylchiadau o'r fath, gan ddadansoddi'r dystiolaeth sydd ar gael a barn yr asiantaethau eraill sydd wedi bod â rhan yn yr ymchwiliad Adran 47. Rhaid i'r penderfyniad gael ei seilio ar y farn glir nad oes perygl o niwed arwyddocaol yn parhau. Ymhlith enghreifftiau posibl lle gall hyn fod yn wir ceir amgylchiadau sydd wedi newid megis lle mae camdriniwr honedig wedi gadael y cartref yn barhaol neu lle mae niwed arwyddocaol wedi digwydd o ganlyniad i ddigwyddiad camdriniol ynysig (e.e. camdriniaeth gan ddieithryn). Wrth wneud y penderfyniad hwn, gall y Gwasanaethau Cymdeithasol ystyried trefnu cyfarfod rhyngasiantaethol i gynnwys y teulu.

Pwrpas y cyfarfod fydd:

- Cytuno gydag asiantaethau eraill a'r teulu pa gamau ddylid eu cymryd gan bwy, a chan fwriadu pa ganlyniad ar gyfer diogelwch a lles y plentyn;
- Llunio cynllun gan ystyried canlyniadau'r asesiad a sicrhau bod yr Asesiad Craidd wedi'i gwblhau neu y bydd yn cael ei gwblhau o fewn yr amser gofynnol;
- Enwi yn y cynllun pwy fydd yn gyfrifol am wneud beth;
- Egluro pa gamau fydd yn cael eu cymryd os na ellir gweithredu'r cynllun yn llwyddiannus;
- Gosod amserlen ar gyfer adolygu cynnydd;
- Ystyried priodoldeb cynhadledd grw^p/cyfarfod teulu.

Dylai'r Gwasanaethau Cymdeithasol fod yn ofalus wrth gymryd unrhyw benderfyniad i beidio â symud ymlaen i Gynhadledd Amddiffyn Plant pan yw hi'n hysbys fod plentyn wedi dioddef niwed arwyddocaol. Dylai person dynodedig sydd â'r cymwysterau angenrheidiol o fewn yr adran gadarnhau'r penderfyniad. Mae gan y gweithwyr proffesiynol a'r asiantaethau hynny sy'n ymwneud mwyaf â'r plentyn a'r teulu, a'r rhai sydd wedi cymryd rhan mewn ymholiadau, yr hawl i ofyn i'r Gwasanaethau Cymdeithasol gynnwyl Cynhadledd Amddiffyn Plant os oes ganddynt bryderon difrifol nad yw plentyn fel arall yn cael ei ddiogelu'n ddigonol.

*Gw. canllawiau
lleol am arweiniad
ar ddatrys
gwahaniaeth barn.*

*Gw. adran 3.8 am
fwy ar Gynadleddau
Amddiffyn Plant.*

NODIADAU

Gw. adran 4.2

Gw. adran 3.13.4

3.7.5.4 Mae'r pryderon yn cael eu cadarnhau a bernir fod y plentyn yn parhau mewn perygl o niwed arwyddocaol

Yn yr amgylchiadau hyn dylai'r Gwasanaethau Cymdeithasol gynnull Cynhadledd Amddiffyn Plant o fewn 15 diwrnod gwaith i'r Drafodaeth Strategaeth a gychwynnodd yr ymchwiliad Adran 47. Mae angen Cynhadledd Amddiffyn Plant i wneud penderfyniad ynghylch gweithredu pellach dan y drefn amddiffyn plant.

Ceir pum math o sefyllfa a all beri bod angen Cynhadledd Amddiffyn Plant:

- Mae **ymchwiliad o dan Adran 47** i ddigwyddiad neu amheuaeth o gam-drin plentyn yn dangos fod y pryderon yn cael eu cadarnhau a bod angen gweithredu pellach o dan y drefn amddiffyn plant i ddiogelu lles y plentyn. Mae hyn yn cynnwys sefyllfaoedd lle mae amheuon ynghylch y tebygrwydd o esgeulustod (neu gamdriniaeth) wedi datblygu dros amser ar sail amrywiaeth o bryderon a bod penderfyniad wedi'i wneud i symud yr achos i'r system amddiffyn plant, neu fod asiantaeth arall yn gofyn am Gynhadledd Amddiffyn Plant. Mae'n hanfodol i wneud y penderfyniad yma drwy gyfarfod/trafodaeth strategaeth gyda'r gynhadledd yn dilyn o fewn 15 diwrnod gwaith. **(cyf. t.54 'Gweithio Gyda'n Gilydd 2000')**
- **Cyn i blentyn gael ei eni**, mae hanes y teulu yn awgrymu'i bod hi'n debygol y bydd niwed arwyddocaol yn digwydd
- Ceir fod plentyn yn byw mewn cartref sy'n cynnwys, neu sy'n derbyn ymweliadau, gan berson sy'n Droseddwr Atodlen Un y credir ei fod wedi cam-drin plentyn.

3.7.6 Yr Asesiad Craidd

Rhaid dechrau Asesiad Craidd ar gyfer pob plentyn sydd yn destun ymholiadau Adran 47; mae'r ddau yn dechrau ar yr un pryd. Pwrpas yr Asesiad Craidd yw galluogi barn broffesiynol gadarn i gael ei ffurfio ynghylch sut orau i ymyrryd i ddiogelu a hybu lles plentyn. **Dylai gwybodaeth a gesglir yn ystod yr Asesiad Craidd oleuo'r broses benderfynu a'r Cynllun Amddiffyn Plant.**

Dylid cwblhau'r Asesiad Craidd o fewn 42 diwrnod gwaith o ddechrau'r Asesiad Cychwynnol. Dylai adeiladu ar yr holl wybodaeth a gafwyd yn ystod yr Asesiad Cychwynnol a'r ymholiadau Adran 47. Dylai ddarparu tystiolaeth i seilio barn arni a chynlluniau ar gyfer y ffordd orau o ddiogelu plentyn, hyrwyddo'i les a chefnogi rhieni i hybu lles eu plant.

Yr Asesiad Craidd yw cyfrifoldeb yr holl weithwyr proffesiynol sy'n aelodau o'r Grŵp Craidd a bydd y cyfrifoldeb hwn yn cael ei adlewyrchu yn eu cyfraniad llawn i'r broses.

Bydd yr Asesiad Craidd yn cynnwys dadansoddiad o'r canlynol:

- anghenion datblygiadol y plentyn;
- gallu'r rhieni i ymateb i'r anghenion hynny, gan gynnwys gallu'r rhieni i sicrhau fod y plentyn yn ddiogel rhag niwed;
- amgylchiadau ehangach y teulu.

NODIADAU

Bydd yr asesiad yn cymryd i ystyriaeth anghenion ethnig a diwylliannol y plentyn a'r teulu. Dylid annog y teulu a'u galluogi i gymryd rhan yn yr asesiad a dylai'r Gweithiwr Allweddol esbonio'r broses drwyddi,

3.8 Y Gynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol

3.8.1 Cwmpas a phwrpas

Mae'r Gynhadledd Amddiffyn Plant gychwynnol yn dwyn at ei gilydd aelodau o'r teulu, y plentyn lle bo hynny'n briodol, a'r gweithwyr proffesiynol hynny sy'n ymwneud agosaf gyda'r plentyn a'r teulu, yn dilyn ymchwiliad Adran 47.

Ei phwrpas yw:

- dadansoddi'n wrthrychol, mewn sefyllfa ryngasiantaethol, yr holl bryderon a'r wybodaeth a gafwyd o'r Asesiad Cychwynnol, yr ymchwiliad Adran 47, yr Asesiad Craidd hyd yn hyn ac o wybodaeth flaenorol o'r teulu;
- ffurfio barn ynghylch pa mor debygol yw hi y bydd plentyn neu unrhyw blant cysylltiedig eraill yn dioddef niwed arwyddocaol yn y dyfodol h.y. lefel y risg sy'n parhau;
- penderfynu pa gamau fydd eu hangen yn y dyfodol i ddiogelu'r plentyn a hybu ei les a sut i ddatblygu hyn a beth yw'r bwriad o ran canlyniadau (yr angen am Gynllun Amddiffyn Plant a chofrestru).

3.8.2 Cynllunio'r Gynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol

Dylai pob Cynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol ddigwydd o fewn 15 diwrnod gwaith o'r Drafodaeth/Cyfarfod Strategaeth pan gychwynnwyd yr ymchwiliad Adran 47. Fodd bynnag, dylai'r gynhadledd ddigwydd yn unig ar ôl paratoi ac asesu'n ddigonol.

Dylai'r rhai sy'n mynychu cynadleddau fod yno oherwydd fod ganddynt gyfraniad arwyddocaol i'w wneud yn codi o arbenigedd proffesiynol, a gwybodaeth o'r plentyn a'r teulu neu'r ddau. Dylid cyfyngu'r nifer sy'n mynychu i'r rhai sydd angen bod yno.

Bydd y rheolwr Gwasanaethau Cymdeithasol priodol, ar y cyd gyda'r gweithiwr achos, yn penderfynu ac yn cymryd cyfrifoldeb am bwy i'w gwahodd. Dylai pawb sydd wedi cael eu gwahodd roi blaenoriaeth i fod yno a dylent gael gwybod pwy arall sydd wedi cael eu gwahodd i'r gynhadledd.

Pan fydd achos gofal wedi cael ei ddechrau a Gwarcheidwad Plant wedi cael ei benodi, dylid gwahodd y Gwarcheidwad i'r gynhadledd.

Dylid ystyried gwahodd y canlynol:

- y plentyn, gofawyr ac aelodau'r teulu, gan gynnwys pawb sydd â chyfrifoldeb rhiant
- Staff Gwasanaethau Cymdeithasol sydd wedi gwneud asesiad o'r plentyn a'r teulu
- yr heddlu

NODIADAU

- cynrychiolydd o ysgol y plentyn (pan fydd y plentyn o oed ysgol)
- unrhyw staff addysgol arall sy'n ymwneud â'r plentyn e.e. Swyddog Lles Addysg/ Gweithiwr Cymdeithasol Addysgol, seicolegydd addysg neu weithiwr ieuenctid
- paediatregydd y gymuned a/neu y meddyg sy'n archwilio
- meddyg teulu'r plentyn
- y gwasanaeth ymwelwyr iechyd/nyrs ysgol/bydwraig/uwch nyrs amddiffyn plant a gweithwyr iechyd perthnasol eraill
- Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc
- y gwasanaeth prawf
- Tîm Troseddau'r Ifanc
- yr NSPCC (pan fo'n weithredol yn yr ardal)
- gwasanaethau cyfreithiol yr awdurdod lleol (gofal plant)
- gwasanaethau iechyd meddwl oedolion/gwasanaethau camddefnyddio sylweddau
- gwasanaethau cefnogi teuluoedd/gwasanaethau gofal dydd
- Cymorth i Ferched neu unrhyw fudiad gwirfoddol arall sy'n ymwneud â'r achos
- cynrychiolydd o'r Lluoedd Arfog, mewn achosion lle ceir cysylltiad â'r lluoedd.

Blwch 11 • Penderfynu pwy i wahodd i'r gynhadledd

Ystyriwch y gweithwyr proffesiynol hynny sy'n ymwneud â'r plentyn ac a'r rhieni.

Efallai fod gan aelodau o'r teulu, gan gynnwys y teulu ehangach, gyfraniad perthnasol i'w wneud. Ystyriwch a ddylent fynychu hefyd ond gwnewch yn siwr fod y mater yn cael ei drafod gyda'r Cadeirydd cyn y gynhadledd.

3.8.3 Cworwm ar gyfer y Gynhadledd Amddiffyn Plant

Fel arfer bydd angen i o leiaf dair asiantaeth neu grwpïad proffesiynol i fod yn bresennol cyn y gall gynhadledd fynd yn ei blaen. Fodd bynnag, gall sefyllfaoedd ddigwydd lle mai dim ond dwy asiantaeth neu grwpïad proffesiynol sy'n bresennol. Yn yr amgylchiadau hyn, mae gan Gadeirydd y gynhadledd y disgrisiwn i'r gynhadledd fynd yn ei blaen cyhyd ag y bo ef neu hi yn fodlon fod yr holl wybodaeth hanfodol ar gael, yn arbennig oddi wrth asiantaethau allweddol yn y mater. Dylai pob gweithiwr proffesiynol ac asiantaeth sy'n cael eu gwahodd i fynychu Cynhadledd Amddiffyn Plant gyflwyno adroddiad ysgrifenedig, p'un a yw'n gallu mynychu ai peidio. Os nad yw personél allweddol yn medru mynychu neu ddarparu adroddiadau ysgrifenedig, dylid ystyried gohirio'r gynhadledd.

NODIADAU

*Gw. adran 3.9 am
fwy ar y Gweithiwr
Allweddol.*

Ni ddylid oedi cyn cymryd unrhyw gamau angenrheidiol i amddiffyn plentyn sydd mewn perygl o niwed arwyddocaol am fod cynhadledd achos ar fin digwydd.

3.8.4 Rhan y plentyn yn y Gynhadledd Amddiffyn Plant

Dylai llais y plentyn gael ei glywed bob amser yn y gynhadledd, p'un a yw hyn drwy fynychu ei hun neu drwy gael ei deimladau a'i ddymuniadau wedi'u cyflwyno ar ei ran. Dylid annog plant i fynychu cynadledau os ydynt yn medru elwa o fod yno. Ni ddylid annog y plentyn i fynd os byddai'r profiad yn niweidiol iddo. Gall fod yn fwy priodol i blentyn ysgrifennu ei deimladau, a dylai gael cymorth i wneud hyn, os oes angen.

Mae swyddogaeth Cadeirydd y gynhadledd yn allweddol i alluogi'r plentyn i gael profiad cadarnhaol na fydd yn ei niweidio mewn unrhyw fodd. Dylai plentyn sy'n mynychu cynhadledd gael y cyfle i ddod ag eiriolwr, cyfaill neu gefnogwr gydag ef. Rhaid cymryd i ystyriaeth dewis iaith y plentyn, anawsterau cyfathrebu neu unrhyw anghenion arbennig eraill. Dylai Cadeirydd y gynhadledd gyfarfod â'r plentyn ymlaen llaw, yn yr ystafell gynhadledd cyn i bobl eraill gyrraedd, i sicrhau eu bod yn deall beth fydd yn digwydd yn y gynhadledd, sut y gallant gyfrannu a sut y gallant gwyno, os ydynt am wneud hynny.

Ar ôl y gynhadledd, dylai'r Cadeirydd gynnig i'r plentyn y cyfle i adrodd yn ôl ar unwaith. Dylid dilyn hyn gydag ymweliad gan y Gweithiwr Allweddol o fewn 72 awr. Os yw plentyn yn anghytuno gyda phenderfyniadau'r gynhadledd, dylai ef/hi gael gwybod am drefn gwyno'r Pwyllgor Amddiffyn.

Rhaid cofnodi unrhyw benderfyniad i gau plentyn allan o ran neu'r cyfan o gynhadledd yn y cofnodion a rhoi'r rhesymau am hynny.

Blwch 12 • Penderfynu a ddylai'r plentyn fynd i'r gynhadledd

Os yw plentyn yn mynegi diddordeb mewn mynychu'r gynhadledd, trafodwch y manteision a'r anafanteision o fynd yno gydag ef/hi. Ystyriwch beth mae mynychu yn ei olygu ym mhob sefyllfa, a beth fydd er pennaf les y plentyn. Bydd rhai plant eisiau bod yn bresennol dim ond er mwyn clywed beth sy'n cael ei ddweud, tra bydd eraill eisiau cyfrannu i'r gynhadledd. Defnyddiwch beth mae'r plentyn yn ei ddweud wrthyh i'ch cynorthwyo i benderfynu p'un a ddylai fynychu.

3.8.5 Cynnwys neu gau allan y rhai gyda chyfrifoldeb rhiant/gofalwyr y plentyn

3.8.5.1 Pwrrpas eu cynnwys

Dylid annog rhieni i fynychu'r gynhadledd oherwydd fod ganddynt gyfraniad pwysig i'w wneud. Mae pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth gyda rhieni ac aelodau o'r teulu yn sylfaen sy'n cynnal yr holl waith amddiffyn plant ac mae angen sefydlu perthynas agored a gonest rhwng gweithwyr proffesiynol a theuluoedd o ddechrau'r ymholiadau.

NODIADAU

Fodd bynnag, ni ddylid annog rhieni i fynychu os yw hynny'n golygu cau allan plentyn sy'n dymuno bod yn bresennol. Efallai na fydd oedolion (ac unrhyw blant) sy'n dymuno siarad yn y gynhadledd yn dymuno gwneud hynny o flaen ei gilydd, er enghraifft, neu efallai y bydd angen rhannu gwybodaeth ynghylch teulu arall neu wybodaeth sensitif arall. Efallai na fydd bob amser yn bosibl gwneud yn ôl dymuniad holl aelodau'r teulu bob tro, yn enwedig os yw'r camdriniwr honedig yn un o'r rhieni.

3.8.5.2 Cau allan

Dylai'r gweithiwr cymdeithasol drafod a fydd rhiant neu ofalwyr yn mynychu gyda Cadeirydd y gynhadledd o leiaf 24 awr o flaen y gynhadledd, ac o ddewis cyn hynny. Bydd y Cadeirydd yn defnyddio'i hawl i benderfynu a gall gau rhieni neu ofalwyr allan o'r cyfan o'r gynhadledd neu ran ohoni lle bo un neu fwy o'r meini prawf canlynol yn berthnasol:

- Mae perygl cryf neu dystiolaeth y bydd aelod o'r teulu yn bygwth y plentyn neu unrhyw un arall yn ystod y gynhadledd neu wedi hynny, a lle y gall eu presenoldeb darfu'n ddifrifol ar gynnal y gynhadledd.
- Mae oblygiadau i achos troseddol os bydd camdriniwr honedig yn mynychu lle mae'r camdriniwr hwnnw yn un o'r rhieni. Fodd bynnag, nid yw'r ffaith y gall person gael ei erlyn ynddo'i hun yn rheswm dros ei gau allan a dylai'r Cadeirydd gymryd cyngor oddi wrth yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron cyn gwneud penderfyniad.
- Mae plant o oed a dealltwriaeth ddigonol yn datgan nad ydynt am i'w rhieni/gofalwyr fod yn bresennol.

Rhaid nodi'r rhesymau dros gau rhieni allan yn y cofnodion. Mae penderfyniad y Cadeirydd i gau rhywun allan yn derfynol, ac yn un i'w gymryd mewn amgylchiadau eithriadol yn unig. Os yw'r rhieni yn cael eu cau allan neu'n methu neu'n anfodlon mynychu, dylid cynnwys y rhesymau am hyn yn y cofnodion. Dylent gael y cyfle i drafod eu cau allan gyda'r Cadeirydd, ac i gyfathrebu eu safbwyntiau i'r gynhadledd drwy ddulliau eraill.

Gall unrhyw weithiwr proffesiynol ofyn i riant/gofalydd gael ei gau allan o'r gynhadledd. Rhaid i'r cais gael ei wneud i Gadeirydd y gynhadledd ar y cyfle cyntaf posibl. Dylai'r Cadeirydd drafod y cais gyda'r rheolwr asiantaeth briodol cyn dod i benderfyniad ynghylch p'un ai i gau allan ai peidio.

3.8.5.3 Paratoi'r rhieni neu'r gofalwyr

Dylai'r gweithiwr cymdeithasol sy'n cynnull y gynhadledd roi gwybod i'r rhieni/gofalwyr beth yw'r broses fydd yn cael ei dilyn a sicrhau eu bod yn deall pwrpas y gynhadledd a phwy fydd yn ei mynychu. **Nid yw mynychu yr un fath â chymryd rhan ynddi.** Dylai rhieni/gofalwyr gael eu paratoi'n ddigonol cyn y gynhadledd i'w galluogi i gymryd rhan mor llawn ag y mae modd. Dylai rhieni dderbyn gwahoddiad ysgrifenedig i'r gynhadledd a thaflen yn esbonio pwrpas cynadleddau a chofrestriad yn ogystal â'r daflen gwynion. Yna dylai gweithiwr cymdeithasol drafod gyda hwy pwy sy'n debyg o fod yn bresennol a pham, a pha fath o bryderon fydd yn cael eu trafod.

NODIADAU

Os yw ymwneud y rhieni i fod yn llwyddiannus, efallai y bydd arnynt angen help i baratoi ar gyfer y gynhadledd (er enghraifft, i wneud nodiadau ysgrifenedig o'r hyn y maent eisiau'i ddweud) yn ogystal â chymorth ymarferol gyda unrhyw anawsterau gofal plant neu gludiant. Dylid annog rhieni i ddod â ffrind, perthynas neu gefnogwr arall gyda hwy i'r gynhadledd, os nad yw'r person hwnnw yn gamdriniwr tybiedig neu hysbys. Dylai hyn fodd bynnag ddibynnu ar barchu dymuniadau a theimladau'r plentyn. Gall y cyfreithiwr fynychu fel cefnogwr.

Dylai Cadeirydd y gynhadledd gyfarfod â'r rhieni ymlaen llaw, o ddewis yn yr ystafell gynhadledd cyn i'r bobl eraill sy'n mynychu gyrraedd, ac esbonio iddynt sut fydd y gynhadledd yn cael ei chynnal a beth yw'r rheolau sylfaenol.

Os yw'r gynhadledd yn penderfynu rhoi plentyn ar y gofrestr, dylid dweud wrth y rhieni yr hyn sydd angen iddynt wneud, a sut fyddant yn cael eu cynnwys yn y broses o gynllunio ac adolygu'r achos ymhellach. Os yw rhieni yn anghytuno gyda phenderfyniad y gynhadledd, dylent gael gwybod am drefn gwyno'r Pwyllgor Amddiffyn.

P'un ai yw'r rhieni yn mynychu'r gynhadledd ai peidio, dylid anfon penderfyniadau ac argymhellion y gynhadledd atynt yn ysgrifenedig o fewn 10 diwrnod i'r gynhadledd. Dylai'r Gweithiwr Allweddol drafod yr argymhellion gyda'r rhieni.

Dylid anfon cofnodion y Gynhadledd Amddiffyn Plant, cyn gynted ag y maent ar gael, at rieni, a lle bo hynny'n briodol, at y plentyn **ac eithrio lle gallai'r plentyn neu unrhyw berson arall gael ei roi mewn perygl** o ganlyniad i hynny. Cadeirydd y gynhadledd ar y cyd gyda'r rheolwr Gwasanaethau Cymdeithasol perthnasol a'r heddlu ddylai wneud y penderfyniad ynghylch p'un ai i anfon cofnodion ai peidio. Dylid cofnodi rhesymau dros benderfyniad i beidio â danfon cofnodion i aelodau perthnasol o'r teulu yn ofalus yn y cofnodion.

3.8.6 Adroddiadau ar gyfer y gynhadledd

Dylai pob asiantaeth sy'n cael ei gwahodd i fynychu'r gynhadledd ddarparu, ymlaen llaw, adroddiad ysgrifenedig sy'n crynhoi eu hymwneud gyda'r teulu a'u gwybodaeth o iechyd a datblygiad y plentyn yn ogystal â'u barn am allu'r teulu i ddiogelu'r plentyn a hybu lles y plentyn. Dylid rhoi adroddiadau ysgrifenedig i Gadeirydd y gynhadledd cyn y gynhadledd. Dylai pob un o awduron yr adroddiadau drefnu esbonio a thrafod yr adroddiadau gyda'r teuluoedd o leiaf 24 awr cyn y gynhadledd. Rhaid i gynrychiolwyr yr asiantaethau ddod i'r gynhadledd gan ddisgwyl darllen yr adroddiad y maent wedi'i baratoi a thanlinellu'r holl bwyntiau pwysig.

Dylai awduron yr adroddiadau ddelio gydag anghenion pob plentyn o fewn y teulu ar wahân er mai dim ond un adroddiad sy'n cael ei gynhyrchu. Dylent wirio eu cofnodion am ddata ffeithiol megis hanes brechu, ymweliadau â chlinigau, mynychu'r ysgol etc. Dylid craffu ar gofnodion perthnasol ynghylch oedolion hefyd.

Dylid tynnu sylw'r Cadeirydd at unrhyw wybodaeth sensitif neu wybodaeth a

NODIADAU

allai fod yn gyfrinachol. Yn yr un modd, dylai unrhyw bryderon proffesiynol ynghylch trais neu fygythion posibl gael eu cyfleu ymlaen llaw i'r Cadeirydd.

3.8.6.1 Adroddiad y gweithiwr cymdeithasol

Mae adroddiad y gweithiwr cymdeithasol yn crynhoi ac yn dadansoddi'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr Asesiad Cychwynnol ac ymholiadau Adran 47, yn dilyn arweiniad y *Fframwaith Asesu Plant Mewn Angen a'u Teuluoedd*. Dylai'r adroddiad gynnwys:

- Yr Asesiad Cychwynnol a gwybodaeth o'r gwaith sydd wedi'i wneud ar yr Asesiad Craidd hyd yn hyn;
- hanes yr achos yn cynnwys digwyddiadau arwyddocaol a chyswllt asiantaethol a phroffesiynol gyda'r plentyn a'r teulu, gyda rhestr yn nhrefn dyddiadau o ddigwyddiadau a ddaeth â'r achos i'r Gynhadledd Amddiffyn Plant. Dylid tanlinellu meysydd lle mae angen rhagor o wybodaeth;
- agweddau arwyddocaol o gyflwr iechyd a datblygiad presennol a gorffennol y plentyn;
- adroddiad o'r ymchwiliad Adran 47 a disgrifiad byr o ddigwyddiadau;
- gwybodaeth ar allu'r rhieni ac aelodau eraill y teulu i sicrhau diogelwch y plentyn rhag niwed, ac i hybu iechyd a datblygiad y plentyn;
- y dymuniadau a'r teimladau y mae'r plentyn, y rhieni ac aelodau eraill y teulu wedi'u mynegi;
- asesiad o risg ac unrhyw gamau amddiffyn plant a gymerwyd;
- dadansoddiad o oblygiadau'r wybodaeth a gafwyd ar gyfer diogelwch, iechyd a datblygiad y plentyn yn y dyfodol;
- argymhellion ar gyfer gwaith yn y dyfodol gyda'r plentyn a'r teulu;

Dylai'r adroddiad wahaniaethu rhwng ffaith, arsylwad, honiad a barn.

3.8.6.2 Adroddiad meddygol

Bydd personél meddygol yn coladu'r holl wybodaeth feddygol berthnasol gan gynnwys delweddau e.e. pelydr-X ac yn darparu adroddiadau ysgrifenedig. Lle bo cyngor meddygol yn hanfodol i drafodaethau'r gynhadledd, dylai'r gynhadledd gael ei threfnu ar adeg a fyddai'n sicrhau y gall y meddyg(on) sy'n archwilio neu'r paediatregydd cymuned ei mynychu. Os, oherwydd amgylchiadau eithriadol, na all y meddyg fynychu'r gynhadledd, rhaid iddo ef neu hi gyflwyno adroddiad a dylai cadeirydd y gynhadledd ddarllen y casgliadau meddygol yn llawn i'r gynhadledd. Dim ond ymarferwr meddygol ddylai ddehongli'r adroddiad ymhellach. Os nad yw'r gynhadledd yn glir ynghylch cynnwys neu ddehongliad yr adroddiad, dylai'r Cadeirydd wneud trefniadau i geisio eglurhad. Ni ddylai unrhyw oedi beryglu diogelwch y plentyn.

Mewn achosion lle mae barn feddygol yn anghytuno â'i gilydd, dylai'r Cadeirydd ofyn i'r meddygon yn y mater adolygu eu casgliadau ar y cyd er lles y plentyn. Os nad ydynt yn medru sefydlu tir cyffredin rhyngddynt, dylid gofyn iddynt esbonio'u gwahaniaethau. Rhaid ystyried eu barn yng nghyd-destun y

NODIADAU

wybodaeth arall sydd ar gael. Os nad oes modd datrys y mater, dylid comisiynu barn arbenigol bellach i adolygu'r casgliadau meddygol er mwyn cynnig barn fydd yn cario.

3.8.6.3 Gweithwyr proffesiynol eraill

Bydd disgwyl i weithwyr proffesiynol eraill ddarparu adroddiadau a ddylai fod yn gyson â meysydd a dimensiynau'r Fframwaith Asesu. Rhaid i weithwyr proffesiynol eraill fod yn barod i ddehongli, dadansoddi ac esbonio'u gwybodaeth er budd mynychwyr eraill y gynhadledd.

- Bydd **personél iechyd** yn darparu adroddiadau a fydd yn coladu'r holl wybodaeth berthnasol arall sy'n briodol i'r gweithiwr proffesiynol hwnnw, gan gynnwys yr hyn sy'n ymwneud â rhieni (a gofalwyr) fel y mae'n effeithio ar allu rhieni i ddarparu'n ddigonol ar gyfer iechyd, diogelwch a lles y plant.
- Bydd **personél addysg** yn coladu ac yn gwirio'r holl gofnodion perthnasol, gan gynnwys mynychu'r ysgol a gwybodaeth fugeiliol ac yn darparu adroddiad ysgrifenedig.
- Bydd yr **heddlu** yn gwirio cofnodion pob oedolyn hysbys sydd ag ymwneud sylweddol gyda'r plentyn a hefyd yn gwirio cofnodion camdriniaeth deuluol. Mae angen i'w hadroddiad gynnwys pob collfarn flaenorol yn ymwneud â chyffuriau neu alcohol, trais, gan gynnwys camdriniaeth deuluol, troseddau rhywiol neu anonestrwydd lle mae'n berthnasol i les y plentyn.
- Bydd y **gwasanaeth prawf** yn gwirio cofnodion gan gynnwys amodau trwydded ac yn darparu adroddiad ysgrifenedig.
- Bydd **cynrychiolwyr asiantaethau eraill** yn paratoi ac yn darparu adroddiadau ysgrifenedig fel sy'n briodol.

Dylai adroddiadau o bob asiantaeth gynnwys:

- gwybodaeth sylfaenol
- natur yr ymwneud gyda'r teulu
- gwybodaeth am yr ymwneud yn y digwyddiad presennol/achos am y pryder
- amllder y cyswllt a'r dyddiad y gwelwyd pob plentyn ddiwethaf
- manylion datblygiad ar gyfer pob plentyn
- cefndir/pryderon blaenorol
- asesiad o ystyriaethau presennol/cryfderau'r teulu a ffactorau risg i'r plentyn neu blant.

3.8.7 Cadeirio'r gynhadledd

Rhaid i gadeirydd y gynhadledd fod:

- yn weithiwr proffesiynol sy'n annibynnol o gyfrifoldeb gweithredol neu fel rheolwr llinell dros yr achos;
- wedi'i hyfforddi i gadeirio Cynadleddau Amddiffyn Plant;
- yn rhywun sydd â dealltwriaeth dda a gwybodaeth broffesiynol o amddiffyn

NODIADAU

plant, lles a datblygiad plant, a'r ymarfer gorau wrth weithio gyda phlant a theuluoedd;

- yn medru edrych yn wrthrychol ar y dystiolaeth ac asesu oblygiadau'r dystiolaeth y dylid seilio penderfyniadau arni;
- yn fedrus mewn cadeirio cyfarfodydd mewn ffordd sy'n annog pobl i gymryd rhan yn adeiladol gan gadw ffocws clir ar les y plentyn.

Swyddogaeth Cadeirydd y gynhadledd yw:

- cyfarfod â'r plentyn ac aelodau'r teulu ymlaen llaw, i sicrhau eu bod yn deall pwrpas y gynhadledd a beth fydd yn digwydd;
- penderfynu a oes rhesymau dilys ai peidio dros gau allan unrhyw aelodau o'r teulu rhag mynychu'r gynhadledd os gwneir cais am hyn;
- sicrhau fod agenda'r gynhadledd yn cael ei dilyn;
- galluogi **pawb** sy'n bresennol, gan gynnwys plant ac aelodau o'r teulu, i wneud eu cyfraniad yn llawn i'r drafodaeth ac i'r penderfyniadau.
- sicrhau bod y gynhadledd yn gwneud y penderfyniadau sy'n ofynnol ganddi mewn ffordd wybodus, systematig ac eglur;
- galluogi aelodau'r gynhadledd i rannu'r holl wybodaeth berthnasol a gwerthuso peryglon;
- sicrhau bod y gynhadledd yn canolbwyntio ar y plentyn;
- sicrhau bod y gynhadledd yn cael ei chynnal mewn dull nad yw'n gwahaniaethu yn erbyn neb a'i bod yn rhoi ystyriaeth briodol i faterion hil, diwylliant, iaith, crefydd, rhyw ac anabledd;
- sicrhau bod barn sy'n anghytuno â'r lleill a'r rhesymau am hynny yn cael eu cofnodi yn llawn;
- gwahaniaethu'n eglur rhwng ffaith, arsylwad, honiad a barn;
- sefydlu barn y personau arweiniol (o grwpiau proffesiynol) ynghylch rhoi enw'r plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant;
- tynnu ynghyd farn aelodau'r gynhadledd a chyflafareddu lle mae gwahanol farn yn cael ei mynegi, yn unol â phrotocolau'r Pwyllgor Amddiffyn;
- bod ar gael ar ôl y gynhadledd i esbonio'r penderfyniadau i rieni a phlant;
- cymryd cyfrifoldeb dros gywirdeb cofnodion y gynhadledd.

3.8.8 Proses y gynhadledd

Bydd y Gynhadledd Amddiffyn Plant yn dilyn agenda sy'n/fydd yn cynnwys:

- y pwrpas neu'r rhesymau am y gynhadledd arbennig a thasgau'r gynhadledd
- cyflwyniadau, ymddiheuriadau, cyfrinachedd, swyddogaethau asiantaethau gyda'r teulu
- cylchredeg adroddiadau
- manylion y digwyddiadau yn arwain at y Gynhadledd Amddiffyn Plant gychwynnol

NODIADAU

- gwybodaeth o'r Asesiad Cychwynnol, ymholiadau Adran 47 ac Asesiad Craidd hyd yn hyn
- gwybodaeth gefndir oddi wrth pob asiantaeth, gan gynnwys ymwneud yn y gorffennol a'r presennol
- crynodeb o'r holl brif wybodaeth a ddarparwyd gan y Cadeirydd
- barn y plant ac aelodau o'r teulu, i gael ei sefydlu gan y Cadeirydd
- dadansoddiad o oblygiadau'r holl wybodaeth a rannwyd i ddiogelwch, iechyd a datblygiad y plentyn (h.y. a yw'r plentyn yn parhau i fod mewn perygl o niwed arwyddocaol?)
- ystyriaeth o'r peryglon o niwed os yw'r plentyn yn aros yn ei gartref, ac argymhellion clir o sut ellir rheoli'r peryglon
- ystyriaeth o'r angen am gyngor cyfreithiol.

3.8.9 Cyfrinachedd a rhannu gwybodaeth yn y gynhadledd

Mae llwyddiant cydweithrediad rhyngasiantaethol i amddiffyn plant wedi'i wreiddio mewn cyfnewid a rhannu gwybodaeth berthnasol. **Nid** yw rheolau cyfrinachedd wedi'u bwriadu i atal rhannu gwybodaeth, sydd wedi'i bwriadu i amddiffyn plant. Ym **mhob** achos lle mae ceir honiad neu amheuaeth o gam-drin plentyn, mae dyletswydd i rannu'r holl wybodaeth berthnasol. Ym mhob sefyllfa o'r fath amddiffyn y plentyn sydd i gael ei roi yn gyntaf. Mae'n hanfodol i'r broses benderfynu fod gweithwyr proffesiynol yn cyfrannu'r holl wybodaeth berthnasol sydd ganddynt yn eu cofnodion.

Rhaid trin gwybodaeth a gafwyd drwy unrhyw ran o'r broses amddiffyn plant yn hollol gyfrinachol. Ni ddylai unrhyw un sy'n cael gwybodaeth drwy'r broses amddiffyn plant ei datgelu at unrhyw bwrpas ac eithrio amddiffyn plant heb gydsyniad eglur y gweithwyr proffesiynol neu'r aelod o'r teulu a'i rhoddodd. Os oes unrhyw amheuaeth ynghylch rhannu gwybodaeth dylid trafod hyn gyda'r Cadeirydd cyn y gynhadledd.

3.8.10 Canlyniadau'r Cynadleddau Amddiffyn Plant Cychwynnol

3.8.10.1 Y broses benderfynu

Yr **unig benderfyniad** y gellir ei wneud yn y gynhadledd yw p'un a ddylai enw'r plentyn fynd ar y Gofrestr, ac os felly, dan ba categori. Gall trafodaeth yn y gynhadledd gyfrannu at wneud y penderfyniad hwn, yn ogystal â darparu sylfaen i gynllunio ar gyfer dyfodol y plentyn. Mae angen i'r gynhadledd sefydlu cyn belled ag y mae modd achos y niwed arwyddocaol neu debygolrwydd y niwed arwyddocaol i'r plentyn.

Mae'r penderfyniad i roi enw plentyn ar y gofrestr yn dibynnu ar yr ateb i'r cwestiwn, '**A yw'r plentyn mewn perygl sy'n parhau o gael niwed arwyddocaol?**'. Mae'r plentyn mewn perygl sy'n parhau o niwed arwyddocaol os *naill ai*:

- Gellir dangos bod y plentyn wedi dioddef ei gam-drin neu fod ei iechyd neu ei ddatblygiad wedi'i amharu o ganlyniad i gamdriniaeth gorfforol, emosiynol, neu gamdriniaeth rywiol neu esgeulustod, ac mai'r farn broffesiynol yw fod

NODIADAU

camdriniaeth neu amhariad pellach yn debygol; *neu*

- Y farn broffesiynol, yn cael ei chadarnhau gan gasgliadau ymholiadau yn yr achos unigol hwn neu gan dystiolaeth ymchwil, yw fod y plentyn yn debygol o ddioddef camdriniaeth neu amhariad ar ei iechyd neu ei ddatblygiad o ganlyniad i gael ei gam-drin yn gorfforol, emosiynol neu'n rhywiol, neu ei esgeuluso.

Blwch 13 • Sefydlu niwed arwyddocaol

Er mwyn deall a sefydlu niwed arwyddocaol, ystyriwch:

- y cyd-destun teuluol
- datblygiad y plentyn yng nghyd-destun ei deulu ac amgylchedd cymdeithasol a diwylliannol ehangach
- unrhyw anghenion arbennig, megis cyflwr meddygol, anhawster cyfathrebu, neu anabledd a all effeithio ar ddatblygiad a gofal y plentyn o fewn y teulu
- natur y niwed, o ran camdriniaeth neu fethiant i ddarparu gofal digonol
- yr effaith ar iechyd a datblygiad y plentyn a digonolrwydd gofal y rhieni
- adwaith y plentyn a'i ganfyddiadau ef neu hi, yn ôl oed a dealltwriaeth y plentyn.

Bydd y gynhadledd yn mynd drwy'r broses ganlynol o benderfynu:

- Bydd y penderfyniad p'un ai i gynnwys enw plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ai peidio yn cael ei gyrraedd drwy broses o rannu gwybodaeth a thrafod a fydd yn cynnwys pob person sy'n bresennol yn y gynhadledd ac unrhyw adroddiadau ysgrifenedig a ddarparwyd, gan gynnwys adroddiadau oddi wrth y rhai sy'n methu mynychu.
- Bydd y Cadeirydd yn sefydlu barn pob asiantaeth/grwpiad proffesiynol ynghylch rhoi enw'r plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.
- Dylai'r penderfyniad adlewyrchu barn consensws y gynhadledd. Bydd barn pob unigolyn sy'n bresennol yn y gynhadledd yn cael ei chymryd i ystyriaeth. Mae barn rhieni a phlant yn bwysig i'r gynhadledd ond y gweithwyr proffesiynol sy'n gwneud y penderfyniad ynghylch cofrestru.
- Lle na ellir cael consensws, dylai'r gynhadledd wneud penderfyniad ar sail mwyafrif er mwyn medru symud ymlaen. **Rhaid i'r Pwyllgor Amddiffyn gael protocol yn ei le ar gyfer datrys gwahaniaethau proffesiynol.**
- Mewn amgylchiadau eithriadol iawn gall fod yn briodol gohirio penderfyniad ynghylch cofrestru. Rhaid i'r Cadeirydd wneud y penderfyniad hwn. Rhaid peidio byth gwneud penderfyniad i ohirio ar y sail fod angen asesiad pellach. Rhaid i'r Cadeirydd sicrhau bod rhesymau clir yn cael eu rhoi am unrhyw benderfyniad i ohirio a'u bod yn cael eu cofnodi'n ofalus. Bydd angen ailgynnull y Gynhadledd Amddiffyn Plant o fewn 10 diwrnod gwaith er mwyn gwneud y penderfyniad, ac yn y cyfamser, rhaid llunio cynllun

NODIADAU

Gw. adran 1.2 am ddiffiniadau.

Gw. adran 3.11 am fwy ar y Cynllun Amddiffyn Plant.

rhyngasiantaethol i ddiogelu a hybu lles y plentyn.

- Rhaid i aelodau'r Gynhadledd Amddiffyn Plant gychwynnol sicrhau mai lles ac amddiffyn y plentyn/plant yw'r prif ffocws

Lle mae plentyn yn cael ei ystyried i fod yn parhau mewn perygl o niwed arwyddocaol a'i fod i gael ei roi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, bydd angen cymorth ac ymyrraeth rhyngasiantaethol i ddiogelu'r plentyn drwy gyfrwng Cynllun Amddiffyn Plant ffurfiol, i gael ei amlinellu yn y gynhadledd.

Hyd yn oed lle nad ystyrir fod y plentyn yn parhau mewn perygl o niwed arwyddocaol, gall y plentyn fod mewn angen cymorth i hybu ei ddatblygiad ef neu hi. Gall y bydd angen parhau'r Asesiad Craidd, yn unol â meini prawf cymhwyster, a gwneud trefniadau rhyngasiantaethol i lunio cynllun ar gyfer darparu cefnogaeth neu wasanaethau priodol.

Blwch 14 • Canolbwyntio'n ormodol ar gofrestru.

Mae Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant yn rhybuddio yn erbyn canolbwyntio'n ormodol ar benderfyniadau ynghylch cofrestru yn y Gynhadledd Amddiffyn Plant. Mae hefyd yn bwysig edrych ar gynlluniau i'r dyfodol i ddiogelu'r plentyn a chefnogi'r teulu yn y misoedd ar ôl y gynhadledd.

Dylai'r Cadeirydd benderfynu dan ba gategori camdriniaeth y dylid cofrestru enw'r plentyn. Bydd y categori a ddefnyddir wrth gofrestru yn dangos i'r rhai fydd yn ymgynghori â'r gofrestr y prif bryderon oedd yn cyflwyno'u hunain adeg y cofrestru. Gall hyn fod yn un neu fwy o'r canlynol:

- cam-drin corfforol
- cam-drin emosiynol
- cam-drin rhywiol
- esgeulustod.

Dylai'r categorïau hyn adlewyrchu'r holl wybodaeth a gafwyd wrth wneud yr ymholiadau Adran 47 a'r dadansoddiad dilynol ac nid dim ond un neu fwy o ddigwyddiadau camdriniol.

Rhaid gweld unrhyw ddigwyddiad camdriniol posibl yn ei gyd-destun er mwyn asesu hyd a lled y niwed i'r plentyn a'r ymyrraeth briodol. Yn aml y rhyngweithiad rhwng nifer o ffactorau sy'n cynyddu tebygolrwydd neu lefel y gwir niwed arwyddocaol. Ym mhob achos mae'n rhaid ystyried unrhyw driniaeth wael ochr yn ochr â chryfderau a chefnogaeth y teulu.

3.8.10.3 Y Cynllun Amddiffyn Plant amlinellol

Lle mae enw plentyn i gael ei roi ar y gofrestr, nid yw'r weithred o gofrestru ynddi ei hun yn amddiffyn plentyn mewn unrhyw fodd a dylid bob amser wneud Cynllun Amddiffyn plentyn i gyd-fynd â'r cofrestru.

Caiff y cynllun amlinellol ei gytuno yn y Gynhadledd Amddiffyn Plant

NODIADAU

gychwynnol ond caiff Cynllun Amddiffyn Plant manwl ei gynhyrchu yn nes ymlaen gan y Grŵp Craidd.

Dylai'r Gynhadledd Amddiffyn Plant gychwynnol drafod a chytuno ar yr elfennau canlynol o'r Cynllun Amddiffyn Plant:

- y risg o niwed arwyddocaol i'r plentyn a'r ffordd y gall cynllun rhyngasiantaethol amddiffyn y plentyn;
- canlyniadau tymor byrrach a hirach i'w cael, gan eu cysylltu'n glir gyda lleihad yn y perygl o niwed i'r plentyn a hybu lles y plentyn;
- pwy fydd â chyfrifoldeb am ba weithredoedd, o fewn pa amserlenni penodol;
- sut i fonitro a gwerthuso cynnydd yn y cynllun;
- pa weithwyr proffesiynol fydd yn monitro cynnydd, datblygiad, lles a diogelwch y plentyn, a sut.

3.8.10.4 Tasgau eraill y gynhadledd

Yn ogystal â gwneud y penderfyniad ynghylch cofrestru, ac, os yw'n briodol, paratoi Cynllun Amddiffyn Plant amlinellol, dylai'r gynhadledd bob amser wneud y tasgau canlynol:

- cytuno ar drefniadau ar gyfer cyfathrebu penderfyniadau ac argymhellion y gynhadledd i'r rhieni neu'r gofalwyr ac, yn dibynnu ar oed a dealltwriaeth, y plentyn/plant, os nad ydynt yn bresennol yn y gynhadledd;
- penodi Gweithiwr Allweddol a gosod allan ei swyddogaeth;
- enwi aelodaeth Grŵp Craidd o weithwyr proffesiynol ac aelodau o'r teulu a fydd yn datblygu ac yn gweithredu'r Cynllun Amddiffyn Plant manwl fel arf gwaith;
- sefydlu sut fydd plant a theuluoedd yn cael eu cynnwys yn y broses gynllunio a gweithredu ac enwi'r ffynonellau o gefnogaeth ac eiriolaeth sydd ar gael iddynt;
- gosod amserlen ar gyfer cyfarfodydd y Grŵp Craidd a chynhyrchu'r Cynllun Amddiffyn Plant. Dylai'r Grŵp Craidd gyfarfod o fewn 2 wythnos o ddyddiad y Gynhadledd Amddiffyn Plant gychwynnol ac o hynny allan o leiaf bob 6 wythnos os nad yn amlach;
- gosod amserlen ar gyfer cynadleddau adolygu h.y. bob 3 mis fel uchafswm amser o ddyddiad y gynhadledd amddiffyn plant gychwynnol ac o hynny allan o leiaf bob 6 mis os nad yn amlach;
- adnabod mewn amlinelliad y meysydd sydd i gael eu trin yn yr Asesiad Craidd sy'n mynd yn ei flaen o hyd o fewn yr amserlen i gwblhau o fewn 35 diwrnod o ddyddiad cychwyn yr ymholiadau Adran 47;
- amlinellu pa weithwyr proffesiynol fydd yn cyfrannu i'r Asesiad Craidd ac ym mha ffordd;
- amlinellu'r Cynllun Amddiffyn Plant, gan gynnwys adnabod beth sydd angen newid er mwyn diogelu'r plentyn a'r trefniadau ar gyfer monitro iechyd, datblygiad a chynnydd y plentyn;

NODIADAU

- ystyried yr angen am gynllun wrth gefn dan amgylchiadau arbennig e.e. mewn achosion lle mae'r camdriniwr yn derbyn dedfryd o garchar;
- gwneud yn glir bwrpas a chylch gorchwyl gwahanol y Gynhadledd gychwynnol, y Grŵp Craidd a'r Gynhadledd Adolygu Amddiffyn Plant;
- argymhell, os yw'n briodol, fod Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhoi ystyriaeth i'r angen am weithredu cyfreithiol i amddiffyn y plentyn;
- cynllunio unrhyw asesiad neu ofal iechyd sydd ei angen.

3.8.11 Cofnodion y Gynhadledd Amddiffyn Plant

Mae cofnod ysgrifenedig y gynhadledd yn ddogfen waith hanfodol ar gyfer pob gweithiwr proffesiynol a'r teulu. Dylai pob Cynhadledd Amddiffyn Plant, yr un gychwynnol a rhai adolygu, gael person sydd wedi'i hyfforddi i gymryd nodiadau a chynhyrchu cofnodion y cyfarfod. Ni ddylai'r sawl sy'n cymryd y cofnodion fod ag unrhyw swyddogaeth arall yn y gynhadledd nac unrhyw ran yn yr achos.

Dylai'r cofnodion gynnwys:

- ffeithiau hanfodol yr achos;
- crynodeb o drafodaethau'r gynhadledd sy'n adlewyrchu yn gywir gyfraniadau a wnaed ac sy'n gwahaniaethu'n glir rhwng ffaith a barn;
- dadansoddiad clir o risg i'r plentyn;
- pob penderfyniad wnaed, gyda gwybodaeth yn amlinellu'r rhesymau am benderfyniadau;
- Cynllun Amddiffyn Plant amlinellol neu wedi'i adolygu yn galluogi pawb i fod yn glir ynghylch eu tasgau;
- unrhyw anghytuno â'r casgliadau, penderfyniad neu argymhellion y gynhadledd.

Dylid cymryd cofnodion yn iaith y gynhadledd a darparu cyfieithiad i rai sy'n cymryd rhan sydd angen un. Dylid paratoi cofnodion i fformat sy'n dangos cysondeb, yn unol â'r agenda, gan gofnodi cyfraniadau, penderfyniadau ac argymhellion mewn ffordd glir a chryno fel bod modd eu holrhain a'u cyfiawnhau.

Dylai Cadeirydd y gynhadledd gytuno bod y cofnodion yn gywir cyn iddynt gael eu dosbarthu. Dylid anfon copi cyn gynted ag y bo modd ar ôl y gynhadledd i bawb a oedd wedi mynychu neu a oedd wedi cael gwahoddiad i fynychu, gan gynnwys aelodau o'r teulu, ac eithrio am unrhyw ran o'r gynhadledd y cawsant eu cau allan ohoni. Caiff y rhai oedd yn y gynhadledd sy'n credu fod rhywbeth yn y cofnodion yn anghywir yrru'u sylwadau at y Cadeirydd o fewn deg diwrnod gwaith i dderbyn y cofnodion.

Mae'r cofnodion yn gyfrinachol ac ni ddylai gweithwyr proffesiynol eu pasio ymlaen i drydydd parti heb gydsyniad Cadeirydd y gynhadledd ac eithrio lle maent yn trosglwyddo i swyddfa arall o fewn yr un asiantaeth. Dylai'r asiantaethau sy'n eu derbyn gadw cofnodion Cynhadledd Amddiffyn Plant a'r holl gofnodion eraill sy'n gysylltiedig â'r broses gofrestru yn unol â'u polisiau

NODIADAU

cadw cofnodion. Mewn achosion lle mae achos cyfreithiol yn cael ei ddwyn, gall yr Heddlu ddatgelu'r cofnodion i Wasanaeth Erlyn y Goron yn unol â *Deddf Trefn ac Ymchwilio Troseddol 1996*.

3.8.12 Cwynion oddi wrth deuluoedd am y Gynhadledd Amddiffyn Plant

Gall rhieni neu blant gwyno am weithrediad cynhadledd o ran proses neu ganlyniad. Dylid cyfeirio cwynion am weithrediad cynadleddau at Gadeirydd y gynhadledd. Bydd y Cadeirydd yn pasio'r gwyn ymlaen i'r uwch reolwr dros amddiffyn plant yn y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Wrth ystyried ac ymateb i gwynion ynghylch gweithredu a phrosesau penderfynu'r gynhadledd, dylai'r awdurdod lleol ffurfio panel rhyngasiantaethol yn cynnwys cynrychiolwyr uwch o asiantaethau sy'n aelodau o'r Pwyllgor Amddiffyn. Dylai panel ystyried a yw'r protocolau a'r dulliau gweithredu rhyngasiantaethol perthnasol wedi cael eu dilyn a pha un ai yw'r penderfyniad y mae'r gwyn yn ymwneud ag ef yn dilyn yn rhesymol o gadw'n gywir at y canllawiau.

Dylid ymateb i gwynion ynghylch asiantaethau unigol, eu perfformiad a darpariaeth/diffyg darpariaeth gwasanaethau yn unol â threfn gwynion yr asiantaeth berthnasol.

3.9 Y Gweithiwr Allweddol

Dylai pob plentyn a roddir ar y Gofrestr Amddiffyn Plant gael gweithiwr allweddol wedi'i enwi i gario cyfrifoldeb proffesiynol am yr achos yn y dyfodol. Dylai'r Cadeirydd enwi'r Gweithiwr Allweddol yn y gynhadledd gychwynnol. Mae'r Gweithiwr Allweddol bob amser yn weithiwr cyflogedig gan y Gwasanaethau Cymdeithasol gyda chymwysterau a/neu brofiad priodol.

Os bydd hi'n profi'n amhosibl penodi Gweithiwr Allweddol, rhaid hysbysu'r uwch reolwr sy'n gyfrifol am amddiffyn plant yn y Gwasanaethau Cymdeithasol ar unwaith.

Dylai'r Gweithiwr Allweddol:

- sicrhau bod y Cynllun Amddiffyn Plant amlinellol yn cael ei ddatblygu gan y grŵp craidd yn Gynllun Amddiffyn Plant rhyngasiantaethol mwy manwl;
- cyd-drefnu cwblhau Asesiad Craidd anghenion y plentyn a'r teulu;
- cymryd y blaen mewn gwaith rhyngasiantaethol gyda'r plentyn a'r teulu;
- cyd-drefnu cyfraniadau aelodau'r teulu ac asiantaethau eraill i weithredu'r Cynllun Amddiffyn Pant;
- adolygu cynnydd yn y canlyniadau ar gyfer iechyd a lles y plentyn mewn perthynas â'r Cynllun Amddiffyn Plant;
- darparu ffocws ar gyfer cyfathrebu rhwng yr holl weithwyr proffesiynol ac aelodau'r teulu;
- sicrhau bod gan y plant a'r rhieni ddealltwriaeth glir o amcanion y cynllun, a'u bod yn gwybod am eu hawl i wneud cwyn a sut i wneud hynny.

Mae gan bob gweithiwr proffesiynol ddyletswydd i hysbysu'r Gweithiwr

NODIADAU

Gw. adran 3.11 am fwy ar y cynllun amddiffyn plant.

Gweler Adran 3.11 am fwy o wybodaeth ynglyn a'r Cynllun amddiffyn Plant. Gweler Adran 3.12 am fwy o wybodaeth ar y Grŵp Craidd.

Allweddol o ddigwyddiadau allweddol neu newid amgylchiadau sy'n berthnasol i'r plentyn. Dylai'r Gweithiwr Allweddol hysbysu ceidwad y Gofrestr Amddiffyn Plant ar unwaith, fel bod modd diweddarw'r gofrestr. Dylai'r gweithiwr allweddol hefyd roi gwybod i'r gweithwyr proffesiynol am unrhyw newidiadau.

Rhaid hysbysu unrhyw newid yn y Gweithiwr Allweddol ar lafar, a chadarnhau hynny yn ysgrifenedig i bob asiantaeth berthnasol ac i'r teulu. Rhaid newid cofnodion y cofrestriad ar unwaith.

3.10 Y Grŵp Craidd

Mae'r Grŵp Craidd yn gyfrifol am ddatblygu a gweithredu'r Cynllun Amddiffyn Plant fel arf gweithio manwl o fewn y cynllun amlinellol a gytunwyd yn y Gynhadledd Amddiffyn Plant gychwynnol. Bydd yr aelodaeth yn cael ei phennu adeg y cofrestriad a bydd yn cynnwys y Gweithiwr Allweddol, aelodau perthnasol o'r teulu (gan gynnwys plant) a gweithwyr proffesiynol neu ofalwyr maeth sydd â chysylltiad uniongyrchol gyda'r teulu.

Dylai'r cyfarfod cyntaf o'r Grŵp Craidd ddigwydd o fewn 10 diwrnod gwaith o'r Gynhadledd Amddiffyn Plant gychwynnol a chael ei chadeirio yn unol â threfniadau lleol. Dylai'r Grŵp Craidd barhau i gyfarfod yn rheolaidd o leiaf unwaith bob 6 wythnos.

Er mai'r Gweithiwr Allweddol sydd â'r rhan arweiniol, mae holl aelodau'r Grŵp Craidd yn gydgyfrifol am baratoi a gweithredu'r Cynllun Amddiffyn Plant, a gall aelodau'r Grŵp Craidd ymgymryd â gwaith penodol fel rhan o'r cynllun.

Tasgau'r Grŵp Craidd:

- Cytuno ar amcanion ac amserlenni yn y cyfarfod cyntaf;
- Datblygu a helaethu'r cynllun Amddiffyn Plant amlinellol;
- Penderfynu pa gamau sydd angen eu cymryd, gan bwy, i gwblhau'r Asesiad Craidd yn brydlon;
- Cynorthwyo'r Gweithiwr Allweddol i baratoi'r Asesiad Craidd o'r plentyn a'r teulu;
- Cynllunio a gweithredu'r gwaith rhyngasiantaethol yn unol ag argymhellion y gynhadledd;
- Monitro cynnydd yn erbyn yr amcanion a nodwyd yn y cynllun a mireinio'r cynllun yn ôl yr angen;
- Sicrhau fod rhieni, a phlant lle bo hynny'n briodol, yn cael eu cynnwys yn llawn yng ngweithrediad y Cynllun Amddiffyn Plant, ac yn deall disgwyliadau ac amcanion pob asiantaeth sydd yn gysylltiedig â'r achos;
- Cynhyrchu adroddiadau ysgrifenedig ar gyfer y Gynhadledd Adolygu Amddiffyn Plant gan amlinellu'r gwaith a wnaed gan aelodau o'r teulu a gweithwyr proffesiynol a chyda pha raddau o lwyddiant, o gael ei fesur yn erbyn yr amcanion ac o ran canlyniadau cadarnhaol i'r plentyn.

Dylid cymryd cofnodion ym mhob Grŵp Craidd, gan gynnwys nodiadau am y gweithredu y cytunwyd arno a'r penderfyniadau gymerwyd er mwyn rhoi gwybodaeth i'r gynhadledd adolygu. Dylid dosbarthu'r cofnodion i aelodau o'r Grŵp Craidd.

NODIADAU

Os nad yw'r Grŵp Craidd yn medru gweithredu'r cynllun y cytunwyd arno, am ba reswm bynnag, dylai'r Gweithiwr Allweddol ailgynnull y gynhadledd achos gan ymgynghori gyda'r rheolwr tîm perthnasol.

Ni ddylid oedi unrhyw weithredu amddiffynnol angenrheidiol i sicrhau diogelwch plentyn sydd mewn perygl o niwed arwyddocaol oherwydd bod cyfarfod Grŵp Craidd wedi'i drefnu neu ar fin digwydd.

3.11 Y Cynllun Amddiffyn Plant

Bydd gan bob plentyn sydd wedi'i gofrestru Gynllun Amddiffyn Plant rhyngasiantaethol wedi'i ysgrifennu'n unigol yn unol â'i anghenion unigol ef neu hi. Mae'r Gynhadledd Amddiffyn Plant gychwynnol yn cytuno ar y cynllun amlinellol ac mae'r Grŵp Craidd yn datblygu manylion y cynllun yn ei gyfarfod cyntaf. Yna caiff y cynllun ei ysgrifennu a'i ddosbarthu i bob aelod o'r Grŵp Craidd. Dylai teulu'r plentyn dderbyn copi o'r cynllun yn eu dewis iaith.

Nod y Cynllun Amddiffyn Plant yw:

- diogelu'r plentyn rhag niwed pellach;
- hybu iechyd a datblygiad y plentyn;
- cefnogi'r teulu ac aelodau ehangach y teulu i hybu lles y plentyn, os yw hyn er lles gorau'r plentyn.

Dylai'r Cynllun Amddiffyn Plant osod allan pa waith sydd angen ei wneud, pam, pryd a chan bwy.

Dylai'r cynllun wneud y canlynol:

- disgrifio anghenion y plentyn a nodwyd ac unrhyw wasanaethau therapiwtig sydd eu heisiau;
- cynnwys amcanion penodol, cyraeddadwy, plentyn-ganolog wedi'u bwriadu ar gyfer diogelu'r plentyn a hybu ei les ef neu hi, ynghyd ag amserlen ar gyfer cyrraedd yr amcanion hyn;
- gwneud yn glir y rhan sydd i gael ei chwarae gan rieni, y disgwyliadau y gallant yn gyfreithlon eu cael o asiantaethau a pha ddisgwyliadau y gall asiantaethau yn rhesymol eu cael ohonynt hwy;
- cynnwys strategaethau realistig a gweithredoedd penodol i gyflawni'r amcanion;
- enwi swyddogaethau a chyfrifoldebau gweithwyr proffesiynol ac aelodau o'r teulu yn glir, gan gynnwys natur a mynychder y cyswllt rhwng gweithwyr proffesiynol a'r plant ac aelodau o'r teulu;
- datgan pryd y bydd cynnydd yn cael ei adolygu a pha ddulliau fydd yn cael eu defnyddio i farnu'r cynnydd;
- gosod allan yn glir swyddogaethau a chyfrifoldebau'r gweithwyr proffesiynol hynny sydd â chyswllt arferol gyda'r plentyn yn ogystal ag unrhyw gefnogaeth arbenigol neu gefnogaeth sydd wedi'i thargedu at y plentyn a'r teulu.

NODIADAU

Blwch 15 • Canlyniadau gorau ar gyfer y plentyn

Dylid seilio penderfyniadau ar sut i ymyrryd, gan gynnwys pa wasanaethau i'w cynnig ar dystiolaeth o beth sy'n debyg o weithio orau i gael canlyniadau da ar gyfer y plentyn.

Blwch 16 • Cynnwys teulu'r plentyn

Dylai aelodau'r teulu fod yn glir ynghylch y cynllun hyd yn oed os nad ydynt yn cytuno gydag ef. Dylai rhieni fod yn glir ynghylch yr achosion pryder sydd wedi golygu bod enw'r plentyn wedi cael ei roi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, beth sydd angen ei newid a beth sy'n cael ei ddisgwyl wrthynt hwy fel rhan o'r cynllun i ddiogelu'r plentyn.

3.12 Y Gynhadledd Adolygu Amddiffyn Plant***3.12.1 Pwrpas y Gynhadledd Adolygu Amddiffyn Plant***

Bydd pob plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn destun adolygiadau rheolaidd a ddylai ystyried cynnwys unrhyw blant eraill yn y cartref.

Tasgau'r Gynhadledd Adolygu Amddiffyn Plant yw:

- adolygu diogelwch, iechyd a datblygiad y plentyn yn erbyn canlyniadau a fwriedir ac a osodwyd allan yn y Cynllun Amddiffyn Plant
- ystyried sut mae'r cynllun cyfredol wedi effeithio ar y pryderon canfyddedig
- sicrhau bod lles y plentyn yn parhau i gael ei ddiogelu'n ddigonol
- ystyried a yw'r cyd-drefniad rhyngasiantaethol yn gweithio'n effeithiol
- ystyried a ddylai'r Cynllun Amddiffyn Plant barhau yn ei le neu a ddylid ei newid
- ystyried aelodaeth y Grŵp Craidd
- ystyried a ddylai enw'r plentyn barhau neu gael ei symud o'r Gofrestr Amddiffyn Plant neu a ddylid newid categori'r cofrestrriad.

3.12.2 Cynllunio a rhedeg y Gynhadledd Adolygu Amddiffyn Plant

Dylid cynnal y Gynhadledd Adolygu Amddiffyn Plant gyntaf o fewn tri mis i'r Gynhadledd Amddiffyn Plant gychwynnol. Dylid cynnal adolygiadau pellach o leiaf bob chwe mis am gyhyd ag y mae enw'r plentyn yn parhau ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. Os oes newid arwyddocaol yn yr amgylchiadau, rhaid hysbysu'r rheolwr Gwasanaethau Cymdeithasol priodol a bydd ef neu hi wedyn yn penderfynu p'un a ddylid symud dyddiad yr adolygiad ymlaen. Dylai'r rheolwr fel arfer gytuno i unrhyw gais o'r fath oddi wrth asiantaeth arall gyda chefnogaeth uwch reolwr neu weithiwr proffesiynol wedi'i enwi neu ei ddynodi.

Dylai'r rhai sy'n cymryd rhan yn y gynhadledd gynnwys **holl** aelodau'r Grŵp Craidd, gan gynnwys aelodau o'r teulu a'r plentyn, ac unrhyw asiantaethau

Gweler adran 3.12
am fwy o wybodaeth
am y Gofrestr
Amddiffyn Plant.

NODIADAU

perthnasol eraill megis y rhai a oedd yn bresennol yn y Gynhadledd Amddiffyn Plant gychwynnol. Mae'r Gweithiwr Allweddol yn gyfrifol am sicrhau bod y bobl briodol yn cael eu gwahodd. Lle mae gweithwyr proffesiynol allweddol yn absennol o'r gynhadledd ac nad oes gwybodaeth ysgrifenedig ar gael, dylid ystyried gohirio'r gynhadledd. Bydd adolygiad wedyn yn cael ei ailgynnull fel eu bod yn gallu mynychu a bydd eu hasiantaeth hwy yn cael ei hysbysu yn ysgrifenedig o unrhyw fethiant i gydymffurfio.

Mae'r cworwm sy'n ofynnol ar gyfer mynychu yr un fath ag ar gyfer y Cynadleddau Amddiffyn Plant cychwynnol, hynny yw, lleiafswm o dair asiantaeth neu grwpiad proffesiynol, neu mewn amgylchiadau eithriadol ac ar ddisgresiwn Cadeirydd y gynhadledd, dwy asiantaeth neu grwpiad proffesiynol.

3.12.3 Gwneud penderfyniadau

Bydd y Gynhadledd Adolygu Amddiffyn Plant yn ystyried p'un a yw'r plentyn yn parhau i fod mewn perygl o niwed arwyddocaol ac felly p'un a ddylai ei enw barhau i fod ar y Gofrestr Amddiffyn Plant a dylai barhau i fod angen Cynllun Amddiffyn Plant ffurfiol i ddiogelu eu lles. Rhaid seilio penderfyniad y gynhadledd adolygu ar ddadansoddiad gofalus a thrylwyr o'r holl wybodaeth sydd ar gael, gan gynnwys yr adroddiadau ysgrifenedig a ddarparwyd gan y Grŵp Craidd, a thrafodaeth yn cynnwys holl aelodau'r gynhadledd.

Cyn penderfynu dadgofrestru, rhaid i aelodau'r gynhadledd gael eu bodloni nad yw'r niwed arwyddocaol neu'r perygl o niwed arwyddocaol yn bresennol mwyach neu nad yw mwyach ar lefel i warantu cofrestriad, ac nad yw'r plentyn mwyach angen Cynllun Amddiffyn Plant. Dylid rhoi a chofnodi rhesymau clir am y penderfyniad.

Dylai'r rhai sy'n cymryd rhan yn y gynhadledd seilio'u barn ar y canlynol:

- p'un a yw'r perygl o niwed wedi cael ei leihau drwy'r camau a gymerwyd drwy'r Cynllun Amddiffyn Plant;
- p'un a yw amgylchiadau'r plentyn a'r teulu wedi newid;
- p'un a yw ailasesiad o'r plentyn a'r teulu yn awgrymu nad oes angen Cynllun Amddiffyn Plant.

Swyddogaeth y Cadeirydd yw tynnu ynghyd farn aelodau'r gynhadledd. Dylai'r penderfyniad ynghylch dadgofrestru adlewyrchu barn consensws y gynhadledd adolygu. Lle na ellir cael consensws, dylai'r gynhadledd wneud penderfyniad ar sail mwyafrif. Mae barn rhieni a phlant yn bwysig i'r gynhadledd ond y gweithwyr proffesiynol sy'n gwneud y penderfyniad ynghylch y cofrestriad.

3.13 Y Gofrestr Amddiffyn Plant

3.13.1 Pwrpas y Gofrestr Amddiffyn Plant

Mae'r gofrestr yn rhestru plant mewn ardal awdurdod lleol sy'n cael eu hystyried i fod yn dioddef neu'n debygol o ddioddef niwed arwyddocaol ac sydd ar hyn o bryd yn destun Cynllun Amddiffyn Plant rhyngasiantaethol.

Pwrpas y gofrestr yw:

NODIADAU

- gwneud asiantaethau a gweithwyr proffesiynol yn ymwybodol o'r plant hynny sy'n cael eu barnu i fod yn parhau mewn perygl o niwed arwyddocaol ac sydd angen eu diogelu mewn modd gweithredol;
- darparu cofnod o'r holl blant yn yr ardal y mae pryderon amddiffyn plant heb eu datrys yn eu cylch ac sydd ar hyn o bryd yn destun Cynllun Amddiffyn Plant rhyngasiantaethol;
- sicrhau bod Cynlluniau Amddiffyn Plant yn cael eu hadolygu'n ffurfiol ymhen tri mis a bob chwe mis wedi hynny;
- darparu pwynt canolog ar gyfer ymholi cyflym gan weithwyr proffesiynol sy'n pryderu ynghylch plentyn ac sydd angen gwybod a yw ef/hi yn destun Cynllun Amddiffyn Plant rhyngasiantaethol;
- darparu gwybodaeth ystadegol ynghylch tueddiadau cyfredol yn yr ardal a chyfrannu at goladu ystadegau cenedlaethol ar amddiffyn plant.

3.13.2 Rheoli'r Gofrestr Amddiffyn Plant

Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweinyddu'r Gofrestr Amddiffyn Plant ar ran Pwyllgor Amddiffyn Plant y Rhanbarth. Ar ôl i blentyn gael ei gofrestru, cyfrifoldeb ceidwad y gofrestr yw sicrhau fod yr holl fanylion yn cael eu rhoi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. Rhaid i bob Pwyllgor Amddiffyn gael mecanwaith yn ei le i sicrhau fod ceidwad y gofrestr yn cael ei hysbysu am bob ychwanegiad neu newid i'r gofrestr. Dylid cadw'r gofrestr yn gyfoes a dylai'r cynnwys fod yn gyfrinachol ac eithrio i ymholwyr cyfreithlon.

Gellir rhoi enw plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn unig o ganlyniad i benderfyniad mewn Cynhadledd Amddiffyn Plant, ac eithrio yn achos plentyn ar gofrestr arall sy'n symud i mewn i'r rhanbarth. Yn yr achos hwn, bydd plentyn yn cael ei gofrestru ar unwaith a chaiff y cofrestriad ei adolygu yn y Gynhadledd Amddiffyn Plant gyntaf yn y rhanbarth newydd.

3.13.3 Ymholiadau i'r Gofrestr Amddiffyn Plant

Caiff hawl i weld y Gofrestr Amddiffyn Plant ei gyfyngu i weithwyr proffesiynol o asiantaethau sy'n cael eu cynrychioli ar y Pwyllgor Amddiffyn sydd ag angen i wybod. Cymerir camau i wirio pwy ydynt. Mae'n hanfodol fod yr heddlu a gweithwyr proffesiynol iechyd yn medru cael at y gofrestr y tu mewn a'r tu allan i oriau swyddfa. Os yw enw plentyn ar y gofrestr, rhoddir enw'r Gweithiwr Allweddol i'r ymholydd. Cyfrifoldeb yr ymholydd yw hysbysu'r Gweithiwr Allweddol o'r ymholiad. Cedwir cofnod o enwau'r plant y mae ymholiadau'n cael eu gwneud amdanynt.

Ni ddylid gweld ymholiadau i'r gofrestr fel dewis arall yn lle trafod y pryder yn briodol gyda Gwasanaethau Cymdeithasol fel rhan o gasglu tystiolaeth gefndir.

Os yw ymholiad yn cael ei wneud ynghylch plentyn o'r un cyfeiriad â phlentyn ar y gofrestr, dylai'r ceidwad sicrhau fod y wybodaeth hon yn cael ei phasio ymlaen at Weithiwr Allweddol y plentyn cofrestredig.

Os gwneir ymholiad ond nad yw enw'r plentyn ar y gofrestr dylid cofnodi hyn ynghyd â'r cyngor roddwyd i'r ymholydd. Os ceir ail ymholiad am blentyn nad

NODIADAU

Gweler 3.7.3.7.

yw ar y gofrestr:

- dylid dweud wrth yr ymholydd am yr ymholiad cynharach;
- dylid hysbysu'r ymholydd cyntaf am yr ymholiad diweddarach;
- dylai'r ceidwad gyfeirio'r plentyn at y Gwasanaethau Cymdeithasol fel plentyn a allai fod mewn angen.

3.13.4 Symudiadau plant ar y Gofrestr Amddiffyn plant a phlant sy'n destun i ymholiadau amddiffyn plant cyfredol

Dylai unrhyw un sy'n gweithio i gorff sy'n cael ei gynrychioli ar y Pwyllgor Amddiffyn hysbysu Gwasanaethau Cymdeithasol os ydynt yn dod yn ymwybodol bod teulu gyda phlentyn y mae ei enw ar Gofrestr Amddiffyn Plant yn symud i mewn neu allan o'r ardal. Dylai Gwasanaethau Cymdeithasol hysbysu pob asiantaeth arall sy'n gysylltiedig â'r achos, gan gynnwys ceidwad y gofrestr.

3.13.4.1 Lle bo Teulu yn symud allan o'r ardal

Os yw plentyn y mae ei enw ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn symud i gyfeiriad hysbys mewn ardal awdurdod lleol arall naill ai'n barhaol neu dros dro, cyfrifoldeb rheolwr y tîm yw sicrhau bod Gwasanaethau Cymdeithasol yr ardal newydd yn cael gwybod ar unwaith. Dylid gwneud hyn dros y ffôn, a rhaid ei gadarnhau'n ysgrifenedig o fewn 3 diwrnod gwaith, gan ddarparu gwybodaeth lawn, gan gynnwys hanes cymdeithasol, Asesiad Craidd a chofnodion o Gynadleddau Amddiffyn Plant perthnasol etc. Nid yw crynodeb yn ddigonol. Dylai'r rheolwr tîm ofyn am gydnabyddiaeth ysgrifenedig.

Bydd y Gweithiwr Allweddol yn rhoi gwybod i geidwad y gofrestr a fydd wedyn, yn ei dro, yn rhoi gwybod i geidwad yr ardal sy'n derbyn y teulu. Bydd enw'r plentyn yn cael ei gynnwys dros dro ar Gofrestr Amddiffyn Plant yr awdurdod sy'n derbyn. Lle bo'r plentyn a'r teulu wedi symud yn barhaol i ardal arall, dylai'r awdurdod lleol sy'n derbyn gynnwys Cynhadledd Amddiffyn Plant o fewn 15 diwrnod gwaith o gael ei hysbysu o'r symud. Bydd yr achos yn cael ei drosglwyddo yn y gynhadledd honno p'un a yw cofrestriad yn digwydd ai peidio. Dylai'r Gweithiwr Allweddol fod yn barod i fynychu, ynghyd ag aelodau o'r Grŵp Craidd lle bo hynny'n briodol. Dim ond ar ôl i'r Gynhadledd Amddiffyn Plant ddigwydd yn yr ardal newydd y gall enw'r plentyn gael ei gymryd oddi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn ardal yr awdurdod lleol gwreiddiol.

Dylai'r Gweithiwr Allweddol sy'n bod eisoes hysbysu asiantaethau perthnasol yr ardal y mae'r teulu wedi symud ohoni. Os yw'r symudiad yn hysbys ymlaen llaw, mae'r Gweithiwr Allweddol yn gyfrifol am hysbysu'r teulu y bydd gwybodaeth yn cael ei phasio ymlaen i'r awdurdod newydd.

Cyfrifoldeb y rheolwr tîm presennol fydd hysbysu ei Geidwad y Gofrestr am ganlyniad y gynhadledd yn ddi-oed.

NODIADAU

Gweler Adran
3.13.4.1.

Pan fo plentyn yn destun ymholiaadu amddiffyn plant cyfredol, rhaid i'r gweithiwr cymdeithasol hysbysu ei reolwr llinell yn syth a bod yn gyfrifol am hysbysu'r awdurdod newydd yn ysgrifenedig gan ddarparu dogfennaeth briodol. Rhaid i'r gweithiwr cymdeithasol hefyd hysbysu'r asiantaethau perthnasol yn yr awdurdod o lle mae'r teulu wedi symud. Os gwyddir am y symudiad o flaen llaw, bydd y gweithiwr cymdeithasol yn gyfrifol am hysbysu'r rhieni y gwneir cyfeiriad i'r awdurdod newydd. Dylid cynnal trafodaeth strategaeth i gynnwys yr awdurodd newydd, er mwyn sefydlu dyletswyddau a chyfrifoldebau. Dylid cofnodi'r drafodaeth yma.

3.13.4.2 Lle fo teulu yn symud mewn i'r ardal

Lle bo teulu yn symud i mewn i'r ardal (gan gynnwys i Loches i Ferched) a bod enw'r plentyn neu'r plant wedi'u cynnwys ar Gofrestr Amddiffyn Plant Pwyllgor Amddiffyn arall, dylai'r sawl sy'n derbyn y wybodaeth gyntaf hysbysu Ceidwad y Gofrestr yn yr ardal newydd. Dylai Ceidwad y Gofrestr hysbysu'r holl asiantaethau perthnasol eraill. Bydd Ceidwad y Gofrestr yn ychwanegu enw'r plentyn/plant dros dro i'r Gofrestr Amddiffyn Plant, tra'n disgwyl cynnull Cynhadledd Amddiffyn Plant gychwynnol.

Os daw hi'n glir y bydd y plentyn yn parhau yn yr ardal, caiff Cynhadledd Amddiffyn Plant gychwynnol ei galw o fewn 15 diwrnod gwaith. Yn ychwanegol at y bobl a fyddai fel arfer yn cael eu gwahodd, dylid gwahodd y Gweithiwr Allweddol ac aelodau perthnasol o'r Grŵp Craidd o'r ardal flaenorol i fynychu a dylent ddarparu adroddiad.

Yn dilyn y gynhadledd, bydd cyfrifoldeb dros yr achos yn trosglwyddo i'r awdurdod newydd beth bynnag fydd y penderfyniad ynghylch cofrestrriad.

Dylid hysbysu Ceidwad newydd y Gofrestr o ganlyniad y gynhadledd, er mwyn newid y cofnodion yn unol â hynny a chadarnhau yn ysgrifenedig, i Geidwad y Gofrestr yn yr awdurdod blaenorol, y gellir symud enw'r plentyn/plant oddi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant honno.

3.13.4.3 Symudiad teuluoedd gyda phlant mewn angen

Lle bynnag y bo teuluoedd gyda phlant mewn angen yn symud ar draws ffiniau daearyddol asiantaethau cyfrifol, bydd y gweithwyr proffesiynol perthnasol yn gwneud penderfyniad ynghylch hysbysu cydweithwyr yn yr ardal newydd. Byddai hyn fel arfer yn cael ei wneud gyda chydysyniad y teulu. Gellir ei wneud drwy drosglwyddo cofnodion yn ôl y drefn arferol neu drwy gyfeiriad penodol sy'n codi ystyriaethau neu bryderon arbennig.

NODIADAU

Blwch 17 • Cyfeiriadau penodol ynghylch plant mewn angen yn symud i ardaloedd eraill

Mae cyfeiriadau penodol yn bwysig er mwyn tynnu sylw'r asiantaethau sy'n derbyn lle ceir hanes o bryderon ynghylch plentyn neu blant, hyd yn oed os nad ydynt ar hyn o bryd ar y gofrestr. Mae angen i bawb sy'n gweithio gyda theulu feddwl yn ofalus a ddylai wneud cyfeiriad penodol ynghylch plentyn sy'n symud i ardal arall. Cofiwch yr ystyriaethau yn ymwneud â chydsyniad. Peidiwch â rhagdybio bod anghenion y plant yn cael eu diwallu, na chymryd yn ganiataol y bydd pryderon yn cael eu trin yn systematig. Nid yw hi byth yn ddiogel i gymryd fod asiantaethau eraill yn yr achos naill ai'n gwybod am y newid neu'n cymryd y camau priodol.

3.13.5 Dadgofrestru

Gall y rheolwr Gwasanaethau Cymdeithasol perthnasol gytuno ar y penderfyniad i ddadgofrestru, heb yr angen i gynnwll Cynhadledd Adolygu Amddiffyn Plant, yn unrhyw un o'r amgylchiadau canlynol:

- mae'r plentyn wedi cyrraedd 18 oed;
- mae'r plentyn wedi gadael y DU yn barhaol;
- mae'r plentyn wedi marw.

Ym mhob achos arall dim ond mewn Cynhadledd Adolygu Amddiffyn Plant y gellir gwneud y penderfyniad i ddadgofrestru.

Dylai rhieni bob amser gael eu hysbysu yn ysgrifenedig pan fydd enw'u plentyn wedi cael ei gymryd oddi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.

Ni ddylai dadgofrestru arwain yn awtomatig i wasanaethau ddod i ben, gan y gall fod angen cefnogaeth a gwasanaethau ychwanegol o hyd ar blentyn y mae ei enw wedi'i symud oddi ar y gofrestr. Dylai'r Gweithiwr Allweddol drafod gyda'r rhieni a'r plentyn pa wasanaethau sydd eu hangen a'u heisiau arnynt.

3.13.6 Plant sy'n derbyn gofal a chofrestrriad

Lle bo plant sy'n derbyn gofal hefyd yn destun Cynhadledd Adolygu Amddiffyn Plant, rhaid i'r ddwy system gael eu hintegreiddio'n llwyr. Mae hyn yn golygu y dylai adolygiad o gynllun gofal plentyn sy'n cael ei gynnal dan y System Plant yn Derbyn Gofal fod â'r holl wybodaeth ar gael iddo o'r adolygiad o'r Cynllun Amddiffyn Plant a gynhaliwyd dan y drefn amddiffyn plant. Dylid ystyried yn ofalus amseriad y ddau adolygiad yn ogystal â phwy ddylai gymryd rhan. Dylai'r ddau adolygiad fod yn brosesau rhyngasiantaethol.

Lle na all plentyn fyw gartref a bod ganddo gynllun gofal sy'n cyfarfod â'i anghenion gofal ac amddiffyn, dylai adolygiad fel arfer argymhell dadgofrestru.

3.14 Camau i'w cymryd pan fydd gweithiwr proffesiynol yn credu nad yw plentyn yn cael ei amddiffyn yn ddigonol

Os yw unrhyw weithiwr proffesiynol sy'n mynychu cynhadledd yn ystyried nad yw plentyn yn cael ei amddiffyn yn ddigonol, rhaid i hyn gael ei ddwyn i sylw ei reolwr llinell a gweithiwr proffesiynol amddiffyn plant dynodedig

NODIADAU

Gw. Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig CASS 18/19/2 'Non-accidental injury to children - disclosure of information by Social Security office staff' Gw. adran 3.13.4

Gweler adran 3.7.3.6. am fwy ar ymweliadau cartref aflwyddianus a hawl mynediad.

ar unwaith yn ogystal â rheolwr Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n gyfrifol am amddiffyn plant. Os nad ydynt ar gael, rhaid hysbysu'r rheolwr tîm gwaith cymdeithasol sy'n gyfrifol am yr achos.

Mae'n bosibl y gall asiantaeth ystyried fod angen gweithredu ar ei phen eu hun mewn rhai achosion. Mewn achosion eithriadol lle mae gweithiwr unigol neu asiantaeth yn mynnu gweithredu ar ei ben ei hun yn groes i farn y mwyaftrif yn y gynhadledd lle mae'r cynllun yn cael ei ffurfio neu yn groes i gynllun y cytunwyd arno, rhaid hysbysu'r Gweithiwr Allweddol a'r rheolwr tîm Gwasanaethau Cymdeithasol. Bydd y rheolwr tîm wedyn yn trafod y mater gyda'r uwch reolwr sy'n gyfrifol am amddiffyn plant a'r uwch reolwr perthnasol o'r asiantaeth berthnasol. Bydd unrhyw ystyriaethau o'r ymgynghoriad hwn yn cael eu dwyn i sylw Cadeirydd y Pwyllgor Amddiffyn. Bydd Cynhadledd Adolygu Amddiffyn Plant yn cael ei chynnull fel sy'n angenrheidiol.

3.15 Plant a theuluoedd sydd ar goll

Dylai pob gweithiwr proffesiynol hysbysu'r Gweithiwr Allweddol a'r heddlu ar unwaith, pe digwydd iddo ddod i'w sylw fod plentyn sydd â'i enw ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar goll. Bydd y Gweithiwr Allweddol yn ymgynghori gyda'r rheolwr tîm cyfrifol ac yn gwneud ymholiadau brys i geisio olrhain y plentyn.

Bydd y pwynt pryd y bydd teulu yn cael ei ystyried i fod "ar goll" yn dibynnu ar y ffeithiau sy'n hysbys am y teulu a difrifoldeb y sefyllfa. Y prif reswm dros geisio dod o hyd i deuluoedd fel hyn yw y gall y diflaniad fod yn arwydd fod camdriniaeth bellach wedi digwydd neu y gallai fod wedi digwydd. Er bod hyn yn berthnasol i blant ar y Gofrestr, gall hefyd fod yn berthnasol pan fo ymweliadau cartref aflwyddiannus i blant lle mae pryder am eu lles. Dylid gweithredu trefniadau lleol er mwyn sicrhau fod ymweliadau pellach yn digwydd i geisio dod o hyd i'r plentyn. Rhaid gweld y plentyn a thrafod y pryderon lles.

Dylai'r Gweithiwr Allweddol gydgysylltu'n agos gyda swyddfa ymchwilio'r heddlu i sicrhau nad yw ymdrechion yn cael eu dyblygu a bod yr holl ymholiadau yn cael eu cyd-drefnu a'u dogfennu. Dylai'r rheolwr tîm wedyn drafod y mater gyda'r cyd-drefnydd amddiffyn plant. Dylid ceisio cyngor cyfreithiol ar y cyfle cynharaf.

Dylid gofyn i nyrs ddynodedig yr ardal lle mae'r plentyn yn byw fel arfer a lle'r oedd wedi'i gofrestru gylchredeg manylion y plentyn coll yn unol â threfn yr awdurdod iechyd neu awdurdod etifeddol. Dylid cyfleu unrhyw ganlyniad yn deillio o hyn i'r Gweithiwr Allweddol.

Os yw pob ymdrech i olrhain y plentyn yn methu, gall y rheolwr priodol yn y Gwasanaethau Cymdeithasol ofyn cymorth gan y swyddfa Nawdd Cymdeithasol leol a gofyn iddynt wirio'u cofnodion hwy, ac os oes angen, rhai'r Ganolfan Budd-dal Plant.

Yn ychwanegol at hyn, dylai'r Gweithiwr Allweddol hysbysu ceidwad y Gofrestr Amddiffyn Plant a dylai'r ceidwad wedyn ystyried p'un a ddylai gylchredeg manylion y teulu sydd ar goll i bob Ceidwad Cofrestr Amddiffyn Plant drwy'r Wlad i gyd.

Pan ddeuir o hyd i'r teulu, dylid hysbysu'r Gweithiwr Allanol a bydd ef neu hi yn dilyn y Drefn ar gyfer Trosglwyddo Achosion ar y Gofrestr Amddiffyn Plant lle bo hynny'n briodol. Bydd y Gweithiwr Allanol hefyd yn sicrhau fod pob asiantaeth arall yn cael eu hysbysu yn ogystal â Cheidwad y Gofrestr.

NODIADAU

*Gw. Cylchlythyr y
Swyddfa Gymreig
CASS 18/19/2 'Non-
accidental injury to
children - disclosure
of information by
Social Security
office staff' Gw.
adran 3.13.4*

*Gweler adran
3.7.3.6. am fwy ar
ymweliadau cartref
aflwyddianus a
hawl mynediad.*

Blwch 18 • Sylwi pan fo teulu yn mynd ar goll

Gall cyfres o apwyntiadau wedi'u colli neu ymweliadau cartref aflwyddiannus fod yn arwydd fod y teulu wedi symud allan o'r ardal yn sydyn ac yn annisgwyl. Dylai unrhyw un sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd lle mae pryderon ynghylch amddiffyn plant yn dal (gan gynnwys lle mae'r pryderon am blentyn sydd heb ei eni ac a allai fod mewn perygl yn y dyfodol o niwed arwyddocaol) fod ar eu gwyliadwriaeth am hyn, a hysbysu'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r heddlu yn syth.

NODIADAU

Gw. adran 2.1.3 ar
sut i wneud
cyfeiriad.

4 • AMDDIFFYN PLANT MEWN AMGYLCHIADAU PENODOL

4.1 Rhagarweiniad

Mae’r canllawiau sy’n cael eu gosod allan yn yr adran hon yn **ychwanegu at** y canllawiau sy’n cael eu gosod allan yn Rhan 3 Trin Achosion, a dylid eu darllen ar y cyd gydag Rhan 3. Tra bo Rhan 3 yn gosod allan y fframwaith sylfaenol o gamau sydd i’w cymryd ym mhob amgylchiad pan fo gan unrhyw un bryderon am les plentyn, mae Rhan 4 yn delio gydag ystyriaethau ychwanegol neu arbennig neu bwyntiau o ran dull gweithredu. Gall unrhyw un achos fod yn berthnasol i un neu fwy o’r adrannau yn Rhan 4.

Mae llawer o’r adrannau yn cyfeirio at fodolaeth protocolau lleol. Bydd y rhain wedi cael eu datblygu’n lleol ar sail ryngasiantaethol yn unol â chanllawiau ymarfer perthnasol. Byddant yn gyson gyda’r gofynion sy’n cael eu gosod allan yn y canllawiau hyn a dylid eu darllen ar y cyd gyda’r canllawiau hyn.

4.2 Perygl o niwed yn y dyfodol i blentyn heb ei eni

4.2.1 Adnabod y perygl o niwed

Lle bo gan weithwyr proffesiynol bryderon am y perygl yn y dyfodol i blentyn sydd heb ei eni eto, rhaid cyfeirio’r achos at y gweithiwr cymdeithasol ar ddyletswydd.

Amgylchiadau pryd y byddai cyfeirio yn briodol yw lle:

- mae plant blaenorol yn y teulu wedi cael eu symud am eu bod wedi dioddef niwed;
- ceir pryderon ynghylch gallu’r naill riant neu’r llall i amddiffyn;
- ceir pryderon ynghylch gallu i fagu plant, yn enwedig lle mae gan rieni anawsterau dysgu sylweddol neu broblemau iechyd meddwl;
- credir bod camddefnyddio alcohol neu sylweddau yn effeithio ar iechyd baban heb ei eni, neu lle gall camddefnyddio alcohol neu sylweddau amharu’n sylweddol ar sgiliau magu plant;
- mae’r rhiant sy’n disgwyl yn ifanc iawn ac mae angen asesiad deuol o’i anghenion ef/hi yn ogystal â’i allu ef/hi i ddiwallu anghenion y baban;
- mae hanes blaenorol o seicosis ar ôl y geni;
- mae plant eraill yn y teulu â’u henwau wedi’u cynnwys ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ac felly â Chynlluniau Amddiffyn Plant;
- mae pryder ynghylch gallu’r rhieni newydd i fagu plant a chredir y gallai unrhyw blentyn yn y teulu ddioddef niwed arwyddocaol;
- mae’r fam/tad sy’n disgwyl wedi cam-drin neu mae honiad eu bod wedi cam-drin plentyn;
- mae gan y fam sy’n disgwyl bartner, neu mae mewn cyswllt â rhywun, sydd wedi cam-drin plentyn;

NODIADAU

Gw. adrannau 3.2 - 3.7

Gw. adran 3.8

Gw. adrannau 3.9, 3.10 a 3.11

Gw. adran 3.8.10

Gw. 'Gweithio gyda'n Gilydd' tudalen 70 ymlaen

- mae'n hysbys fod digwyddiadau o gam-drin teuluol wedi bod o fewn y berthynas;
- mae ffordd o fyw y fam sy'n disgwyl a/neu'r bobl y mae mewn cysylltiad â hwy o'r math y gall beri i'r plentyn fod mewn perygl pan gaiff ei eni.

4.2.2 Camau i'w cymryd

Bydd y gweithiwr cymdeithasol dynodedig yn gwneud ymholiadau cychwynnol ac yn dilyn y drefn a amlinellir yn Adran 3.

Rhoddir ystyriaeth wedyn i gynnull Cynhadledd Amddiffyn Plant gychwynnol cyn y geni i gynllunio gweithredu a gwasanaethau cydlynol er mwyn amddiffyn y plentyn pan gaiff ei eni. Rhaid i'r penderfyniad ynghylch p'un ai i gynnull Cynhadledd Amddiffyn Plant gychwynnol gael ei wneud yn unol â'r drefn a geir yn Rhan 3 Trin Achosion Unigol. Bydd gan y gynhadledd yr un statws a chaiff ei chynnal yn yr un dull ag unrhyw Gynhadledd Amddiffyn Plant gychwynnol arall.

Yn y Gynhadledd Amddiffyn Plant gychwynnol, bydd aelodau o'r gynhadledd yn rhannu gwybodaeth ac yn ystyried yr angen i roi'r plentyn ar y gofrestr pan gaiff ei eni. Os cytunir i'r cofrestriad, bydd y Gweithiwr Allweddol a benodir ynghyd ag aelodau'r Grŵp Craidd a enwir yn llunio Cynllun Amddiffyn Plant cyn y geni. Bydd angen i'r cynllun gynnwys asesiad cyn geni i sicrhau fod ymateb effeithiol wedi'i gynllunio yn cael ei wneud adeg y geni. Rhaid i nyrs a enwir hysbysu'r tîm geni o'r ymateb a gynlluniwyd.

Dylai'r Gynhadledd Amddiffyn Plant ddigwydd rhwng 16 ac 8 wythnos cyn y dyddiad y disgwylir y geni, er mwyn sicrhau ymateb effeithiol wedi'i gynllunio.

Gall y gynhadledd benderfynu gosod enw'r plentyn sydd heb ei eni ar y Gofrestr Amddiffyn Plant pan gaiff ei eni heb gynhadledd bellach. Rhaid gweithredu'r un meini prawf ar gyfer cofrestru ag ar gyfer unrhyw blentyn arall.

Blwch 19 • A fydd y plentyn yn blentyn mewn angen?

Drwy gydol yr ymholiadau cyntaf, yr Asesiad Cychwynnol, ymholiadau Adran 47 ac unrhyw Gynhadledd Amddiffyn Plant gychwynnol, mae'n bwysig ystyried p'un a fydd y plentyn, pan gaiff ei eni, angen cymorth neu gefnogaeth fel plentyn mewn angen hyd yn oed os nad yw pryderon ynghylch niwed arwyddocaol yn cael eu cadarnhau.

4.3 Ymchwilio i gamdriniaeth luosog neu wedi'i threfnu

4.3.1 Diffiniadau o gamdriniaeth luosog neu wedi'i threfnu

Camdriniaeth luosog neu wedi'i threfnu yw camdriniaeth yn cynnwys un neu fwy o gamdrinwyr a nifer o blant a phobl ifanc sy'n perthyn i'w gilydd neu heb fod yn perthyn sy'n cael eu cam-drin. Gall y camdrinwyr fod yn gweithredu gyda'i gilydd i gam-drin plant, neu yn gweithredu ar eu pen eu hunain, neu gallant fod yn defnyddio fframwaith sefydliadol, neu safle o awdurdod i recriwtio plant i'w cam-drin.

NODIADAU

Fel arfer bydd rhwydwaith cam-drin lluosog neu wedi'i drefnu wedi datblygu mecanweithiau soffistigedig i osgoi cael eu dal. Wrth dorri i mewn i rwydweithiau o'r fath bydd angen ystyried yn ofalus y peryglon sy'n gysylltiedig â:

- oedi ymchwilio wyneb yn wyneb er mwyn coladu tystiolaeth
- datgelu rhan fach o'r rhwydwaith ond nid y rhwydwaith cyfan, sy'n golygu y gall mwy o blant gael eu cam-drin ymhellach.

Wrth gynllunio'r ymateb, rhaid ystyried yr angen i'r ymchwilyr weithredu'n gyfrinachol o ystyried natur ddifrifol a graddfa eang bosibl y ffurf hon ar gam-drin.

Oherwydd yr ystyriaethau uchod, oblygiadau ymyraethau heb eu cynllunio a'r diddordeb posibl o du'r cyfryngau, rhaid i'r ymateb i gam-drin lluosog wedi'i drefnu gynnwys uwch reolwyr yn y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r heddlu o'r dechrau.

4.3.2 Camau i'w cymryd

Bydd pob ymchwiliad o gam-drin lluosog neu wedi'i drefnu yn wahanol yn ôl amgylchiadau pob sefyllfa a graddfa a chymhlethdod yr ymchwiliad.

Dylid dod ag unrhyw amheuaeth o gam-drin wedi'i drefnu i sylw'r uwch reolwr Gwasanaethau Cymdeithasol dynodedig neu uwch swyddog ditectif adran yr heddlu ar unwaith. Bydd y swyddogion hyn yn cydgysylltu ac yn cymryd cyfrifoldeb am roi'r drefn hon ar waith. Byddant hefyd yn cymryd cyfrifoldeb am hysbysu uwch reolwr perthnasol eu hasiantaeth yn ddi-oed. Dylai'r uwch swyddog priodol o asiantaethau perthnasol sydd â rhan yn y mater sicrhau fod adnoddau digonol yn cael eu rhyddhau a bod staff yn cael y gefnogaeth angenrheidiol.

Dylid rhoi tîm arbenigol o heddlu a gweithwyr cymdeithasol, wedi'u hyfforddi'n briodol, at ei gilydd yn ôl yr angen at ddibenion ymchwiliadau cymhleth i gam-drin mewn sefyllfaoedd preswyl.

Rhaid rheoli'r ymchwiliad ar lefel uwch briodol. Bydd hyn yn cael ei bennu drwy ystyried pa mor gymhleth ydyw a beth yw'r staff a'r adnoddau sy'n debyg o gael eu defnyddio. Dylid cymryd i ystyriaeth y posibilrwydd y gall maint a chymhlethdod y dasg gynyddu'n sylweddol dros amser wrth gymryd penderfyniadau cychwynnol ynghylch rheoli'r ymchwiliad.

Dylai rheolwyr sydd â rhan yn y mater sylweddoli a rhagweld y gall ymchwiliad ddod yn fwy eang nag a awgrymai'r honiadau cychwynnol.

4.3.3 Cyfarfod Strategaeth

Dylid cytuno ar ffurf ac amseriad yr ymchwiliad mewn trafodaeth strategaeth yn cynnwys staff o'r prif asiantaethau amddiffyn plant. Caiff y Cyfarfod Strategaeth ei gynnull gan Gwasanaethau Cymdeithasol ar y cyd gyda'r heddlu o fewn 2 ddiwrnod gwaith i dderbyn y cyfeiriad.

Bydd y Cyfarfod Strategaeth yn cynnwys staff uwch o'r Gwasanaethau Cymdeithasol, yr heddlu ac asiantaethau eraill fel sy'n briodol, cyfreithiwr yr

NODIADAU

awdurdod lleol ac unrhyw weithwyr proffesiynol eraill ar sail “angen i wybod”. Dylai pob asiantaeth nodi gweithwyr proffesiynol uwch a allai gymryd rhan yn yr ymchwiliad yn ôl y galw. Rhaid i’r cyfarfod gynnwys uwch reolwyr a chael ei gadeirio ar lefel uwch.

Bydd y Cyfarfod Strategaeth yn ystyried pob mater a restrir yn Rhan 3 Trin Achosion a hefyd gyfeirio at Ganllawiau’r Swyddfa Gartref sy’n ymwneud â chyfweliadau ymchwiliol gyda phlant. Bydd hefyd yn ymgymryd â’r canlynol:

- penodi un uwch swyddog yr un o’r Gwasanaethau Cymdeithasol a’r Heddlu i gyd-drefnu a rheoli’r ymchwiliad cyffredinol;
- ystyried yn gyntaf a oes unrhyw blant yn yr achos sydd angen eu diogelu’n weithredol a/neu gymorth therapiwtig, a sut gellid cyflawni hyn mewn ffordd sy’n gyson â chynnal ymchwiliadau troseddol;
- penodi tîm o’r heddlu a’r Gwasanaethau Cymdeithasol a/neu’r NSPCC;
- gosod allan yn glir swyddogaeth ac amcanion y tîm;
- cytuno ar gynllun ar y cyd ar gyfer yr ymchwiliad sy’n nodi swyddogaethau a thasgau’r staff yn yr achos a’r oblygiadau o ran adnoddau;
- cytuno ar amseriad unrhyw weithredu a’r canlyniadau posibl e.e. peidio â symud plant yn ystod oriau anghymdeithasol;
- cytuno ar linellau atebolrwydd a chyfathrebu;
- cytuno sut a chyda pwy y bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu a phwysleisio’r angen am gyfrinachedd;
- ystyried yn ofalus y penderfyniad ynghylch beth i rannu gyda rhieni a phryd. Fel arfer mae gan rieni yr hawl i gael y wybodaeth lawnaf bosibl ond yn yr amgylchiadau hyn mae’r penderfyniad yn fwy cymhleth;
- ceisio cyngor cyfreithiol a sicrhau y bydd gan yr ymchwiliad fynediad parhaus at gyngor cyfreithiol arbenigol;
- gwneud trefniadau i sicrhau y bydd cofnodion yn cael eu storio yn ddiogel;
- cytuno ar strategaeth ar gyfer delio gyda’r cyfryngau, er enghraifft bydd uwch reolwyr yn cytuno ar amseriad a chynnwys datganiadau i’r wasg a’r cyfryngau. Rhaid cymryd gofal arbennig ynghylch materion sy’n *sub judice* neu a all beri i’r dioddefwr neu’r teulu gael ei adnabod;
- cysylltu gydag awdurdodau lleol eraill os yw’r honiad yn croesi ffiniau awdurdodau, er mwyn sicrhau cydgynllunio a chysondeb;
- cytuno i gynnull Cynadleddau Amddiffyn Plant yn ôl y galw;
- cytuno ar amserlen ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol;
- cyfleu canlyniad y cyfarfod i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a’r Prif Gwnstabl.

NODIADAU

Gw. adran 3.7

*Gw. hefyd adran
4.4.4 a 4.5*

4.3.4 Cynllunio a rhedeg yr ymchwiliad

Dylai'r ymchwiliad ddilyn y canllawiau ar ymholiadau Adran 47 sydd i'w gweld yn Rhan 3 a dylai hefyd ddelio â'r ystyriaethau pwysig canlynol:

- Dylai'r Heddlu benodi Uwch Swyddog Ymchwiliol o radd a phrofiad priodol a dylai ystyried defnyddio Canllawiau Gweinyddol Safonol Ystafell Ddigwyddiad Mawr a System Ymchwiliadau Mawr Pwysig y Swyddfa Gartref.
- Dylid datblygu strategaeth gyfathrebu ar gyfer aelodau o'r awdurdod, staff, plant a theuluoedd, y cyfryngau ac Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.
- Dylid defnyddio cyfarfodydd ac adolygiadau cynllunio strategaeth reolaidd i ystyried sut mae'r ymchwiliad yn cael ei gynnal, beth yw'r camau nesaf a pha mor effeithiol yw'r gweithio ar y cyd.
- Dylid cytuno ar brotocolau ysgrifenedig clir rhwng yr Heddlu, y Gwasanaethau Cymdeithasol ac asiantaethau eraill o ran yr holl faterion gweithredu a pholisi allweddol gan gynnwys rhannu gwybodaeth.
- Dylid gwneud asesiad trylwyr o anghenion dioddefwyr, a darparu gwasanaethau i ddiwallu'r anghenion hynny. Mae'n ymarfer da i ddarparu gwasanaeth cynghori cyfrinachol ac annibynnol ar gyfer dioddefwyr a'u teuluoedd. Dylid cytuno ar ganllawiau gyda'r gwasanaethau cynghori a lles ar ddatgelu gwybodaeth, i atal tystiolaeth rhag cael ei llygru.
- Dylid darparu gofal a chefnogaeth ar gyfer y tîm ymchwilio gan y gall llawer o'r gwaith fod yn anodd ac yn drallodus.
- Lle mae staff neu ofalwyr maeth y Gwasanaethau Cymdeithasol ei hun neu swyddogion o'r heddlu yn cael eu hymchwilio, mae'n hanfodol sicrhau annibyniaeth a gwrthrychedd ar ran yr asiantaethau sy'n aelodau o'r tîm ymchwilio. Mae'n hanfodol sicrhau digon o bellter ac annibyniaeth oddi wrth y rhai sy'n cael eu hymchwilio, drwy, er enghraifft, ddefnyddio staff ymchwiliol o ardal arall.
- Mae'n hanfodol fod gan reolwyr y tîm ymchwiliol hyfforddiant ac arbenigedd mewn cynnal ymchwiliadau, prosesau cyfreithiol, achosion disgyblaeth, lles plant, proffiliau a dulliau camdrinwyr. Mae angen arbenigedd ar aelodau o'r tîm ymchwiliol mewn cynnal ymchwiliadau, prosesau amddiffyn plant, a lles plant a dylent fod yn ymrwymedig i weithio'n agos gyda'i gilydd.
- Dylai fod yna fecanwaith ar gyfer adnabod a gweithredu ar wersi a ddysgir o'r ymchwiliad wrth iddo fynd yn ei flaen.
- Wrth i'r ymchwiliad gau, dylai rheolwyr asesu sut cafodd ei redeg a nodi gwersi ar gyfer cynnal ymchwiliadau tebyg yn y dyfodol. Dylid rhannu'r rhain gyda'r Pwyllgorau Amddiffyn perthnasol.

NODIADAU

Blwch 20 • Lles y plentyn v. ymchwiliad troseddol

Weithiau, bydd angen penderfyniad ar p'un a ddylid gohirio gweithredu amddiffynnol er mwyn casglu rhagor o dystiolaeth yn erbyn camdrinwyr. Rhaid gofalu fodd bynnag, yn arbennig mewn ymchwiliadau graddfa fawr, i sicrhau nad yw staff yn canolbwyntio ar agweddau troseddol yr ymchwiliad ar draul yr ystyriaethau lles. **Yr ystyriaeth unigol bwysicaf yw diogelwch a lles y plentyn/plant. Eu hamddiffyn hwy ddylai fod y flaenoriaeth gyntaf bob amser, ond rhaid ystyried y wybodaeth, mewn achosion o gam-drin wedi'i drefnu, y bydd y perygl i blant yn cynyddu os bydd camdrinwyr yn osgoi cael eu dal.**

Lle mae plant i gael eu symud o'u cartrefi, cytunir ar amseriad y symud yn dilyn ymgynghori gyda'r holl weithwyr proffesiynol priodol, ac eithrio lle maent mewn perygl corfforol difrifol. Lles y plentyn neu'r plant unigol fydd yr ystyriaeth gyntaf.

4.4 Plant sy'n byw i ffwrdd o'u cartref

4.4.1 Amgylchiadau lle mae plant yn byw i ffwrdd o'u cartref

Ymhob sefyllfa lle ceir pryderon ynghylch lles plentyn ac mae hyn yn cynnwys plant sydd yn byw i ffwrdd o'u cartref, dylid defnyddio'r canllawiau amddiffyn plant lleol yn yr ardal ble mae'r plentyn wedi ei leoli neu ei ddarganfod.

Mae plant yn cael eu cyfrif fel rhai sy'n byw i ffwrdd o'u cartref yn yr amgylchiadau canlynol:

- Gofal maeth, yn cael ei ddarparu gan yr awdurdod lleol neu gan asiantaeth annibynnol;
- Maethu preifat;
- Gofal preswyl, yn cael ei ddarparu gan yr awdurdod lleol neu gan asiantaeth annibynnol;
- Unedau cadarn;
- Ysgolion preswyl, wedi'u darparu gan yr awdurdod lleol ac ysgolion annibynnol;
- Sefydliadau iechyd megis ysbytai;
- Carchardai a sefydliadau troseddwyr ifanc.

Lle caiff gwasanaethau eu comisiynu gan awdurdod lleol ond heb eu darparu'n uniongyrchol ganddynt, dylid delio yn eglur gyda mesurau diogelwch sylfaenol a dylid eu datgan yn glir mewn contractau gyda'r darparwr allanol.

4.4.2 Mesurau diogelwch hanfodol

Dylai pob sefyllfa lle mae plant yn byw i ffwrdd o'u cartref ddarparu'r un mesurau diogelwch sylfaenol yn erbyn camdriniaeth, yn seiliedig ar drefn sy'n

NODIADAU

hybu lles cyffredinol plant ac yn eu hamddiffyn rhag niwed o bob math, a'u trin gydag urddas a pharch. Mae'r mesurau diogelwch hyn yn cynnwys:

- bod y sefydliad yn agored i'r byd allanol ac i dderbyn rhai'n craffu arno o'r tu allan, gan gynnwys bod yn agored gyda theuluoedd a'r gymuned ehangach;
- bod staff a gofalcwyr maeth yn cael eu hyfforddi ym mhob agwedd o ddiogelu plant, yn effro i'r ffordd y mae plant yn fregus ac mewn perygl o gael eu niweidio, ac yn wybodus ynghylch sut i weithredu canllawiau amddiffyn plant;
- bod plant yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu ac mae eu hunan-barch yn cael ei hybu;
- bod plant yn medru mynd yn hawdd at oedolyn y maent yn ymddiried ynddo y tu allan i'r sefydliad, e.e. aelod o'r teulu, gweithiwr cymdeithasol y plentyn, ymwelydd annibynnol, eiriolwr plant. Dylai plant gael gwybod am y cymorth y gallent ei gael oddi wrth wasanaethau eiriolaeth annibynnol, mentoriaid allanol a Child Line;
- bod gan asiantaethau annibynnol ddulliau gweithredu clir a diamwys sydd yn unol â'r dulliau gweithredu hyn ac sydd wedi'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Amddiffyn lleol;
- bod y drefn gwyno yn glir, yn effeithiol, yn gyfeillgar i'r defnyddiwr ac yn hawdd i blant a phobl ifanc fynd ati, gan gynnwys y rhai anabl a'r rhai nad yw Saesneg yn iaith gyntaf iddynt;
- bod y canllawiau recriwtio a dewis trylwyr yn creu trothwy mynediad uchel er mwyn atal camdrinwyr;
- bod y canllawiau a systemau cefnogi clir er mwyn delio gyda mynegiant o bryder gan staff a gofalcwyr ynghylch staff neu ofalcwyr eraill;
- bod goruchwyliaeth a chefnogaeth eang, sy'n estyn i staff dros dro a gwirfoddolwyr;
- bod staff a gofalcwyr yn effro i'r peryglon sy'n wynebu plant yn yr amgylchedd allanol oddi wrth bobl sy'n barod i ecsbloetio breguster ychwanegol plant sy'n byw i ffwrdd o gartref;
- nad yw plant sy'n mynd ar goll o ofal yn cael eu dychwelyd i'w lleoliad yn awtomatig heb iddynt gael y cyfle yn gyntaf i siarad gyda rhywun sy'n annibynnol o'r sefyllfa, i geisio canfod pam aeth y plentyn neu'r person ifanc ar goll.

Mae pob gweithiwr yn gyfrifol am godi pryderon ynghylch ymarfer, yn enwedig pan fo'r pryderon hyn yn ymwneud â lles plant. Dylai cyrff fod â Chod Ymddygiad yn ei le yn dweud wrth staff am eu dyletswydd broffesiynol i godi pryderon cyfreithlon ynghylch ymddygiad cydweithwyr neu reolwyr. Dylai'r Cyfarwyddwr gadw cofrestr ganolog am unrhyw bryderon sy'n cael eu codi fel rhan o'r drefn chwythu'r chwibanogl.

4.4.3 Honiadau o staff mewn cartrefi preswyl yn cam-drin plant

Os yw aelod o staff yn cael ei amau o gam-drin plentyn, dylid dilyn y canllawiau

NODIADAU

ar gyfer honiadau yn erbyn gweithwyr proffesiynol. Gall hyn olygu y bydd llwybrau eraill yn cael eu dilyn, h.y. y drefn ddisgyblu neu erlyniad troseddol. **Fodd bynnag, y drefn amddiffyn plant fydd yn cael y flaenoriaeth bob amser.**

Wrth ymchwilio i honiadau o gam-drin plant mewn sefyllfaoedd preswyl, rhaid ystyried yn ddifrifol bob amser y posibilrwydd y gall plant eraill sy'n byw yno fod wedi cael eu cam-drin hefyd.

Rhaid i'r rhai sy'n ymchwilio fod yn gwbl ymwybodol o'r canllawiau ar gyfer delio gyda **cham-drin wedi'i drefnu**, a chyn gynted â bod yna reswm dros amau hynny, rhaid iddynt eu gweithredu.

Rhaid adrodd pryderon ynghylch lles plentyn sy'n byw mewn cartref preswyl i bennaeth y cartref, neu ei ddirprwy yn ei absenoldeb ef neu hi. Rhaid iddo ef neu hi gysylltu'n brydlon gyda'r rheolwr Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n gyfrifol am amddiffyn plant yn yr ardal lle mae'r sefydliad wedi'i leoli neu gyda'r heddlu, a rhaid iddo ddilyn unrhyw ganllawiau eraill yn nhrefn yr asiantaeth ei hun. Bydd pennaeth y cartref yn hysbysu'r cyfeiriwr o'r camau y mae ef neu hi wedi'u cymryd.

Os yw'r cyfeiriwr

- yn anfodlon gyda'r camau mae pennaeth y cartref wedi'u cymryd *neu*
- yn methu trafod pryderon gyda phennaeth y cartref *neu*
- yn amau fod pennaeth y cartref yn rhan o'r cam-drin neu yn cyd-dwylo yn yr achos

yna dylai ef neu hi drafod y pryderon gyda chydgyssylltydd amddiffyn plant neu uwch reolwr arall sy'n gyfrifol am amddiffyn plant yn ardal yr awdurdod lleol lle lleolir y sefydliad neu gyda'r heddlu lleol.

Lle caiff y cartref preswyl ei reoli gan neu ar ran yr awdurdod lleol:

- dylai rhywun annibynnol fod â rhan yn yr ymchwiliad o'r dechrau *a*
- ni ddylai'r person sy'n rheoli'r ymchwiliad fod â chyfrifoldeb rheolaeth linell am y sefydliad.

Dylid trafod y camau dilynol yn y Cyfarfod Strategaeth, yn ychwanegol at y rhai sy'n safonol ar gyfer pob Cyfarfod Strategaeth:

- Gwasanaethau Cymdeithasol i hysbysu rhieni'r plentyn yn gynnwys o fanylion yr holiad a'r drefn fydd yn cael ei dilyn;
- cynnig eiriolwr annibynnol (e.e. gwasanaeth hawliau plant neu wasanaeth eiriolaeth) i'r plentyn;
- unrhyw gamau sydd eu hangen i ofalu am ddiogelwch a lles y plentyn sy'n gwneud y cyfeirio/ y plentyn sy'n destun yr honiad a hefyd pob plentyn yn yr uned breswyl;
- trosglwyddo'r plentyn i leoliad arall, ond dim ond os yw hyn er pennaf les y plentyn;
- oedi unrhyw leoliadau pellach yn y cartref nes bo'r ymchwiliad amddiffyn

NODIADAU

*Gw. Rheoliad 7
Rheoliadau
Lleoliadau Maeth
(Plant) 1991 am fwy
ar ddyletswyddau'r
awdurdod lleol.*

plant wedi cael ei gwblhau a Chyfarfod Strategaeth wedi cael ei gynnal;

- yr angen posibl am achos disgyblu yn erbyn aelod o staff, hyd yn oed lle nad oes tystiolaeth ddigonol ar gyfer erlyn.

Yn ychwanegol at hyn, mewn achosion o gam-drin honedig mewn ysgolion annibynnol, dylai uwch reolwr yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n gyfrifol am amddiffyn plant hysbysu Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Chofrestrydd yr Ysgolion Annibynnol yn gynnar yn yr achos.

Dylid hysbysu'r Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol lle mae'r honiad yn ymwneud ag **unrhyw** sefydliad annibynnol.

4.4.4 Honiadau o gam-drin yn erbyn gofalydd maeth

4.4.4.1 Adnabod y perygl o niwed

Mae'r adran hon yn ymwneud â lleoliadau maeth awdurdod lleol, y rhai sy'n cael eu darparu gan asiantaethau gofal maeth annibynnol, ac i leoliadau sy'n cael eu trefnu gan gyrff gwirfoddol.

Yn aml, plant mewn gofal maeth yw'r rhai mwyaf bregus ac archolledig mewn cymdeithas. Bydd eu cefndir, eu hymddygiad ac amgylchiadau eu lleoli yn golygu fod yn rhaid i'r rhai sy'n gyfrifol am eu gofal a'u lles gymryd sylw manwl o'r hyn maent yn ei glywed a'i weld, a sicrhau fod pob pryder yn cael ei ymchwilio yn llawn ac yn drylwyr. Gall y ffaith fod gofal maeth yn digwydd yn amgylchiadau preifat cartrefi'r gofalwyr eu hun ei gwneud hi'n fwy anodd adnabod sefyllfaoedd camdriniol ac i'r plant gael hyd i lais y tu allan i'r teulu.

Rhaid i'r Gwasanaethau Cymdeithasol beidio â gadael i leoliad plentyn gyda gofalwr maeth arbennig barhau os yw'n ymddangos nad y lleoliad yw'r ffordd fwyaf addas mwyach o gyflawni eu dyletswydd i'r plentyn; mewn rhai achosion dylid symud y plentyn ar unwaith.

Mae gan y Gwasanaethau Cymdeithasol ddyletswyddau hefyd ynghylch plant nad ydynt yn derbyn gofal ganddynt hwy y mae mudiad gwirfoddol yn eu lleoli gyda gofalwyr maeth. Os yw'r awdurdod lleol yn ystyried fod y trefniadau yn anfodddhaol, mae'n rhaid iddynt drefnu gofal arall ar gyfer y plentyn. Mae gan fudiadau gwirfoddol gyfrifoldebau tebyg ynghylch plant y maent wedi'u lleoli.

Gellir cymryd penderfyniad i symud plentyn o leoliad maeth heb orchymyn llys, a gellir ei ddefnyddio, mewn amgylchiadau priodol, i amddiffyn plentyn rhag niwed arwyddocaol, yn dilyn ymchwiliad dan y canllawiau hyn. *Mae'n bwysig sicrhau fod y plentyn yn cael ei drin yr un fath â phlentyn yn ei gartref ei hun.* Rhaid ystyried dymuniadau a theimladau'r plentyn ar bob cam.

Bydd y canllawiau amddiffyn plant safonol yn cael eu defnyddio gyda phlant mewn gofal maeth, gan ddefnyddio'r un trothwy pryder ag ar gyfer plant eraill. Bydd anfodlonrwydd a phryderon eraill ynghylch lleoliad maeth, h.y. rhaid nad ydynt yn rhoi cychwyn ar y drefn amddiffyn plant, yn cael eu trin o dan drefn gwynion yr awdurdod lleol.

Nid ddylai unrhyw un sydd wedi bod â rhan yn y gwaith o gymeradwyo'r gofalwyr maeth neu sydd â chyfrifoldebau gweithredol am y gwasanaeth lleoli

NODIADAU

teuluoedd/maethu yn y rhanbarth ymgymryd ag ymchwiliadau dan y canllawiau hyn. Fodd bynnag, bydd y personau hyn yn darparu gwybodaeth a gallant roi cefnogaeth i'r gofalwyr maeth, er y dylid bob amser ystyried yr angen i ganfod ffynonellau o gefnogaeth y tu allan i'r awdurdod.

Mae'n rhaid i weithwyr cymdeithasol weld plant sydd mewn gofal maeth ar eu pen eu hun am ran o'r ymweliadau, a dylid cofnodi tystiolaeth o hyn. Mae'n debyg y bydd gan weithiwr cymdeithasol y plentyn gyfraniad pwysig i'w wneud fel cyfrannwr i'r ymchwiliad ac fel cefnogaeth i'r plentyn. Rhaid i swyddogaeth y gweithiwr cymdeithasol felly gael ei nodi'n ofalus yn y cam strategaeth/cynllunio er mwyn lleihau unrhyw wrthdaro posibl rhwng ei swyddogaethau. Ni ddylid gofyn i'r un person roi cefnogaeth i'r plentyn ac i'r gofalwyr maeth.

Rhaid cyfeirio unrhyw honiad o gam-drin neu gam-drin honedig yn ymwneud â gofalydd maeth neu unrhyw aelod o deulu'r gofalydd maeth i reolwr y tîm sydd â chyfrifoldeb dros amddiffyn plant y rhanbarth. Bydd y rheolwr tîm yn hysbysu'r cyd-drefnydd amddiffyn plant am y cyfeirio, a byddant wedyn yn penderfynu rhyngddynt pwy fydd yn cynnal trafodaeth strategol gyda'r heddlu. Bydd y rheolwr tîm yn hysbysu'r cyfeiriwr a/neu'r plentyn a'r rhiant fel sy'n briodol o ganlyniad y cyfeirio.

Bydd y cyfeiriad yn cael ei drin yn ôl y drefn a nodir yn Rhan 3, gyda'r camau ychwanegol canlynol:

- bydd y person sy'n derbyn y cyfeiriad yn hysbysu rheolwr y tîm gwaith cymdeithasol sy'n gweithio gyda'r plentyn dan sylw, ac yn hysbysu rheolwr y gwasanaeth gofal maeth, awdurdodau/adrannau eraill sy'n defnyddio'r lleoliad a'r asiantaeth gofal maeth annibynnol, lle bo'n berthnasol;
- dylid cymryd unrhyw gamau sydd eu hangen ar unwaith i sicrhau fod pob plentyn yn y cartref yn cael eu hamddiffyn;
- dylid cynnull Cyfarfod Strategaeth cyn gynted ag y bo modd, ond o fewn dau ddiwrnod gwaith fan bellaf, i gael ei gadeirio ar lefel uchel.

4.4.4.2 Y Cyfarfod Strategaeth

Yn y Cyfarfod Strategaeth, bydd peryglon posibl i unrhyw blant eraill sydd yn y cartref yn awr neu a fu yno o'r blaen yn cael ei werthuso. Dylai'r canlynol fynychu'r Cyfarfod Strategaeth:

- uwch reolwr gweithredol
- y rheolwr sy'n gyfrifol am faethu
- y cyd-drefnydd amddiffyn plant
- y gweithiwr cymdeithasol ar gyfer y plentyn a'r rheolwr tîm
- gweithiwr cymdeithasol y gofalwyr maeth
- cynrychiolydd o'r heddlu
- cynrychiolydd cyfreithiol dros yr awdurdod
- asiantaethau perthnasol eraill

NODIADAU

- y person sydd â manylion y cyfeiriad.

Dylai tasgau'r Cyfarfod Strategaeth gynnwys y canlynol, yn ychwanegol at dasgau pob Cyfarfod Strategaeth:

- Ystyried diogelwch ac anghenion **pob** plentyn yn y lleoliad.
- Ystyried pob plentyn yn unigol a gwneud argymhellion ynghylch a ddylai'r plentyn/plant maeth aros gyda'r gofalwyr maeth tra'n disgwyl ymholiadau Adran 47. Dylid ystyried lles a diogelwch y plentyn yn ogystal â'i ddymuniadau.
- Cynllunio dulliau diogelu eraill, os yw'r plentyn i aros yn y lleoliad maeth tra bo ymholiadau'n digwydd.
- Ceisio cymeradwyaeth uwch reolwr i'r plant aros yn y lleoliad.
- Penodi eiriolwr ar gyfer y plentyn neu'r plant, a ddylai fod yn weithiwr cymdeithasol, aelod o'r teulu neu berson annibynnol. Mae budd arbennig o gael eiriolwr annibynnol a all gynrychioli'r plentyn ym mhob cam yn y broses. Fodd bynnag, ni fyddai'r eiriolwr fel arfer yn rhan o Gyfarfod Strategaeth oni bai fod ganddo wybodaeth i'w rhannu.
- Ystyried sefyllfa plant y gofalwyr maeth eu hun.
- Canfod pob plentyn a leolwyd yno o'r blaen a ph'un a allai fod yna ystyriaethau yn ymwneud â hwy.
- Adnabod pa wybodaeth i'w rhoi i'r gofalwyr maeth, pryd a gan bwy, ynghylch yr honiad a'r ymholiadau Adran 47. Cadeirydd y Cyfarfod Strategaeth i gadarnhau'r wybodaeth yn ysgrifenedig i'r gofalwyr maeth.
- Adnabod pwy fydd yn cynnal y gofalwyr maeth yn ystod yr ymchwiliad a sut fyddant yn derbyn gwybodaeth. Os bydd aelod o staff yn cael y swyddogaeth hon gan y Cyfarfod Strategaeth, rhaid i'w statws gael ei wneud yn glir i bawb er mwyn osgoi dryswch.
- Gwneud trefniadau i hysbysu'r gofalwyr maeth na fydd lleoliadau eraill yn digwydd yn ystod yr ymchwiliad.
- Penderfynu pa wybodaeth ddylai gael ei rhannu gyda rhieni'r plentyn ynghylch pwy mae pryderon, a gan bwy. Dylai'r rhiant/rhieni'r plentyn dderbyn gwybodaeth yn gynnar ynghylch yr honiad ac o'r drefn i'w dilyn, a dylent gael cynnig cefnogaeth ac eiriolaeth. Cadeirydd y Cyfarfod Strategaeth i gadarnhau hyn yn ysgrifenedig i'r rhieni. Dylid ystyried yn ofalus datgelu gwybodaeth i rieni plant eraill yn y lleoliad, yn enwedig pan bo rhaid symud plentyn ar sail honiad.
- Trefnu i ofalwyr maeth wirio a rhoi sylwadau ar y wybodaeth ffeithiol sydd wedi'i chyflwyno.
- Penodi cyd-drefnydd achos fydd yn derbyn yr holl wybodaeth ar ganlyniad yr ymholiadau amddiffyn plant a gweithredoedd yr heddlu.
- Bydd cofnod llawn o'r cyfarfod yn cael ei wneud, gan gynnwys rhesymau am beidio cymryd camau pellach.

NODIADAU

4.4.4.3 Y gofalwyr maeth

Dylai'r sawl sy'n cefnogi'r gofalwyr maeth wneud yn siwr eu bod yn:

- deall y pryderon sy'n cael eu mynegi;
- gwybod y canllawiau/protocolau sy'n cael eu gweithredu;
- gwybod yr amserlen ar gyfer y broses;
- yn cael ar ddeall pa gefnogaeth sydd ar gael iddynt a sut mae cysylltu â'r National Foster Care Association;
- yn derbyn gwybodaeth glir am ganlyniad unrhyw ymchwiliad;
- gwybod os yw'r honiad yn arwain at achos llys, bod modd galw tystion, gan gynnwys gweithwyr cefnogi, i roi tystiolaeth.

4.4.4.4 Wedi'r ymchwiliadau Adran 47

Rhaid cynnal Adolygiad Canlyniadau Ymchwiliad/Cyfarfod Strategaeth wedi cwblhau'r ymchwiliad i benderfynu'r hyn sydd i ddigwydd nesaf.

Dylai pawb oedd â rhan yn y Cyfarfod Strategaeth cychwynnol, gan gynnwys unrhyw un arall oedd yn uniongyrchol gysylltiedig â'r ymchwiliad, fynychu'r cyfarfod hwn, ynghyd ag eiriolwr y plentyn.

Bydd y cyfarfod yn cael ei alw gan y cyd-drefnydd penodedig a fydd yn cyflawni'r tasgau canlynol:

- gwerthuso'r wybodaeth/canfyddiadau a gasglwyd yn ystod yr ymchwiliad a phenderfynu p'un ai i alw Cyfarfod Amddiffyn Plant ar y plant maeth a/neu unrhyw blant sydd gan y gofalwyr maeth eu hunain;
- penderfynu, ar sail tebygolrwydd, p'un a oes sail i'r honiadau,
- penderfynu â oes angen gweithredu pellach yn sgil y wybodaeth gasglwyd, e.e. diogelu'r plant,
- ystyried pa wybodaeth am y canlyniad i'w rhoi i'r sawl sydd wedi'u heffeithio, p'un ai oes sail ai peidio;
- sicrhau bod cefnogaeth ar gael lle mae ei angen.

O fewn pum diwrnod o'r cyfarfod hwn, dylai'r gofalwyr dderbyn datganiad ysgrifenedig gan Gadeirydd y Cyfarfod Strategaeth yn rhoi manylion am:

- natur yr honiad
- canlyniad yr ymchwiliad
- penderfyniadau'r Cyfarfod Strategaeth.

Os yw Cynhadledd Amddiffyn Plant yn cael ei galw, dylid fel rheol wahodd y gofalwyr maeth i'w mynychu. Bydd maint eu hymwneud â'r gynhadledd yn ddibynnol ar farn Cadeirydd y gynhadledd, yn sgil ymgynghoriad â'r plentyn a gweithwyr proffesiynol eraill yn y cyfarfod.

Yn sgil ymchwiliad, neu ddigwyddiad arwyddocaol neu gŵyn, dylid bob amser adolygu statws cymeradwyaeth y gofalwyr maeth, beth bynnag fydd y canlyniad. Dylid cofnodi'r honiad a chanlyniad yr ymchwiliad ar ffeil y gofalwyr maeth.

NODIADAU

Pan na fydd modd cadarnhau neu wrthbrofi honiad, bydd yn rhaid i'r Gwasanaethau Cymdeithasol benderfynu p'un ai yw'r gymeradwyaeth i barhau, neu a oes angen mesurau diogelwch, hyfforddiant neu fonitro pellach.

Rhaid rhestru gofalcwyr maeth sydd wedi'u tynnu oddi ar gofrestrï lleol o ganlyniad i honiadau, p'un ai ydynt wedi eu cadarnhau neu beidio, ar Fynegai Ymgynghori'r Adran Iechyd sy'n cael ei gadw gan y Biwro Cofnodion Troseddol.

4.5 Honiadau o gam-drin yn erbyn gweithiwr proffesiynol, aelod o staff neu wirfoddolwr sydd â chyswllt â phlant

4.5.1 Ymateb i gyfeiriad am gamdriniaeth broffesiynol

Mae'r adran hon yn berthnasol i holl staff sy'n cael eu cyflogi gan, neu wirfoddolwyr sy'n cael eu defnyddio neu wedi eu hachredu gan unrhyw asiantaeth gyhoeddus, wirfoddol neu breifat, sydd a'u gwaith yn dod â hwy i gysylltiad â phlant. Mae'r adran hon hefyd yn berthnasol i weithwyr proffesiynol sy'n cam-drin yn eu bywyd preifat, ac o dan amgylchiadau o'r fath, mae angen ystyriaeth fanwl ar p'un ai yw'r gweithiwr yn debygol o achosi perygl mewn cyd-destun proffesiynol

Rhaid cymryd pob honiad o gam-drin plant gan weithiwr proffesiynol, aelod o staff, neu wirfoddolwr o ddifrif a'i drin yn unol â chanllawiau'r Pwyllgor Amddiffyn lleol â'r *Practice Guide to Investigating Allegations of Abuse against a Professional or Carer in relation to Children Looked After* (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Chwefror 2000).

Rhaid i gyrff y tu allan i'r Pwyllgor Amddiffyn sy'n darparu gwasanaethau i blant (gan gynnwys gofal dydd, hamdden, eglwysi, llefydd eraill o addoliad â chyrff gwirfoddol) ddarparu trefn i drin honiadau o'r fath sy'n cyd-fynd â'r canllaw hwn ac â chanllawiau'r Pwyllgor Amddiffyn.

Rhaid i honiadau ac amheuan o gamdriniaeth broffesiynol gael eu cyfeirio ar Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r heddlu. Dylai gweithiwr cymdeithasol neu swyddog o'r heddlu sy'n derbyn y cyfeiriad ei adrodd i'r cyd-drefnydd amddiffyn plant neu, yn ei absenoldeb, uwch swyddog yn y Gwasanaethau Cymdeithasol. Bydd y cyd-drefnydd amddiffyn plant yn hysbysu rheolwyr uwch o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol, ystyried y cyfeiriad a chyd-drefnu ymateb. Bydd hyn yn cynnwys:

- hysbysu'r uwch swyddog perthnasol yn yr asiantaeth gyflogi;
- trafod y cyfeiriad gyda'r heddlu.

Lle mae cyd-drefnydd amddiffyn plant â'r heddlu'n cytuno fod angen Cyfarfod Strategaeth, byd y cyd-drefnydd amddiffyn plant yn:

- galw Cyfarfod Strategaeth o fewn 48 awr o'r cyfeiriad;
- sicrhau fod y casglu gwybodaeth cychwynnol yn digwydd cyn y Cyfarfod Strategaeth.

NODIADAU

Dylai'r cyd-drefnydd amddiffyn plant ystyried, gyda'r heddlu, p'un ai oes angen atal yr aelod o staff o'i gwaith yn syth er mwyn diogelu'r plentyn/plant. Os yw hyn yn cael ei ystyried yn angenrheidiol, dylai'r uwch reolwr perthnasol yn yr asiantaeth sy'n cyflogi gael ei hysbysu'n ddi-oed.

Dylai'r cyd-drefnydd amddiffyn plant benderfynu pa asiantaethau ddylai gael eu gwahodd i'r Cyfarfod Strategaeth.. Dylai'r rhai sy'n cael eu gwahodd i'r Cyfarfod Strategaeth gael eu hatgoffa am yr angen i'r ymchwiliadau ddigwydd mewn cyfrinachedd llwyr.

Yr heddlu â'r Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n gyfrifol am unrhyw ymchwiliad.

Yn dilyn gweithrediad *Deddf Safonau Gofal 2000* yn Ebrill 2002, rhaid rhoi ystyriaeth i wahodd y rheolydd i'r Cyfarfod Strategaeth.

Ym mhob achos lle ceir honiad o gam-drin, dylai'r Gwasanaethau Cymdeithasol hysbysu rhieni/gofalwyr yn gynnar o fanylion yr honiadau a'r drefn i'w dilyn oni bai y byddai hynny'n achosi perygl pellach i'r plentyn, neu beryglu unrhyw ymchwiliad.

4.5.2 Gwybodaeth i aelodau o staff

Cyn gynted ag y bo modd, wedi ymgynghori gyda'r heddlu, ac yn amodol ar nad yw'n rhagfarnu'r ymchwiliad troseddol, dylai'r aelod o staff gael ei hysbysu gan ei reolwr llinell ar lafar ac yn ysgrifenedig bod honiad o gam-drin wedi'i wneud. Er hynny, ni ddylid trafod yr honiadau â dylid osgoi cwestiynu uniongyrchol os yw'r heddlu'n dymuno cyfweld yr aelod o staff.

Dylid dweud wrth yr aelod o staff y bydd yr ymchwiliad yn digwydd yn unol â'r canllawiau amddiffyn plant, â bod ganddynt yr hawl i gael cwmni cyfaill, aelod enwebedig o undeb llafur neu gyfreithiwr, ac i dderbyn cofnodion o gyfarfodydd o'r fath.

Rhaid dweud wrth yr aelod staff y bydd yr ymholiadau/archwiliad amddiffyn plant, cyn belled ag y bo modd, yn gyfrinachol, ond efallai y bydd gwybodaeth fydd wedi ei gasglu ac sy'n berthnasol i drefn disgyblu neu achos cyfreithiol yn cael ei ddatgelu i'r pwrpasau hynny.

Ar ddiwedd yr ymchwiliad amddiffyn plant (neu gynhadledd), bydd yr aelod o staff yn derbyn datganiad ysgrifenedig o'r honiad, ynghyd â chasgliadau'r ymchwiliad.

Lle bydd unrhyw aelod o staff yn anfodlon gyda'r ymholiadau/ymchwiliad, neu gasgliadau eu hasiantaeth eu hun, dylent gael gwybod am drefniadau cwyno neu apêl a all fod yn berthnasol.

4.5.3 Cyfarfod Strategaeth

Blaenoriaethau cyntaf y Cyfarfod Strategaeth yw sicrhau bod y plentyn neu'r plant yn cael eu hamddiffyn a'u diogelu, a chynllunio pa gamau i'w cymryd mewn perthynas â'r aelod o staff. Dylai'r Cyfarfod Strategaeth ddilyn y canllawiau arferol, gan ychwanegu'r pwyntiau canlynol:

NODIADAU

- dylai'r Cyfarfod Strategaeth ddigwydd o fewn 48 awr i'r cyfeirio. Os nad oes modd ei gynnwys yn yr amser hwn, dylai cofnodion y cyfarfod gynnwys y rhesymau am yr oedi;
- dylai'r Cyfarfod Strategaeth gael ei gadeirio ar lefel uwch;
- dylai'r Cyfarfod Strategol ystyried yr angen am wrandawriad disgyblaethol, e.e. mi all fod yn bosibl bod angen gofyn i'r cyflogwr atal yr unigolyn sy'n cael ei amau o gam-drin o'i waith. Ni ddylai ymchwiliad gan gyflogwr ddechrau heb yn wybod i'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r heddlu.

Pan fo'r honiad yn berthnasol i aelod o staff y Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r heddlu, rhaid ystyried cyflwyno elfen annibynnol i'r ymholiadau.

Mae'n bosib y bydd angen cynnal Cyfarfodydd Strategaeth dilynol pellach, yn arbennig lle mae'r ymholiadau'n awgrymu cam-drin eang neu ystyriaethau cymhleth. Gall yr holl broses gymryd rhai misoedd i'w chwblhau mewn achosion eithriadol, ond dylid osgoi oedi gan osod amserlen a chadw iddi.

Dylai Cyfarfod Strategaeth bob tro ddigwydd ar ddiwedd ymchwiliad er mwyn tynnu'r broses i ben.

4.5.4 Canlyniadau'r Cyfarfod Strategaeth

Gall ganlyniadau'r Cyfarfod Strategaeth fod yn un neu fwy o'r canlynol:

- **Ymholiadau Adran 47 Asesiad Cychwynnol** - gall y rhain arwain, yn eu tro, i Gynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol, neu ddim gweithredu pellach. Mae modd galw cynhadledd ar blant eraill sydd wedi cael cysylltiad â'r camdriniwr honedig, gan gynnwys ei blant ef neu hi ei hun, yn ogystal â'r gynhadledd ar y plentyn neu blant sydd wedi'u henwi yn yr honiad.
- **ymchwiliad troseddol** - gall hyn arwain at yr heddlu yn penderfynu trosglwyddo'r achos i Wasanaeth Erlyn y Goron er mwyn erlyn, neu i ddim gweithredu pellach.
- **gwrandawriad disgyblu** - gall hyn yn ei dro arwain at atal o'r gwaith dros dro, gwrandawriad disgyblaethol, neu ddim gweithredu pellach. Dylai asiantaethau amddiffyn plant gynorthwyo gydag unrhyw drefn disgyblu (e.e. drwy ddarparu tystiolaeth berthnasol) cyn belled bod modd gwneud hyn heb dorri dyletswyddau eraill.

Os mai canlyniad y Cyfarfod Strategaeth yw dim gweithredu pellach, yna dylid cofnodi'r rhesymau am y penderfyniad hwn.

4.5.5 Cyfarfod Adolygu Canlyniadau'r Ymchwiliad

Bydd y cyd-drefnydd achos yn galw Cyfarfod Adolygu Canlyniadau'r Ymchwiliad o fewn pum diwrnod i gwblhau'r ymholiadau Adran 47. Bydd y cyfarfod yn penderfynu p'un a fydd yr honiad yn aros o fewn y drefn amddiffyn plant ai peidio. Bydd y cyfarfod yn cael ei fynychu gan y sawl fu â rhan yn y Cyfarfod Strategaeth, yn ogystal ag eraill fu'n ymwneud â'r drefn ymchwilio, ac eiriolwr y plentyn.

NODIADAU

Bydd y Cyfarfod Adolygu Canlyniadau'r Ymchwiliad yn:

- gwerthuso'r wybodaeth sydd wedi'i chasglu yn ystod yr ymholiadau;
- penderfynu, ar sail tebygolrwydd, a oes sail i'r honiadau;
- penderfynu â oes angen gweithredu pellach yn sgil y wybodaeth a gasglwyd;
- sicrhau bod cefnogaeth therapiwtig ar gael i'r plentyn neu'r plant yn ôl y galw;
- os penderfynir nad oes sail i'r honiad, bydd angen cofnodi'r rheswm am y penderfyniad.

4.5.6 Canllawiau pellach ar warchodwyr plant

Gan fod gwarchodwyr plant yn cael eu rheoli gan Rheoliadau Cofrestru ac Archwilio, dylai aelodaeth o'r Cyfarfod Strategaeth hefyd gynnwys:

- swyddog Cofrestru ac Archwilio (Arolygaeth Safonau Gofal Cymru (ASGC) o Ebrill 2002)
- uwch swyddog Gwasanaethau Cymdeithasol â chyfrifoldeb am ofal dydd

Bydd y Cyfarfod Strategaeth yn ystyried pa gamau ddylid eu dilyn gan y ASGC mewn perthynas ag atal cofrestriad y gwarchodwr plant a pha wybodaeth ddylid ei rhannu gyda rhieni eraill sy'n defnyddio gwasanaeth y gwarchodwr ar hyn o bryd. Bydd y Cyfarfod Strategaeth hefyd yn:

- enwi plant sydd, neu a fu, yn cael eu gwarchod gan y gwarchodwr;
- ystyried sefyllfa plant y gwarchodwr ei hun;
- penderfynu pa wybodaeth fydd yn cael ei rhoi i'r gwarchodwr am yr honiadau a'r ymchwiliad; bydd Cadeirydd y Cyfarfod Strategaeth yn anfon hwn yn ysgrifenedig i'r gwarchodwr;
- penderfynu pa wybodaeth fydd yn cael ei rhoi i'r rhieni/gofalwyr, bydd Cadeirydd y Cyfarfod Strategaeth yn anfon hyn yn ysgrifenedig at y rhieni/gofalwyr;
- adnabod natur a lefel y gefnogaeth i'w chynnig i bawb fu'n wneud â'r mater.

Yn ystod yr ymholiadau, bydd angen annog y gwarchodwr i dderbyn cefnogaeth gan Gymdeithas Genedlaethol Gwarchodwyr Plant. Bydd y gwarchodwr yn derbyn gymaint o wybodaeth ag yw'n bosibl heb ragfarnu effeithlonrwydd a datblygiad yr ymchwiliad.

4.6 Camdriniaeth gan blant a phobl ifanc

4.6.1 Ymateb i gamdriniaeth gan blant a phobl ifanc

Dylai camdriniaeth gan blant a phobl ifanc gael ei drin yn ddifrifol a dylai bob tro fod yn destun cyfeiriad. Bydd rhai pobl ifanc yn dod i'r broses hon drwy'r system gyfiawnder troseddol oherwydd bod eu hymddygiad camdriniol honedig wedi'i ymchwilio'n gyntaf yn uniongyrchol gan yr heddlu sy'n gorfod hysbysu'r Gwasanaethau Cymdeithasol bob tro. Dylai'r wybodaeth gael ei thrin fel cyfeiriad amddiffyn plant.

NODIADAU

Dylai bod dull cydlynol i ymateb i honiadau o gam-drin gan blant a phobl ifanc ar ran y Tîm Troseddu Ieuenctid, Gwasanaethau Cymdeithasol, gwasanaethau addysg (gan gynnwys seicolegwyr addysg a lles addysg) a'r gwasanaeth iechyd (gan gynnwys asiantaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc).

Dylid ystyried anghenion plant a phobl ifanc sy'n cam-drin eraill ar wahân i'w dioddefwyr a dylid cynnal asesiad ym mhob achos.

Dylid dal plant a phobl ifanc sy'n cam-drin eraill yn gyfrifol am eu hymddygiad camdriniol, ac ar yr un pryd dylid eu canfod ac ymateb iddynt mewn ffordd sy'n diwallu'u hanghenion yn ogystal ag amddiffyn eraill.

Mae plant a phobl ifanc sy'n cam-drin eraill yn debygol o fod ag anghenion sylweddol eu hunain yn ogystal â pheri perygl sylweddol i blant eraill. Gallant hwy hefyd fod angen eu hamddiffyn. Felly, pan geir honiad bod plentyn neu berson ifanc arall o fewn neu'r tu allan i'r teulu wedi cam-drin plentyn, rhaid i'r canllawiau amddiffyn plant gael eu dilyn mewn perthynas â'r dioddefwr a'u **hystyried** mewn perthynas â'r camdriniwr honedig. Dylid hefyd ystyried lles plant eraill (e.e. y rhai sy'n byw yn yr un uned breswyl).

4.6.2 Camau i'w cymryd

Yn sgil y cyfeiriad, bydd y canllawiau amddiffyn plant yn Rhan 3 yn cael eu dilyn, gyda'r amrywiadau canlynol.

Pan fydd achos o honedig o blentyn yn cam-drin plentyn arall o fewn uned breswyl, rhaid hysbysu rheolwr y cartref. Rhaid iddo ef neu hi wneud cyfeiriad i'r arweinydd tîm gyda chyfrifoldeb am amddiffyn plant yn yr ardal. Rhaid i reolwr yr uned breswyl a Gweithiwr Allweddol y plentyn fynychu'r Cyfarfod Strategaeth.

Wrth gynllunio'r ymchwiliad mae'n bwysig sicrhau bod:

- gwybodaeth sy'n berthnasol i anghenion y dioddefwr a'r camdriniwr yn cael ei gasglu unwaith yn unig, a'i rannu;
- bod yr ymchwiliadau'n ddigon ar wahân i sicrhau bod anghenion a'r peryglon i bob plentyn yn cael eu hasesu yn annibynnol ar ei gilydd, ac nad yw anghenion a buddiannau'r naill blentyn na'r llall yn cael eu trin yn fwy pwysig na'i gilydd;
- bod ystyriaeth wedi'i rhoi i unrhyw anawsterau dysgu y gall fod gan blentyn.

Dylai'r ymchwiliad gymryd i ystyriaeth y ffactorau canlynol:

- gwahaniaeth grym rhwng y camdriniwr honedig a'i ddioddefwr ef neu hi, fydd yn perthyn i oed, maint corfforol, statws deallusol neu statws cymdeithasol;
- soffistigeiddrwydd ac addasrwydd oed y gweithgaredd, yn unol ag oed a dealltwriaeth y person ifanc;
- unrhyw dystiolaeth o drais amlwg, bwlio rhywiol neu ymelwa;
- a roddwyd unrhyw ffurf o gydsyniad;
- a oedd yna gyfrinachedd neu wadiad yn y gweithgaredd;

NODIADAU

- y perygl uniongyrchol posibl o du'r camdriniwr honedig i'w ddioddefwyr honedig presennol ef neu hi ac i ddioddefwyr posibl eraill;
- p'un a yw'r camdriniwr honedig yn "blentyn angen ei amddiffyn" sydd yn y gorffennol wedi dioddef neu'n parhau i ddioddef camdriniaeth.

Blwch 21 • Camdriniaeth gan blant a phobl ifanc ac anabledd / anhawster dysgu

Dylid asesu unrhyw anabledd/anhawster dysgu o'r cychwyn a darparu eiriolaeth addas yn ystod yr ymchwiliad.

Er efallai na fydd plentyn ag anabledd dysgu ar fai, gall y plentyn barhau i fod yn beryglus.

Bydd angen i driniaeth ystyried gallu'r plentyn ac ymateb i anghenion y plentyn mewn modd cyfannol.

4.6.3 Cynadleddau Amddiffyn Plant Cychwynnol mewn achosion o gamdriniaeth gan blant neu bobl ifanc

Dylai Cynhadledd Amddiffyn Plant gael ei chynnal ynghylch dioddefwr camdriniaeth honedig lle *un ai*

- bod rhieni'r plentyn wedi cyfrannu at y gamdriniaeth drwy esgeulustod neu oddefiad *neu*
- bod y camdriniwr honedig yn cael ei ystyried i fod yn achosi perygl pellach i'r plentyn.

Mewn achosion lle mae'r camdriniwr honedig wedi cael ei adnabod fel dioddefwr posibl camdriniaeth ac mae'n wynebu perygl sy'n parhau, dylid cynnal Cynhadledd Amddiffyn Plant ar wahân amdano ef neu hi.

Rhaid i'r penderfyniad i **beidio** cynnal cynhadledd gael ei wneud gan y Gwasanaethau Cymdeithasol gan ymgynghori'n llawn gyda'r holl asiantaethau sydd â rhan yn yr ymchwiliad. Os nad oes cytundeb, dylid ymgynghori â'r cyd-drefnydd amddiffyn plant.

Dylai'r gynhadledd ar y camdriniwr honedig wneud y canlynol:

- rhannu'r holl wybodaeth sydd ar gael am y person ifanc gan gynnwys amgylchiadau ei deulu ef neu hi ac amgylchiadau'r ymddygiad camdriniol a natur y drosedd a gyflawnwyd, ac ystyried a ddylid gosod enw'r person ifanc ar Gofrestr Amddiffyn Plant;
- ystyried lefel y ddealltwriaeth sydd ganddo ef neu hi o'r drosedd;
- fewn fframwaith yr Asesiad Craidd parhaus, penderfynu ar unrhyw asesiad arbenigol arall sydd efallai ei angen;
- gosod dyddiad i drafod canlyniadau'r Asesiad Craidd ac unrhyw asesiadau arbenigol ychwanegol;
- sicrhau bod lleoliad y person ifanc yn amddiffyn unrhyw ddioddefwyr yn llawn a bod y person ifanc yn cael ei gynnal yn ddiogel;

NODIADAU

- ystyried unrhyw gymorth arall y dylid ei gynnig i'r camdriniwr a'i deulu ef neu hi;
- ceisio cytundeb y person ifanc a'i deulu i pa bynnag ymyrraeth bellach sydd ei hangen;
- adnabod adnoddau a/neu asiantaethau i wneud gwaith ymyrraeth;
- ystyried ffurfiau eraill o ymyrryd lle nad oes modd dod i gytundeb gwirfoddol, gan gynnwys achos llys.

Dylid darparu cymorth gydag asesu gan weithiwr proffesiynol sydd wedi derbyn hyfforddiant ac sy'n brofiadol yn y maes gwaith hwn.

Lle gwneir penderfyniad i beidio galw Cynhadledd Amddiffyn Plant efallai y bydd argymhelliad i wneud peth gwaith gyda'r person ifanc ac o bosibl gyda'r teulu/gofalwyr.

Dylid galw cyfarfod cynllunio mewn achosion lle nad yw camdriniwr honedig wedi cael ei adnabod rhywun sydd wedi dioddef camdriniaeth ond lle mae'r ymchwiliad wedi codi pryder fod y camdriniwr honedig wedi gweithredu mewn ffordd gamdriniol.

4.6.4 Y plentyn sy'n dod o dan amheuaeth

Gall blentyn sy'n cael ei gyfweld ddod o dan amheuaeth o ymwneud â throedd gyfreithiol, gan efallai wneud datganiad argyhuddol. Dylid terfynu'r cyfweiliad a hysbysu'r plentyn ei bod hi'n bosibl iddo ef neu hi gael ei gyfweld am y materion hyn yn ddiweddarach.

Os yw'r plentyn yn cael ei gyfweld yn unol â *Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol*, bydd ef neu hi'n derbyn rhybudd a phwrrpas y cyfweiliad yn cael ei wneud yn glir.

Lle mai'r flaenoriaeth yw cael tystiolaeth gan y plentyn fel dioddefwr neu dyst, yna gall y cyfweiliad fynd yn ei flaen a dylai ddilyn canllawiau'r Swyddfa Gartref.

4.7 Honiadau o gam-drin plant yn derbyn gofal sy'n byw y tu allan i ardal yr awdurdod lleol

Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol lle mae plentyn sy'n derbyn gofal yn byw mewn lleoliad nad yw'n cael ei reoli'n uniongyrchol gan yr Awdurdod Lleol sydd â chyfrifoldeb am y plentyn. Gall y plentyn fod yn byw mewn lleoliad arall sy'n cael ei ddarparu gan Awdurdod Lleol arall neu gorff annibynnol. Fel rheol dylai'r Awdurdod Lleol yr ardal lle mae'r plentyn wedi ei leoli ymgymryd â'r ymholiadau Adran 47. Er hynny, mae'n bosib y bydd amgylchiadau lle byddai'r Awdurdod 'cartref' (h.y. cyfrifol) yn ymgymryd ag ymholiadau yn lle hynny, ond dim ond gyda chytundeb llawn y ddau awdurdod y gellir gwneud hynny.

Rhaid i honiad neu ddigwyddiad o gam-drin plant yn ymwneud â phlentyn sy'n 'derbyn gofal' sydd wedi'i leoli o fewn Awdurdod Lleol arall gael ei adrodd i reolwr

NODIADAU

Gw. adran 3.5

uwch y cartref preswyl, neu rheolwr gofal maeth, yr Awdurdod lle mae’r plentyn wedi’i leoli. Rhaid hysbysu cyd-drefnydd amddiffyn plant yr Awdurdod hwnnw a bydd ef yn gyfrifol am hysbysu’r gweithiwr cyfatebol yn yr awdurdod cyfrifol.

Rhaid i’r Awdurdod sydd â chyfrifoldeb hysbysu gweithiwr cymdeithasol y plentyn yn syth am y digwyddiad, â bydd y gweithiwr cymdeithasol yn hysbysu’r rheolwr tîm priodol. Os mai’r plentyn sydd wedi’i leoli yn ardal yr awdurdod lleol arall yw’r camdriniwr honedig, bydd yr un drefn yn cael ei dilyn.

Bydd y gweithiwr cymdeithasol yn hysbysu rhieni’r plentyn o’r digwyddiad ac yn esbonio y bydd canllawiau amddiffyn plant yn cael eu dilyn.

Dylai cyd-drefnydd amddiffyn plant yr awdurdod sy’n cynnal yr ymchwiliad sicrhau bod Cyfarfod Strategaeth yn cael ei alw fydd yn cynnwys yr aelodau craidd canlynol:

- Uwch reolwr yr Awdurdod Lleol lle mae’r plentyn wedi ei leoli, fydd yn cadeirio’r cyfarfod;
- Swyddog(ion) yr heddlu o’r Uned Cefnogi Teuluoedd perthnasol;
- Un neu fwy o gynrychiolwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yr awdurdodau lleol perthnasol;
- Aelod o staff o’r uned breswyl neu’r rheolwr gofal maeth, pa un bynnag sy’n berthnasol.
- Unrhyw weithiwr proffesiynol arall sydd â chyfraniad i’w wneud, yn arbennig uwch weithwyr proffesiynol o’r asiantaethau sy’n ariannu.
- Cynrychiolydd lleol ASGS

NODIADAU

AMSERLEN

- Mae’r asiantaeth sy’n cyfeirio yn adrodd pryderon i’r Gwasanaethau Cymdeithasol neu’r Heddlu. Yr asiantaeth sy’n cyfeirio yn dilyn adroddiad llafar gydag adroddiad ysgrifenedig. *O fewn dau ddiwrnod gwaith.*
- Mae’r gweithiwr dyletswydd yn rhannu’r cyfeiriad gyda’i swyddog dynodedig *yr un diwrnod.*
- Asesiad Cychwynnol i’w gwblhau *o fewn 7 niwrnod gwaith o dderbyn y cyfeiriad.*
- Lle mae ymchwiliad Adran 47 yn cael ei grybwyll, mae trafodaethau gyda’r heddlu a phenderfyniad am y camau nesaf *o fewn 24 awr.*
- Cyfarfod Strategaeth i’w gynnal os yn briodol cyn gynted ag y bo modd ond *o fewn 8 diwrnod gwaith o dderbyn y cyfeiriad.*
- Cynhadledd i’w galw *o fewn 15 diwrnod gwaith o ddechrau ymholiadau Adran 47.*
- Asesiad Cychwynnol i’w gwblhau *o fewn 42 diwrnod gwaith o gychwyniad yr Asesiad Cychwynnol.*
- Grŵp Craidd i’w alw *o fewn 10 diwrnod gwaith o’r gynhadledd gychwynnol.*
- Cynhadledd adolygu gyntaf i’w chynnal *o fewn 3 mis o’r gynhadledd gychwynnol.*
- Adolygiadau dilynol i’w cynnal *o fewn 6 mis.*